Rhagair

gan y Cynghorydd Shân Wilkinson, Arweinydd y Cyngor

Mae symud tuag at gyfundrefn gludiant effeithlon, ddiogel a chynaliadwy yn hanfodol i sicrhau y bydd gennym gymuned ffyniannus, iach yn y dyfodol agos ac am genedlaethau i ddod.

Yn lleol, gallwn weld tagfeydd cynyddol. Bob dydd, darllenwn yn y papurau lleol am ddamweiniau ffordd. Mae 17,000 yn digwydd yn y Fwrdeistref Sirol bob blwyddyn ac mae gan lawer ohonom brofiadau personol o'r boen, y galar a'r dioddef sy'n cael eu hachosi.

Rydym oll yn ymwybodol o'r effeithiau dinistriol sy'n cael eu darogan oherwydd twymo byd-eang, llawer ohono oherwydd allyriadau niweidiol cludiant.

Gwyddom fod angen mynd i'r afael â'r problemau a gwyddom y bydd yn anodd.

Yn y pedair blynedd ers ffurfio Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam rydym wedi llunio polisïau newydd, wedi newid agweddau ac wedi gweithredu rhychwant eang o atebion cynaliadwy, ond dim ond pigyn y rhewfryn yw hyn ac mae angen gwneud llawer mwy. Mae'r Cyngor yn ymroddedig i'r Cynllun Cludiant Lleol ac rwy'n cymell pawb i roi eu cefnogaeth lawn iddo.

Shan Wilkinson

Crynodeb

Dyma'r Cynllun Cludiant Lleol cyntaf i Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam ei lunio. Mae'n dangos ein rhaglen am y pum mlynedd nesaf ac yn amlinellu gweledigaeth ugain mlynedd ar gyfer cludiant yn y Fwrdeistref Sirol. Mae'r Cynllun yn ateb gofynion y Llywodraeth i leihau tagfeydd traffig a llygredd a chynnig mwy o ddewis cludiant, gyda llai o ddibyniaeth ar y car. Mae'r cyflwyniad yn dangos sut mae'r Cyngor yn ymroddi i ddod o hyd i atebion cynaliadwy i'w broblemau cludiant.

Amcan cyflawn y Cynllun Cludiant Lleol yw;

"Darparu ar gyfer anghenion cludiant presennol ac yn y dyfodol yn y Fwrdeistref Sirol a sicrhau fod buddsoddiad mewn cludiant yn berthynol i amcanion cynllunio defnydd tir, yr amgylchedd, cymdeithasol a lleihau damweiniau"

Roedd adolygu polisi cludiant yn flaenoriaeth uchel pan ffurfiwyd Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam ym mis Ebrill 1996. Cyhoeddwyd y "Strategaeth Cludiant Cyfun" sy'n dangos amcanion cludiant a gweledigaeth y Cyngor drwyddi draw, ynghyd â'r strategaeth gyflawn fel y brif ddogfen yn Ionawr 1999. Y ddogfen hon yw sail y Cynllun Cludiant Lleol. Wedi hynny cyhoeddwyd is-strategaethau manwl ar gludiant cyhoeddus, beicio, cerdded, diogelwch ar y ffordd, hawliau tramwy cyhoeddus, parcio, ffyrdd a phontydd. Y strategaeth derfynol yn y teulu hwn o ddogfennau yw cludiant gwyrdd, sy'n cael ei ddatblygu ar hyn o bryd.

Mae dwy brif thema i'r cynllun;

- Gwrando ar, a gweithio gydag, eraill
  I drin problemau cludiant yn effeithiol, rhaid i'r Cyngor weithio gyda rhychwant eang o gyrff eraill. Mae llawer o deithiau a gwasanaethau cludiant cyhoeddus yn croesi ffiniau sirol ac mae angen i ni weithio'n agos gydag awdurdodau eraill i ddatblygu polisïau cyd-drefnus. Mae'r Cyngor yn ymroddi i wrando ar, a gweithio gydag, eraill i ddatblygu atebion sydd â chefnogaeth leol a rhai sy'n ateb anghenion lleol. Trwy'r cyfan o'r cynllun hwn fe welwch dystiolaeth o hyn. Bydd trefn adolygu Gwerth Gorau'r Cyngor yn ceisio gwella'r ymarferiad da presennol.

- Gostwng defnyddio, nid perchenogaeth, cerbydau modur
  Prif bwyslais y cynllun yw darparu dewisiadau yn lle defnyddio'r car preifat. Bydd y rhain yn cynnwys cyfleusterau cludiant cyhoeddus, beicio a cherdded o ansawdd uchel a diogel fydd yn denu pobl allan o'u ceir. Fodd bynnag, bydd rhai teithiau bob amser na fydd byth fodd eu gwneud gyda'r dulliau uchod. Felly, nid yw'r Cynllun yn cynnig mesurau fydd yn cyfyngu ar berchenogaeth ceir, er y gall llawer o gartrefi ddarganfod eu bod angen llai o geir, neu yn wir, ddim car o gwbl yn y dyfodol.

Mae pynciau cludiant yn rhan o holl agweddau ar ein bywydau bob dydd ac mae'n bwysig, felly, peidio trin problemau a chyfleoedd cludiant yn unigol ond eu bod yn ffurfio rhan o gyfres ehangach o strategaethau. Felly, mae'r Cyngor yn gosod pwysigrwydd mawr ar y Cynllun Cludiant Lleol gan ddatgan ei fod yn un o'i Naw Polisi Corfforedig allweddol. Mae'r Cynllun Cludiant Lleol yn galluogi'r Cyngor i hybu ei Strategaeth Cludiant Cyfun a, thrwy hyn, y gobaith yw dod â buddion i bobl ac amgylchedd y Fwrdeistref Sirol.

Cynnwys – Cyfrol 1

		Tudalen
	Rhagair gan y Cynghorydd Shân Wilkinson	**1**
	Crynodeb	**2**
1.0.	**Cyflwyniad**	**5**
2.0.	**Ymgynghoriad**	**7**
3.0.	**Amcanion**	**12**
4.0.	**Problemau, Cyfleoedd a Strategaethau**	**18**
	Cyflwyniad	18
	Yr Amgylchedd	21
	Cynllunio Defnydd Tir	23
	Cerdded	25
	Beicio	28
	Cludiant Cyhoeddus	30
	Parcio a Pharcio a Theithio	36
	Nwyddau	41
	Cludiant Gwyrdd	43
	Gwella Ffyrdd	45
	Diogelwch ar y Ffordd	48
	Gostegu Traffig	53
	Tacsis a Cherbydau Llogi Preifat	54
	Cerbydau Dwy Olwyn Gyredig	55
	Cynnal Ffyrdd a Phontydd	56
5.0.	**Cyflawniad Hyd Yma**	**58**
6.0.	**Deddf Lleihau Traffig Ffordd**	**61**
7.0.	**Y Rhaglen 5 Mlynedd**	**62**
8.0.	**Y Weledigaeth 20 Mlynedd**	**68**
9.0.	**Dangosyddion Cyflawniad a Thargedau**	**69**
	Atodiad	
	1 – Ymgynghoriad - sylwadau ac ymatebion	71

Cynnwys – Cyfrol 2

Mae'r Gyfrol hon yn cynnwys y strategaethau unigol;
Parcio / Cludiant Cyhoeddus / Cerdded / Hawliau Tramwy Cyhoeddus / Diogelwch ar y Ffordd / Ffyrdd / Pontydd/ Beicio

Rhestr o Ffigurau

Rhif y Ffigur	Teitl
1	Lleoliad
2	Y Rhwydwaith Ffyrdd
3	Llifau Traffig
4	Llifau Cerddwyr
5	Canol Tref Wrecsam – Rhwydwaith Cludiant Cyfun
6	Rhwydwaith Beicio (Canol y Dref)
7	Gwasanaethau Bws (Y Fwrdeistref Sirol)
8	Gwasanaethau Bws (Canol y Dref)
9	Y Rhwydwaith Rheilffyrdd

Mwy o Wybodaeth

O byddwch angen mwy o wybodaeth neu gopïau ychwanegol o'r Cynllun Cludiant Lleol hwn cysylltwch â;

Julie Evans ar 01978 297167 neu e-bost julie.evans@wrexham.gov.uk

Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
Gwasanaethau Cludiant a Pheirianneg,
Adeiladau'r Goron
Blwch Post 1293
Wrecsam
LL11 1WQ

1. Cyflwyniad

Cynllun Cludiant Lleol

1.1. Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn mynnu bod pob Awdurdod Unedol yn cyflwyno Cynllun Cludiant Lleol sy'n dangos y bras amcanion a strategaethau dros gyfnod o bum mlynedd ynghyd â gweledigaeth 20 mlynedd.

1.2. Dyma Gynllun Cludiant Lleol Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam (CBSW). Ei amcanion yw sefydlu strategaeth hirdymor i fynd i'r afael â'r problemau, cyflenwi'r amcanion a ddatganwyd a dod â buddion i'r cymunedau a'r amgylchedd yn ardal y Fwrdeistref Sirol.

1.3. Mae pynciau cludiant yn rhan o holl agweddau ar ein bywydau bob dydd ac mae'n bwysig, felly, peidio trin problemau a chyfleoedd cludiant yn unigol ond eu bod yn ffurfio rhan o gyfres ehangach o strategaethau. Felly, mae'r Cyngor yn gosod pwysigrwydd mawr ar y Cynllun Cludiant Lleol gan ddatgan ei fod yn un o'i Naw Polisi Corfforedig allweddol.

1.4. Ers ei ffurfio yn Ebrill 1996 mae CBSW wedi ystyried bod angen polisïau cludiant eglur i gyrraedd y weledigaeth a'r amcanion corfforedig. Felly, y Strategaeth Cludiant Cyfun, a gyhoeddwyd ar ôl ymgynghoriad a chefnogaeth eang, sy'n ffurfio'r seiliau cadarn yr adeiladwyd y Cynllun Cludiant Lleol arnynt.

1.5. Mae'r Cyngor yn cydnabod fod raid iddo weithio mewn dull corfforedig a chyfun i gael defnydd effeithlon o adnoddau ac i weithio gyda'i gymdogion i drin materion traws-ffiniol. I gyrraedd ei amcanion cludiant, bydd y Cyngor yn cynnal a gwella partneriaethau gyda rhychwant eang o sefydliadau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol a'r cyhoedd cyffredinol.

Lleoliad Daearyddol

1.6. Mae daearyddiaeth a dosbarthiad poblogaeth Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn unigryw. Lluniwyd y Cynllun Cludiant Lleol i gyfrif nodweddion arbennig y Fwrdeistref Sirol a'r rhanbarth oddi amgylch.

1.7. Saif Bwrdeistref Sirol Wrecsam yng Ngogledd-ddwyrain Cymru, gan ymestyn o Wastatir Caer yn y dwyrain hyd Fryniau Clwyd yn y gorllewin. Mae'n cynnwys tref Wrecsam fel canolbwynt, gyda'r hen bentrefi trefol diwydiannol a mwyngloddio cyfagos i'r gorllewin a Stad fawr Ddiwydiannol Wrecsam yn y dwyrain. I'r de a'r dwyrain saif y trefi a phentrefi gwledig, tra bo ardaloedd ffermio mynydd yn Nyffryn Ceiriog yn y de-orllewin. Mae Ffigur 1 yn dangos lleoliad daearyddol y Fwrdeistref Sirol mewn perthynas â Gogledd Cymru a Gogledd-orllewin Lloegr.

Cefnffordd yr A483 yn croesi Afon Dyfrdwy

Dadansoddiad Is-ranbarthol

1.8. Wrth ystyried y dylanwadau cludiant ac economaidd ar yr isranbarth, mae angen cydnabod y bydd gan bolisïau a strategaethau ar gyfer Gogledd Cymru, Gogledd-orllewin a Gorllewin Canolbarth Lloegr, oblygiadau pwysig i Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam.

1.9. Mae'r Fwrdeistref Sirol ynghanol 5 sir, Powys, Sir Ddinbych a Sir y Fflint yng Nghymru a Swydd Caer a Swydd Amwythig yn Lloegr. Oherwydd y tir mynyddig a thrwch isel y boblogaeth, yr unig gysylltiadau cludiant gyda Phowys yw mân ffyrdd. Mae tri chyswllt priffordd gyda Sir Ddinbych ond mae'r mwyafrif o'r teithiau cerbyd modur a'r cyfan o'r teithiau trên ar draws y ffin i Sir y Fflint, Swydd Amwythig a Swydd Caer.

1.10. Cefnffordd yr A5/A483 yw'r brif ffordd yn y Fwrdeistref Sirol sy'n ffurfio rhan o'r Rhwydwaith Traws-Ewropeaidd o Felixtowe i Gaergybi. Mae'n llwybr o safon uchel rhwng de a gogledd ac mae'n cysylltu'r Fwrdeistref Sirol gyda Gogledd-orllewin Lloegr ar hyd yr A55(T) a'r M53/M56 a Chanolbarth Lloegr ar hyd yr A5 a'r M54. Y prif gyswllt ffordd i Ganolbarth a De Cymru yw'r A483(T)

1.11. Mae dau lwybr trenau yn y Fwrdeistref Sirol,

- Wrecsam - Bidston
- Caer – Wrecsam – Amwythig – Birmingham
-

1.12. Mae'r rhan fwyaf o deithiau trên, sydd heb gael eu gwasanaethu'n uniongyrchol, yn golygu newid trenau yng Nghaer i fynd i Crewe, Manceinion a Llundain. Mae'r rheilffyrdd yn cael ei defnyddio fwyfwy at gludo nwyddau.

1.13. Y prif feysydd awyr yn yr isranbarth yw Manceinion a Lerpwl. Nid yw'r maes awyr lleol ym Mhenarlâg (Sir y Fflint) yn cael ei ddefnyddio at hedfan masnachol ar hyn o bryd.

1.14. Mae dau brif borthladd yn yr isranbarth, yng Nghaergybi a Lerpwl, y ddau yn cael eu defnyddio i gludo cerbydau, nwyddau a theithwyr i'r Iwerddon.

Poblogaeth

1.15. Mae dros 125,000 o bobl yn byw ym Mwrdeistref Sirol Wrecsam, gyda 34% o'r rhain yn byw yn nhref Wrecsam. Mae 56% ychwanegol yn byw mewn pentrefi trefol, wedi eu lleoli yn bennaf i'r gorllewin o'r dref, tra bo'r 10% sy'n weddill yn byw mewn ardaloedd yn y dwyrain a'r de sy'n wledig gan mwyaf. Mae tref Wrecsam, ynghyd â'r pentrefi trefol, yn ffurfio cytref lac o dros 110,000, yr un fwyaf o bell ffordd yng Ngogledd Cymru ac yn fwy na'i chymydog agosaf, Caer.

- Mae 57% o'r boblogaeth yn economaidd weithredol, i'w gymharu â 55% dros Gymru gyfan.

- Mae bron i 25% o'r boblogaeth yn gweithio mewn diwydiannau cynhyrchu, i'w gymharu â 17% o'r boblogaeth dros Gymru.

- Mae 60% yn berchen eu tai eu hunain ond mae 31% sylweddol yn byw yn nhai'r Awdurdod Lleol.

- Ar draws y Fwrdeistref Sirol mae 32% o gartrefi heb fod â char ar gael, ond bod hyn yn amrywio rhwng 52% ym Mharc Caia i 8% yng Ngheiriog Ucha. Mewn llawer o gartrefi, bydd y perchennog yn mynd â'r car i'r gwaith, gan adael gweddill aelodau'r cartref heb gar ar gael.

- Gydag 1 mewn 3 o gartrefi heb fod â char ar gael, mae'n amlwg fod angen polisïau cludiant sydd heb fod ar sail y car yn unig.

2. Ymgynghoriad

2.1. Mae'r Cyngor yn cydnabod, os yw'r Cynllun Cludiant Lleol i lwyddo, bod raid iddo fod â chefnogaeth leol eang. Cafwyd hyn trwy drefn ymgynghori gynhwysfawr.

2.2. Ym mis Mehefin 1998, cynhaliwyd arolygon helaeth cyn cynhyrchu Strategaeth Cludiant Cyfun Wrecsam (SCCW).

2.3. Dangosodd ymgynghoriad SCCW fod cefnogaeth sylweddol i'r holl gynigion a roddwyd ger bron. Y cynigion mwyaf poblogaidd oedd;

- Cynllunio Defnydd Tir (98.2%)
- Diogelwch ar y Ffordd a Gostegu Traffig (95.5%)
- Ariannu (95.5%)
- Teithiau Mwy Diogel i Ysgolion a Cholegau (95.4%)
- Pobl gydag Anawsterau Symud (94.9%)

2.4. Cafodd y Cynllun Cludiant Lleol ei hysbysebu a'i hybu'n eang yn ystod y cyfnod ymgynghori rhwng 1 a 31 Mai 2000 yn y Fwrdeistref Sirol a chydag awdurdodau cyfagos a chwmnïau cludiant.

Dulliau Ymgynghori

2.5. Defnyddiodd y Cyngor bump prif ddull o ymgynghori;

- Arolwg drwy'r Post
- Panel Arolwg Dinasyddion
- Hysbysebion Papur Newydd
- Safwe Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
- Seminar Aelodau

Caiff y rhain eu disgrifio'n fanwl isod.

Arolwg drwy'r Post

2.6. Yn wreiddiol anfonwyd copïau o'r Cynllun Cludiant Lleol llawn, neu'r crynodeb gweithredol, i 327 o gyrff. Roedd y rhain yn cynnwys;

- Sefydliadau Amgylcheddol
- Cwmnïau Cludiant Cyhoeddus
- Grwpiau â Diddordeb mewn Cludiant
- Cyrff Mewnol y Cyngor
- Awdurdodau Cyfagos
- Aelodau o'r Cynulliad / Aelodau Seneddol
- Addysg
- Grwpiau Gofal Iechyd
- Sefydliadau Ffordd
- Cymdeithasau Marchogaeth a Cherdded
- Y Gwasanaethau Argyfwng

2.7. Yn ystod y cyfnod ymgynghori hysbysebwyd yn eang lle'r oedd y cynllun ar gael ac anfonwyd tua 50 o gynlluniau i unigolion a sefydliadau a wnaeth gais amdano.

2.8. Roedd holiadur ac amlen ragdal yn cael eu cynnwys gyda phob cynllun a gwahoddwyd pawb i

roi eu barn.

Y Panel Dinasyddion

2.9. Mae'r Panel Dinasyddion yn gwella gallu'r Cyngor i ymgynghori â'r cyhoedd ar rychwant eang o bynciau. Mae'n cynnwys sampl gynrychiadol o tua 500 o bobl yn y Fwrdeistref Sirol. O fewn paramedrau'r sampl ofynnol, h.y. oed, rhyw a ward, cawsant eu dewis ar hap a'u cyfweld wyneb yn wyneb yn eu cartrefi. Yn ystadegol, dylai barn y Panel ddilyn barn y boblogaeth gyfan, gan oresgyn problem llawer o waith ymgynghori sy'n gallu tueddu i fod o blaid y rhai gyda diddordeb cryf yn y mater.

Hysbysebion Papur Newydd

2.10. Gosodwyd hysbysebion delwedd uchel mewn dau bapur newydd poblogaidd gyda chryn gylchrediad yn y Fwrdeistref Sirol. Trwy hysbysebion yn y *Wrexham Leader* a'r *Wrexham Mail* gwahoddwyd pobl i ymweld â'u llyfrgell leol, swyddfa'r Cyngor neu safwe Wrecsam i weld y Cynllun, neu ddweud wrthynt sut i gael eu copi eu hunain.

Safwe CBSW

2.11. Yn ystod y Cyfnod ymgynghori, cyhoeddwyd y Cynllun Cludiant Lleol ar y Safwe ac roedd ar gael i'w drawslwytho. Roedd yr holiadur ar gael hefyd i'w argraffu a'i ddychwelyd.

Aelodau CBSW

2.12. Yn dilyn ystyriaeth y Bwrdd Gweithredol, trefnwyd seminar o'r aelodau ar 23 Mai 2000 gan gynnwys cyflwyniad ar gynnwys y cynllun ac yna sesiwn drafod gydag awgrymu newidiadau i ddilyn. Fel Strategaeth Gorfforedig, ystyriwyd y Cynllun Cludiant Lleol ac yna'i gymeradwyo mewn Cyfarfod arbennig o'r Cyngor ar 17 Gorffennaf 2000.

Canlyniadau'r Ymgynghoriad

Arolwg drwy'r Post

2.13. Dychwelwyd cyfanswm o 84 holiadur gyda thrawsdoriad eang o sefydliadau ac unigolion yn ymateb. Er bod yr ymateb yn dda, roedd ychydig yn llai na'r ymateb i SCCW oedd yn cynnwys fwy neu lai yr un pynciau, a gall hynny fod oherwydd "gormodedd o ymgynghori".

2.14. Gwahoddodd yr holiadur i atebwyr ddweud eu barn ar bob un o Bolisïau'r CCLl; gan ofyn os oeddent yn Cytuno'n Gryf, yn Cytuno, Heb fod yn Cytuno nac yn Anghytuno, yn Anghytuno, neu'n Anghytuno'n Gryf. Yn ogystal, gofynnwyd i atebwyr ddangos y chwe pholisi oedd bwysicaf iddynt ac amlygu unrhyw beth ddylai, yn eu tyb hwy, gael ei gynnwys, ei newid neu ei ddileu o'r cynllun.

2.15. Ar gyfer pob polisi, cafodd y farn ei sgorio trwy roi llwythiad ar bob un, fel sy'n cael ei ddangos isod;

- Cytuno'n Gryf 100%
- Cytuno 75%
- Heb fod yn Cytuno nac yn Anghytuno50%
- Anghytuno 25%
- Anghytuno'n Gryf 0%

2.16. Caiff canradd y sgôr ar gyfartaledd ei restru dros y dudalen. Mae sgoriau o 88 - 100% yn cytuno'n gryf a 63 - 87% yn cytuno. MAE CYTUNDEB NEU GYTUNDEB CRYF GYDA'R HOLL BOLISÏAU. Mae'r tabl hefyd yn dangos nifer y bobl a ddewisodd bolisi fel un o'r 6 pwysicaf.

Canlyniadau'r Ymgynghori

Pwnc	*Rhif y Polisi*	*Polisi*	%	*Pwysicaf**
Cynllunio	**UDP2**	**Ystyried pynciau cludiant wrth drin holl gynigion cynllunio**	**91%**	**25 – 2il (cydradd)**
Gostegu Traffig	**TC1**	**Gostegu traffig cysylltiedig ag ysgolion**	**91%**	**29 – 1af**
Cludiant Cyhoeddus	PT2	Helpu teithwyr henoed ac anabl	87%	13
Cerdded	**W1**	**Darparu llwybrau cerdded diogel a dymunol**	**87%**	**19 – 5ed (cydradd)**
Cerdded	W2	Ystyried anghenion cerddwyr	86%	10
Cerdded	**W5**	**Annog plant ysgol i gerdded**	**86%**	**25 – 2il (cydradd)**
Yr Amgylchedd	ES2	Hybu rhwydwaith cludiant amgylcheddol deimladwy	86%	5
Cynlluniau Diogelwch Lleol	S3	Canfod mesurau adferol i leihau damweiniau yn y safleoedd clwstwr	86%	10
Yr Amgylchedd	ES1	Cadw golwg ar lygredd	85%	10
Cludiant Cyhoeddus	PT1	Cefnogi cludiant bws confensiynol a chymunedol yng nghefn gwlad	85%	13
Cynnal	**RM1**	**Cynnal ffyrdd a phalmentydd i safon uchel**	**85%**	**19 – 5ed (cydradd)**
Gostegu Traffig	TC2	Gostegu traffig i annog traffig rhag defnyddio llwybrau tarw	84%	12
Cynnal	RM2	Archwilio palmentydd a ffyrdd yn rheolaidd	84%	8
Cludiant Cyhoeddus	BS5	Cynnal rhwydwaith o wasanaethau ysgol	84%	10
Cludiant Cyhoeddus	BS9/UDP5	Ailddatblygu Gorsaf Fysiau Wrecsam	82%	13
Beicio	C5	Goleuo llwybrau beicio yn ddigonol	82%	5
Cludiant Cyhoeddus	BS1	Sicrhau gwasanaethau sydd eu hangen yn gymdeithasol	82%	8
Cludo Nwyddau	**FT1**	**Adeiladu ffordd fynediad i Stad Ddiwydiannol Wrecsam**	**81%**	**21- 4ydd**
Beicio	C2	Darparu parcio i feiciau	80%	5
Cynllunio Defnydd Tir/ CDU	UDP3	Gwella ffyrdd	80%	5
Beicio	C6	Ystyried anghenion beicwyr	80%	6
Cludiant Gwyrdd	GC3	Mynnu bod datblygwyr yn llunio cynlluniau cludiant gwyrdd	80%	6
Gostegu Traffig	TC3	Parthau 20 mya	80%	13
Cludiant Gwyrdd	GC2	Annog cyflogwyr mawr i lunio Cynllun Cludiant Gwyrdd	80%	6
Cynlluniau Diogelwch Lleol	S4	Cynnal mesurau damwneiniau adferol yn ôl blaenoriaeth	79%	5
Parcio a Theithio	P4	Diogelu safleoedd ar gyfer meysydd parcio a theithio	79%	6
Cerdded	W4	Darparu parthau cerdded a gostegu traffig	79%	9
Beicio	C1	Sefydlu llwybrau beicio	78%	14
Cludiant Gwyrdd	GC1	Llunio cynllun cludiant gwyrdd ar gyfer y Cyngor	78%	12
Cludiant Gwyrdd	GC4	Annog ysgolion i sefydlu cynlluniau teithio ysgol	78%	7
Diogelwch ar y Ffordd	S1	Cynnal gweithredoedd y Cynllun Diogelwch ar y Ffordd	78%	5
Parcio	P1/P2	Gweithredu'r Strategaeth Barcio	78%	6
Cynllunio Defnydd Tir/ CDU	UDP4	Diogelu hen reilffyrdd fel llwybrau beicio neu gerdded	77%	12
Cludo Nwyddau	FT2	Cynnal astudiaeth i gludo nwyddau ar y trên	77%	11
Cerdded	W3	Darparu seddau ac arwyddion	77%	4
Cludiant Cyhoeddus	BS8	Gwella isadeiledd min y ffordd, fel llochesau bws	75%	3
Parcio a Theithio	P5	Sefydlu mesurau blaenoriaeth i fysiau ar gyfer bysiau parcio a theithio	74%	2
Cerbydau Dwy Olwyn Gyredig	PTW2	Darparu cyfleusterau parcio diogel	74%	4
Parcio	P3	Cadw golwg ar ddefnyddio meysydd parcio canol y dref	74%	3
Diogelwch ar y Ffordd	S2	Cynhyrchu adroddiad blynyddol ar ddiogelwch ar y ffordd	73%	2
Strategaeth Bontydd	RM3	Gweithredu'r Strategaeth Bontydd	73%	2
Strategaeth Ffyrdd	R1	Gweithredu'r Strategaeth Ffyrdd	73%	2
Cludo Nwyddau	FT3	Datblygu Partneriaethau Nwyddau o Safon	73%	4
Cludiant Cyhoeddus	BS7	Ystyried blaenoriaeth rheoli traffig ar gyfer gwasanaethau bws	73%	1
Cludiant Cyhoeddus	BS6	Sefydlu Partneriaethau Bws o Safon	72%	2
Cludiant Cyhoeddus	PT3	Cefnogi ac ehangu Galw am Gludiant Chariotts	71%	2
Cludiant Cyhoeddus	BS3	Sefydlu gwasanaethau bws arbrofol	71%	4
Cludiant Cyhoeddus	BS2	Codi prisiau ar wasanaethau sydd eu hangen yn gymdeithasol yn unol â'r cwmnïau masnachol	68%	0
Cludiant Cyhoeddus	BS4	Adolygu'r gefnogaeth i lefel y gwasanaeth ar Suliau a Gwyliau Banc	67%	2
Cerbydau Dwy Olwyn Gyredig	PTW1	Ystyried anghenion cerbydau dwy olwyn gyredig	66%	2
Beicio	C3	Darparu cyfleuster llogi beiciau fel rhan o'r Orsaf Fysiau	65%	2

*** Pwysicaf – rhoddwyd cyfle ar yr holiaduron i atebwyr ddatgan y chwe pholisi pwysicaf yn eu tyb.**

2.17. Roedd yn galonogol iawn sylwi fod cryn gefnogaeth i'r holl gynigion a roddwyd ger bron yn y cynllun. Dangosodd y gwaith fod dull y CCLl drwyddi draw yn cael ei ategu'n llethol.

2.18. Yn y gwaith ymgynghori, gwahoddwyd atebwyr i wneud sylwadau ychwanegol. Caiff y sylwadau a dderbyniwyd eu rhestru yn Atodiad 1.

2.19. Fel y mynegwyd yn y Cyflwyniad, mae'r Cynllun Cludiant Lleol wedi ei seilio ar y Strategaeth Cludiant Cyfun a'r dogfennau perthynol sy'n cynnwys agweddau manwl ar y polisi cludiant. Bu'r holl strategaethau trwy ymgynghoriad unigol. Yn ogystal, cynhaliwyd mathau eraill o ymgynghoriad, e.e. arolygon ar gyfer Wythnos Cerdded i'r Ysgol ac arolygon defnyddio beiciau ymysg plant ysgol.

Y Panel Dinasyddion

2.20. Caiff crynodeb o brif ganlyniadau'r Panel Dinasyddion ei restru isod;

- Dim ond un mewn deg o'r atebwyr sydd heb gar ar gael o gwbl.
- Mae dwy ran o dair o'r atebwyr yn berchen eu car eu hunain.
- Mae car rhywun arall ar gael i chwarter yr atebwyr.
- Mae tua thraean o'r atebwyr yn berchen beic, neu gyda beic ar gael.
- Dim ond 4% o'r atebwyr sy'n berchen beic modur, neu gyda beic modur ar gael.
- Mae hanner y trigolion hynny sy'n teithio i'r gwaith, ysgol neu goleg yn teithio o fewn ffiniau tref Wrecsam.
- Mae 3 mewn 10 o'r atebwyr yn teithio yn ardal Bwrdeistref Sirol Wrecsam, ond tu allan i ffiniau tref Wrecsam.
- Mae dwy ran o dair o'r atebwyr yn credu y byddai prisiau rhatach yn gwella cludiant cyhoeddus.
- Mae dau mewn pump o'r atebwyr yn cytuno y byddai parcio a theithio, moderneiddio bysiau a chynyddu nifer y bysiau yn gwella cludiant.







(Sylwer: Gofynnwyd i'r holl atebwyr ddangos i ba raddau yr oeddent yn cytuno gyda rhychwant eang o amcanion oedd yn cael eu cyflwyno yn y Cynllun Cludiant Lleol. Roedd y sgoriau cymedrig ar gyfer pob amcan (lle'r oedd 1 = anghydweld yn llwyr, a 5 = cyd-weld yn llwyr) yn clystyru uwchlaw 4.3, sy'n dangos cytundeb cryf gyda phob amcan.)

3. Amcanion

3.1. Mae cludiant yn rhan annatod o fywyd yn yr 21ain Ganrif. Mae'n effeithio ar bob un o Strategaethau'r Cyngor a chafodd ei ddatgan fel un o'i Naw Polisi Corfforedig allweddol.

3.2. Nid oes modd ystyried Cynllun Cludiant Lleol ar wahân. Rhaid iddo gyd-fynd â pholisïau a strategaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru, awdurdodau cyfagos, Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam a'n partneriaid. Rhaid iddo hefyd drin anghenion lleol.

Amcan cyflawn y Cynllun Cludiant Lleol yw;

"Darparu ar gyfer anghenion cludiant presennol ac yn y dyfodol yn y Fwrdeistref Sirol a sicrhau fod buddsoddiad mewn cludiant yn berthynol i amcanion cynllunio defnydd tir, yr amgylchedd, cymdeithasol a lleihau damweiniau"

Cenedlaethol

3.3. Mae Canllaw i Bolisïau Cynllunio (Cymru) (1996) yn datgan fod;

"*Y Llywodraeth yn amcanu at hyrwyddo symud pobl a nwyddau mewn modd effeithlon a diogel a diogelu'r amgylchedd trwy:*

- gostwng twf yn hyd a nifer teithiau mewn cerbydau modur
- hybu dulliau amgen o deithio sydd â llai o effaith ar yr amgylchedd
- lleihau dibyniaeth ar y car modur
- ceisio sicrhau'r defnydd mwyaf effeithiol o'r rhwydwaith cludiant a thargedu adnoddau i'r perwyl

Polisi'r Llywodraeth yw peidio adeiladu cefnffyrdd na ffyrdd lleol yn unig er mwyn hwyluso cymudo mewn ceir i ganolfannau gorlawn".

3.4. Yn ôl Papur Gwyn y Llywodraeth ar gludiant "*A New Deal for Transport: Better for Everyone*" (1998) mae'n ofynnol fod pob awdurdod yn;

"Creu cyfundrefn gludiant fwy cyfun i fynd i'r afael â phroblemau tagfeydd a llygredd"

3.5. Prif nod y Papur Gwyn yw gwella dewis personol trwy wella'r dewisiadau a sicrhau symudoledd sy'n gynaliadwy yn y tymor hir. Mae'r Papur Gwyn yn gosod y polisi Cludiant Cyfun ac yn egluro sut mae modd ymestyn dewisiadau cludiant i sicrhau fod symudoledd ar gael mewn ffordd sy'n ategu datblygiad cynaliadwy. Caiff Cynlluniau Cludiant Lleol eu gweld fel conglfaen polisïau at gyflawni strategaeth cludiant cynaliadwy.

3.6. Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn ceisio adeiladu ar y polisïau cludiant a gyhoeddwyd yn y Papur Gwyn ac yn y Datganiad Polisi Cludiant Cymreig "Cludo Cymru i'r Dyfodol". Mae'r Cynulliad yn cydnabod fod gan Awdurdodau Lleol ran bwysig mewn gweithredu'r polisïau ac yn credu fod Cynlluniau Cludiant Lleol yn sylfaenol er mwyn cyrraedd yr amcanion polisi a chyflenwi Cludiant Cyfun ar raddfa leol.

3.7. Mae'r Cynllun Cludiant Lleol hwn yn gyson gyda'r weledigaeth hirdymor sy'n cael ei dangos yn www.betterwales.com lle mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn dynodi gweithredoedd penodol i helpu i osod agenda newydd "Gwnaed yng Nghymru". Mae gweithredoedd perthnasol i gludiant yn cynnwys;

"Byddwn yn datblygu fframwaith gofodol cenedlaethol newydd ar gyfer cynllunio, gan osod cyd-destun eglur i ddatblygiad cynaliadwy ac ansawdd amgylcheddol, a datganiad unigol ar gyfleoedd datblygiad cynaliadwy mewn ynni, gwastraff a thechnoleg lân".

"Byddwn yn gosod polisi cludiant newydd sy'n rhoi'r pwyslais ar gael hygyrchedd, gan gryfhau gallu'r Cynulliad i gefnogi atebion lleol a rhanbarthol".

Polisïau Is-ranbarthol

3.8. Datblygwyd polisïau cludiant is-ranbarthol ar gyfer Gogledd Cymru gan Fforwm Economaidd Gogledd Cymru (FfEGC), sy'n cynnwys cynrychiolwyr busnes a diwydiant ac Awdurdodau Lleol Gogledd Cymru, gyda Chyngor Swydd Caer hefyd yn mynychu.

3.9. Mae FfEGC yn ystyried mai'r blaenoriaethau rhanbarthol yw;

- Rheilffordd Arfordir Gogledd Cymru a'i chysylltiad i'r rhwydwaith Cenedlaethol
- Y gwasanaeth trên o Gaergybi i Gaerdydd, Manceinion (a'i faes awyr) a Llundain
- Yr A55 o Gaergybi i Rwydwaith Ffyrdd y DU ac Ewrop
- Cefnffyrdd craidd yr A470 / A483 / A487 i ganolbarth a de Cymru
- Porthladdoedd Caergybi, Mostyn a Phorth Penrhyn
- Llwybrau bws strategol yn gwasanaethu'r prif drefi a chanolfannau gwaith
- Cyfleusterau awyr ym Mhenarlâg, Y Fali / Mona a Chaernarfon
- Llwybrau beicio cenedlaethol a hirbell yn enwedig Caergybi i Lerpwl, a Chaergybi i Gaerdydd

Mae'r Cyngor yn cefnogi'r blaenoriaethau rhanbarthol hyn ac mae'r Cynllun Cludiant Lleol yn adlewyrch hynny, pan yn briodol.

3.10. Mae Is-grŵp Cludiant Cyfun Gogledd Cymru (Is-grŵp o FfEGC) yn cyfarfod a chyfnewid gwybodaeth ar Gynlluniau Cludiant Lleol a pholisïau cynllunio a chynigion eraill perthnasol. Mae'r Is-grŵp yn nodi datblygiadau ac arweiniadau cludiant yn rhannau eraill y DU ac yn gweld pa mor gymwys a pherthnasol ydynt i Ogledd Cymru. Nod yr Is-grŵp yw helpu i gyfuno arweiniadau a datblygiadau cludiant trwy gydgordio polisïau, cyfundrefnau a gwasanaethau, pan yn briodol. Mae'r Is-grŵp yn anelu at hysbysu a chynghori cyrff rhanbarthol eraill ar faterion sy'n ymwneud â chludiant cyfun ac, yn arbennig, Fforwm Economaidd Gogledd Cymru.

3.11. Bydd Swyddogion o isranbarth Gogledd Cymru yn cyfarfod yn rheolaidd i drafod pynciau cludiant a bydd Gweithgor Cydgyfarfod Cludiant Swydd Caer, Dinas Caer, Sir y Fflint a Chydgyfarfod Wrecsam, (CCFWJM) yn cyfarfod, pan yn briodol, i benderfynu blaenoriaethau gweithredu ar faterion cludiant sy'n gyffredin i isranbarth Swydd Caer a Gogledd-ddwyrain Cymru.

Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam – Gweledigaeth ac Amcanion Strategol

3.12. Mae **gweledigaeth** y Cyngor yn rhoi darlun o ba fath le y mae am i Fwrdeistref Sirol Wrecsam fod.

Bwrdeistref Sirol:

- gydag uchelgais i fod yn Ddinas, gyda chanol Wrecsam fel ei chanolbwynt dinesig yn datblygu yn ganolfan fasnachol a siopa fywiog fydd yn denu ymwelwyr o Ogledd Cymru a'r cyffiniau.

- gyda threfi a phentrefi ar wahân wedi eu hadfywio, a chefn gwlad deniadol a hyfyw.
- gydag economi modern a chadarn dros bob sector, gan gynnwys iechyd, addysg, masnach, twristiaeth a diwydiannau cynhyrchu.
- un ag ansawdd bywyd ei thrigolion yn gwella, gyda phwyslais ar y canlynol;
  - cynnal mynediad i amrywiaeth o gyfleoedd addysgol a chyflogaeth
  - gofalu am y rhai mwyaf bregus yn y gymuned
  - darparu lle gweddus i fyw ynddo
  - diogelu'r amgylchedd
  - cydbwyso anghenion gwledig a threfol
  - hybu hamdden, diwylliant a'r celfyddydau
  - hyrwyddo'r Iaith Gymraeg er mwyn annog cymdeithas ddwyieithog
  - datblygu cymunedau mwy diogel
- gyda sefydliadau o statws cynyddol, er enghraifft;
  - y Cyngor ei hun
  - NEWI yn datblygu yn Brifysgol
  - Coleg Iâl yn parhau i ddatblygu ei statws
  - Ysbyty Wrecsam Maelor, y mwyaf yng Ngogledd Cymru ar hyn o bryd, yn datblygu ei ofal am iechyd ymhellach trwy arbenigedd, ymchwil ac addysgu.

3.13. Ynghlwm wrth y Weledigaeth mae pedwar amcan strategol sy'n diffinio'r nodau hirdymor y gosododd y Cyngor iddo'i hun. **Amcanion strategol** y Cyngor yw:

- darparu gwasanaethau sydd o safon uchel, yn ymatebol a chost-effeithiol drwy weithlu sydd wedi ei ddatblygu'n uchel
- gweithio gyda chymunedau i ddatblygu synnwyr o berthyn, gan rannu dealltwriaeth o'u hanghenion, a chreu perchenogaeth gymunedol o'r Cyngor a'i wasanaethau
- cyrraedd gweledigaeth ardal y Fwrdeistref Sirol trwy weithio mewn partneriaeth gyda mudiadau gwirfoddol, diwydiant, Undebau Llafur, Cynghorau Tref a Chymuned ac asiantaethau eraill
- ceisio dylanwadu ar faterion yng Nghymru, Prydain ac Ewrop fydd yn effeithio ar ffyniant pobl Bwrdeistref Sirol Wrecsam.

Polisïau Corfforedig Bwrdeistref Sirol Wrecsam

3.14. Mae gweledigaeth y Fwrdeistref Sirol ac amcanion strategol y Cyngor yn rhoi'r olwg hirbell o lle'r hoffai'r Cyngor ei gyrraedd a'r hyn yr hoffai ei gyflawni yn y pum mlynedd i ddeg nesaf. Yn ogystal â'r rhain, pennwyd cyfres o flaenoriaethau polisi corfforedig at 2000-2001 gan fynegi cylchoedd bras o flaenoriaeth at Ddyrannu Cyllid.

- Moderneiddio Llywodraeth Leol (Gwerth Gorau / Ymgynghoriad a Gweithio mewn Partneriaeth / Rheoli Cyflawniad / Llywodraeth Electronig)
- Strategaeth Gostwng Trosedd ac Anhrefn
- Atal Tlodi a Chynhwysiad Cymdeithasol
- Agenda 21 Lleol
- Cludiant Cyfun (Cynllun Cludiant Lleol)
- Cynllunio Cymunedol
- Addysg
- Plant a Phobl Ifanc
- Gofal Cymunedol

Amcanion Y Cynllun Cludiant Lleol

3.15. Er mwyn i'r Cynllun Cludiant Lleol fod yn llwyddiant, rhaid iddo fod ag amcanion penodol sydd i'w cyrraedd. Caiff amcanion y Cynllun Cludiant Lleol eu disgrifio dros y dudalen;

Cludiant Cyfun

Amcan y Cyngor yw hybu a datblygu'r gyfundrefn gludiant bresennol er mwyn cyrraedd rhwydwaith cludiant cyhoeddus, beicio a cherdded o ansawdd uchel, gan dderbyn efallai y bydd raid gwneud peth gwaith dethol ar wella ffyrdd.

3.16. Bydd darparu cyfundrefn cludiant cyfun yn caniatáu dewis a hyblygrwydd i ddefnyddwyr cludiant ac yn creu dewisiadau ymarferol yn lle'r car preifat.

3.17. Strategaeth gorfforedig yw Strategaeth Cludiant Cyfun Wrecsam gyda'r Cyngor yn ei mabwysiadu ym mis Ionawr 1999. Nod y Strategaeth Cludiant Cyfun yw darparu ar gyfer anghenion cludiant presennol ac yn y dyfodol yn y Fwrdeistref Sirol ac, yn unol ag amcanion y Llywodraeth, i sicrhau fod buddsoddiad mewn cludiant yn berthynol i amcanion cynllunio defnydd tir, cymdeithasol, economaidd, yr amgylchedd a diogelwch. Bydd y strategaeth yn ceisio rheoli'r gofyn am deithio yn y dyfodol, yn bennaf trwy arweiniadau cludiant cyhoeddus, cerdded, beicio a pharcio. Amcan y Cynllun Cludiant Lleol yw gweithredu polisïau'r Strategaeth Cludiant Cyfun.

Diogelwch a Lleihau Damweiniau

Mae'r Cyngor yn amcanu at ostwng nifer y damweiniau ar ffyrdd y Fwrdeistref Sirol yn sylweddol trwy weithredu ei Gynllun Diogelwch ar y Ffordd.

3.18. Gosodwyd amcanion at wella diogelwch ar y ffordd yn y Cynllun Diogelwch ar y Ffordd sydd ar sail y syniad o GAPA:

- Gorfodi
- Addysg
- Peirianneg
- Annog

3.19. Mae'r Cynllun Diogelwch ar y Ffordd yn gydran annatod o'r Cynllun Cludiant Lleol ac mae i'w weld yng Nghyfrol 2.

Yr Amgylchedd

Mae'r Cyngor yn ymroddedig i egwyddorion Agenda 21 Lleol ac i amddiffyn yr amgylchedd.

3.20. Tarddiad Agenda 21 Lleol oedd Agenda 21, ddaeth o Uwch-gynhadledd y Byd a gynhaliwyd yn Rio de Janeiro yn 1992. Cynllun yw Agenda 21 ar gyfer yr 21^{ain} Ganrif, i ddangos ymroddiad i raglen fyd-eang o weithredu i helpu'r byd ddatblygu'n fwy cynaliadwy. Mae CBSW yn dymuno ategu'r ymroddiad hwn ar raddfa leol, Agenda 21 Lleol Wrecsam, i wella'r amgylchedd ac ansawdd bywyd yn lleol mewn cydbwysedd â'r economi lleol yn awr ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

3.21. Mae'r Cyngor yn credu ac yn derbyn mai un o'i brif swyddogaethau yw hyrwyddo datblygiad cynaliadwy ac yn hyn o beth roedd yr Adolygiad Amgylcheddol a gynhaliwyd yn 1997 yn cynrychioli datganiad o fwriad y Cyngor o ran amlygu pynciau amgylcheddol allweddol ynghyd â chyfres o ddarpar amcanion.

3.22. Trefnwyd nifer sylweddol o ddigwyddiadau Agenda 21 Lleol (e.e. Diwrnod Di-gar Wrecsam – 20 Mehefin 2000) a deunydd cyhoeddusrwydd ar y cyd gan adrannau Cynllunio, Amgylcheddol a Chludiant y Cyngor.

Twf Economaidd a Thwristiaeth

Bwriad y Cyngor yw darparu isadeiledd cludiant fydd yn cynnal economi a swyddi lleol y Fwrdeistref Sirol ac yn cefnogi twf economaidd cynaliadwy yn yr ardaloedd trefol ac yng nghefn gwlad.

3.23. Nod Cyngor y Fwrdeistref Sirol yw darparu isadeiledd cludiant fydd yn annog twf economaidd trwy leddfu gwrthdaro, hybu ail ddatblygu hen safleoedd, hyrwyddo trosglwyddo rhwng mathau o gludiant a chael y symudoledd personol gorau. Mae cludiant yn elfen allweddol o ddatblygiad economaidd y Fwrdeistref Sirol ac o Strategaeth Datblygiad Economaidd Wrecsam 1999/2000, a gyhoeddwyd yn unol â gofynion Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 ac yn cyd-fynd yn gyfan gwbl gyda'r Cynllun Cludiant Lleol.

3.24. Yn ei hanfod, mae twristiaeth yn golygu symud pobl, a gall rhwydwaith cludiant effeithlon ddylanwadu'n fawr ar leoliad datblygiadau twristaidd. Rhaid cydnabod y gydberthynas bwysig rhwng datblygiadau twristaidd a chludiant, gan gynnwys;

- annog datblygiad cynaliadwy yn unol â Phynciau Agenda 21 Lleol
- datblygu twristiaeth ar sail cludiant cyhoeddus
- arwyddion i atyniadau ymwelwyr

AMCANION ERAILL

3.25. Mae Cynllun Cludiant Lleol y Fwrdeistref Sirol wedi ei gyfuno'n llwyr gydag amcanion polisi ehangach a chaiff elfennau arbennig y rhai perthynol i gludiant eu rhestru isod heb fod mewn unrhyw drefn arbennig.

Trosedd ac Anhrefn

Bwriad y Cyngor yw gwella diogelwch personol teithwyr ar gludiant cyhoeddus a cherddwyr

3.26. Mae Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998 yn mynnu bod y Cyngor yn gweithio gyda'r Heddlu a sefydliadau eraill i ostwng Trosedd ac Anhrefn yn lleol. Cynhaliwyd adolygiad o Drosedd ac Anhrefn yn y Fwrdeistref Sirol rhwng mis Medi 1998 a mis Chwefror 1999, gan gynnwys ymgynghoriad cyhoeddus ac ymchwilio'r farchnad i brofi'r canlyniadau.

3.27. Mae staff cludiant yn rhan o weithgor y Cyngor. Y pynciau cludiant sy'n cael eu hystyried yw troseddau cerbydol (yn arbennig mewn meysydd parcio cyhoeddus), damweiniau ffordd, troseddau traffig a throseddau'r ifanc.

Atal Tlodi ac Eithriad Cymdeithasol

Nod y Cyngor yw mynd i'r afael â thlodi ac eithriad cymdeithasol a hybu hygyrchedd cyfleusterau pob dydd i bawb, yn enwedig aelodau mwyaf bregus cymdeithas a'r rhai sydd heb fod â char ar gael.

3.28. Amcan y polisi hwn yw sicrhau fod y Fwrdeistref Sirol yn gwneud y defnydd gorau o'i dylanwad i ymladd tlodi a hybu cynhwysiad cymdeithasol. Mae'r goblygiadau o ran cludiant yn cynnwys;

- Mynediad i swyddi
- Addysg
- Gostegu traffig i leihau damweiniau, sy'n tueddu i fod yn llawer uwch yn y cymunedau hyn

Iechyd

Nod y Cyngor yw gwella iechyd ei drigolion trwy ostwng llygredd a hybu dulliau cludo iachach, fel cerdded a beicio.

3.29. Mewn partneriaeth â'r Awdurdod Iechyd, mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn llunio Rhaglen i Wella Iechyd lleol sydd i'w chyhoeddi ym mis Ebrill 2000. Bydd y rhaglen yn rhedeg am bum mlynedd, gan ffurfio fframwaith i Arweiniadau Iechyd y Cyngor. Ar y cyd â'r rhaglen hon, caiff Cynghrair Iechyd Lleol Wrecsam ei ffurfio, a bydd yn agored i unrhyw un sydd mewn sefyllfa i ddylanwadu ar iechyd a'i hybu yn y cylch.

3.30. Mae cydweithrediad agos rhwng yr ymgynghorwyr Damwain ac Argyfwng ac adran Diogelwch ar y Ffordd y Cyngor yn cynnwys cynhyrchu deunyddiau hyrwyddol ac ymweliadau ag ysgolion uwchradd fel rhan o Raglen Addysgu Gyrwyr Ifanc.

Hygyrchedd

Nod y Cyngor yw gwneud cludiant yn hygyrch i bawb, gyda phob aelod o'r boblogaeth yn cael cyfle i fod yn annibynnol symudol.

3.31. Nid problem i bobl gydag anawsterau symud yn unig yw hygyrchedd cludiant. Mae 66% o'r boblogaeth yn byw tu allan i dref Wrecsam yn y pentrefi trefol neu wledig. Yn aml, mae cludiant o fewn a rhwng y pentrefi yn gyfyngedig, ac mae perchenogaeth ceir yn yr ardaloedd hyn yn gyffredinol uchel, yn rhannol oherwydd diffyg mathau eraill o gludiant. I drigolion sydd heb fod â char ar gael, gall y swyddi, y gwasanaethau ac addysg sydd ar gael fod yn gyfyngedig iawn.

3.32. I'r rhai gydag anawsterau symud, gall mynediad i swyddi a gwasanaethau fod yn gyfyngedig iawn oherwydd bod dim car preifat ar gael. Mae cludiant cyhoeddus yn amrywio yn ei "gyfeillgarwch" tuag at bobl gydag anawsterau symud er bod angen gwella'r rhelyw o'r gwasanaethau yn y cylch. Nod y Cyngor yw gwella hygyrchedd pob rhan o'r Fwrdeistref Sirol er mwyn ateb anghenion gwaith, hamdden, siopa a chymdeithasol y gymdeithas, yn enwedig grwpiau bregus fel pobl gydag anawsterau symud, merched, pobl ifanc, yr henoed a'r rhai ar gyflogau isel.

4. Problemau, Cyfleoedd a Strategaethau

Cyflwyniad - Dadansoddiad o'r Sefyllfa Bresennol

4.1. Cefnffordd yr A5 / A483 yw'r briffordd bwysicaf yn y Fwrdeistref Sirol yn gwasanaethu'r rhan fwyaf o'r canolfannau poblogaeth. Mae'n llwybr o safon uchel, rhwng gogledd a de, yn cysylltu'r Fwrdeistref Sirol i Ogledd-orllewin Lloegr trwy'r A55 (T) a'r M53 / M56, ac i ganolbarth Lloegr trwy'r A5 a'r M54. Yn annhebyg i'r cytrefi mwyaf, ar hyn o bryd nid yw rhwydwaith ffyrdd y Fwrdeistref Sirol yn dioddef problemau tagfeydd enbyd am gyfnodau hir bob dydd. Mae pump prif gylch o dagfeydd sy'n cael eu hamlygu yn Ffigur 1. Mae Ffigur 2 yn dangos y rhwydwaith ffyrdd.

Cyffordd yr A483 a'r A55 yn Swydd Caer – un o'r 5 prif gylch o dagfeydd sy'n effeithio ar y Fwrdeistref Sirol

4.2. Yn y Fwrdeistref Sirol, mae cludiant cyhoeddus yn chwarae rhan bwysig. Mae tua 400,000 o deithiau ar wasanaethau bws lleol bob blwyddyn, ac mae rhyw ddwy filiwn o deithwyr yn defnyddio safleoedd bws canol y dref neu Orsaf Fysiau Wrecsam bob blwyddyn. Mae rheilffyrdd y Fwrdeistref Sirol yn cynnwys dwy linell; o Gaer drwy Wrecsam, Rhiwabon a'r Waun i'r Amwythig a Birmingham, ac o Wrecsam a Gwersyllt i Bidston (a Lerpwl). Mae dwy orsaf yng nghanol y dref, yr Orsaf Gyffredinol a'r Orsaf Ganolog, ac yn ardal gyfan y Fwrdeistref Sirol mae amryw o orsafoedd llai.

4.3. Er nad oes unrhyw faes awyr o fewn ffiniau'r Fwrdeistref Sirol, mae gwasanaethau awyr ar gael o fewn pellter derbyniol. Mae meysydd awyr rhyngwladol Manceinion a Lerpwl o fewn amser gyrru rhesymol ac, yn fwy lleol, saif Maes Awyr Penarlâg gerllaw yn Sir y Fflint er nad yw gwasanaethau masnachol yn ei ddefnyddio ar hyn o bryd.

Patrymau Teithio ac Anghenion Cludiant Cyffredinol

"Ar hyn o bryd mae problemau cludiant yn ardal Wrecsam yn llai sylweddol na'r rhai sy'n digwydd mewn trefi a dinasoedd llawer iawn mwy sy'n dioddef cryn broblemau llygredd a thagfeydd fel y bydd eu rhwydwaith ffyrdd yn llenwi. Er mwyn osgoi sefyllfa debyg yn Wrecsam mae'n hanfodol dechrau rhaglen gydlynol o fesurau cludiant cyn i'r amgylchedd a'r economi ddechrau dioddef" (Strategaeth Cludiant Cyfun)

Llif Traffig

4.4. Yn nhref Wrecsam, ar hyn o bryd, mae tagfeydd ar y prif ffyrdd rheiddiol i mewn ac allan o'r cylch trefol wedi eu cyfyngu i gyfnodau byr ar ddechrau a diwedd y diwrnod gwaith. Er enghraifft, ar y brif fynedfa i'r dref o'r gorllewin, o Drogylch Plas Coch i gyffordd Ffordd y Rhaglaw / Ffordd Bradle / Ffordd Grosvenor, dim ond am oddeutu hanner awr yn oriau brig y bore a'r hwyr y bydd tagfeydd. Yn gyffredinol, o gwmpas y dref, dim ond 15

Tagfeydd yr awr frig ar Drogylch Plas Coch

munud yw rhan brysuraf yr awr frig ac nid yw'r llif wedi newid yn gyffredinol ar yr adeg honno, sy'n dangos fod y rhan honno o'r awr frig wedi cyrraedd gorlawnder.

4.5. O gymharu llif traffig a fesurwyd yn awr frig y bore ar draws y dref yn 1992 ac 1995 mae'n ymddangos fod cyfanswm y traffig yn yr awr frig yn cynyddu. Mae dadansoddiad manwl o arolygon traffig yn dangos fod 25% o le dros ben ar y ffyrdd yn 1992 ar y llwybrau i Ganol Tref Wrecsam yn awr frig y bore. Y ganran gyfatebol yn 1995 oedd 14%. Yn awr frig yr hwyr, amcangyfrif o'r ganran yn 1992 oedd 12% a hynny wedi cwympo i 5% erbyn 1995. Mae'r duedd felly tuag at fwy o dagfeydd traffig. Daw'r broblem hon yn fwy arwyddocaol gyda'r gwelliannau i gyfleusterau siopa sydd wedi eu gorffen yn ddiweddar a'r rhai sydd wedi eu cynllunio ar gyfer y dyfodol agos. Mae cyfleusterau newydd, a rhai wedi eu gwella, yn denu mwy o siopwyr i ganol y dref a byddant yn gwella atyniad y dref fel cyrchfan. Mae Ffigur 2 yn dangos llif traffig ar y prif lwybrau yn y Fwrdeistref Sirol.

Patrymau Teithio Presennol

4.6. Isod mae crynodeb o'r rhaniad rhwng dulliau teithio i'r gwaith. Gan fod 70.4% o weithwyr yn teithio i'w gwaith mewn ceir, mae gwerth mawr mewn annog pobl yn y Fwrdeistref Sirol i deithio mewn dull mwy cynaliadwy.

Dull o Deithio i'r Gwaith (Cyfrifiad 1991)

Dull o Deithio i'r gwaith	***Canradd (Wrecsam)***	***Canradd (Cymru)***
Car	70.4	67.1
Ar Droed	11.7	12.6
Bws	8.1	7.4
Gweithio Gartref	4.5	6.4
Beic modur neu heb ddatgan	3.6	3.8
Beic Pedal	1.6	1.4
Trên	0.3	1.2

(Mae'r canrannau wedi eu talgrynnu i'r 0.1 agosaf)

4.7. Saif dinas Caer 12 milltir o Wrecsam ac mae nifer sylweddol o deithiau rhwng y ddwy ganolfan hyn. Mae Wrecsam yn denu siopwyr o dde Sir y Fflint, gogledd Swydd Amwythig, o Langollen yn Sir Ddinbych ac o ardaloedd mwy gwledig fel y Bala.

4.8. Mae'r canolfannau siopa newydd allan o'r dref ym Mrychdyn (De Sir y Fflint), Cheshire Oaks (Ellesmere Port), a'r Trafford Centre (Manceinion) yn gyrchfannau poblogaidd i siopwyr mewn ceir o ardal Wrecsam.

4.9. Prif ganolfan cyflogaeth yw tref Wrecsam a'r cylch cyfagos i'r gogledd-ddwyrain, sy'n dwyn yr enw Parc Technoleg Wrecsam, gan gynnwys Ysbyty Maelor sy'n gwasanaethu'r is-ranbarth. Stad Ddiwydiannol Wrecsam yw'r ardal fwyaf sylweddol o gyflogaeth gweithgynhyrchu yn y Fwrdeistref Sirol gyda llawer o weithwyr yn teithio o Swydd Caer a De Sir y Fflint.

4.10. Mae llawer o deithiau i gyflogaeth tu allan i'r Fwrdeistref Sirol yn cynnwys Parc Diwydiannol Glannau Dyfrdwy a *British Aerospace* (Sir y Fflint), Canol Dinas a Pharc Busnes Caer ac i Fanceinion a Lerpwl. (Sylwer: Mae llawer o'r teithiau hyn ar y bws neu mewn car yn golygu defnyddio cyffordd orlawn yr A55 a'r A483 yn Swydd Caer – gweler Ffigur 1).

Teithiau Ysgol

4.11. Mae teithiau i ac o ysgolion yn gyfran sylweddol o'r traffig yn awr frig y bore yng nghanol tref Wrecsam. Mae dalgylchoedd ysgolion tu allan i'r dref yn fawr ac mae hynny yn cynhyrchu cryn deithio ar fysiau ac mewn ceir preifat.

Cefn Gwlad

4.12. Mae'r rhan fwyaf o'r teithio yn digwydd o fewn a rhwng Canol Tref Wrecsam a'r pentrefi trefol, ond rhaid cydnabod fod i gefn gwlad ei batrymau teithio arbennig ei hun. I'r rhelyw o boblogaeth cefn gwlad, mae'r ddarpariaeth o gludiant a'i hygyrchedd yn hanfodol, a'r dybiaeth arferol i'r rhan fwyaf o bobl yw fod hyn yn golygu defnyddio'u ceir eu hunain. Fodd bynnag, mewn cymunedau gwledig yn y Fwrdeistref Sirol, fel Llangollen Wledig a Llansanffraid Glyn Ceiriog, mae 25% o'r cartrefi heb fod yn berchen car a gallant ddioddef anawsterau cymdeithasol ac economaidd heb fod darpariaeth ddigonol o gludiant cyhoeddus ar gael iddynt.

4.13. Hyd yn oed mewn cartrefi sydd â char ar gael, nid yw ar gael os bydd y perchennog yn ei ddefnyddio yn ystod y dydd ar gyfer gwaith. Felly, bydd gweddill y teulu'n methu defnyddio'r car ac yn dibynnu ar gludiant cyhoeddus.

Pobl ag Anawsterau Symud

4.14. I aelodau'r gymuned sydd ag anawsterau symud, mae cludiant (cyhoeddus neu breifat) yn anghenraid. Heb gludiant digonol, mae pobl gydag anawsterau symud yn ei chael yn anodd i siopa, gweithio ac ymweld â chyfeillion a pherthnasau.

Cyfuno Mathau o Gludiant

4.15. Er mwyn i gyfleusterau cludiant yn y Fwrdeistref Sirol gael eu defnyddio hyd yr eithaf, rhaid iddynt weithredu fel rhwydwaith. Ar hyn o bryd, mae mathau gwahanol o gludiant yn y Fwrdeistref Sirol wedi datblygu heb geisio hybu fawr o gyfuno o fewn a rhwng pob math o gludiant. Rhaid cydnabod, wrth gyfuno mathau o gludiant, y byddai'r rhwydwaith cludiant yn dod yn gyfundrefn gludiant fwy effeithiol a chynaliadwy.

4.16. Gall cyfuno mathau o gludiant ddod yn rhannol trwy ddarparu arwyddion lle bydd modd cyfnewid, e.e. arwyddion yn yr orsaf fysiau neu safleoedd bysiau yn cyfeirio teithwyr i'r orsaf drenau, neu arwyddion yn yr orsaf fysiau i'r lle llogi beiciau. Mae darparu'r fath arwyddion yn codi ymwybyddiaeth o'r cyfleusterau a hefyd mae'n hysbysu defnyddwyr cludiant sut i gyrraedd cyrchfannau eraill. Gall arwyddion hefyd roi sicrwydd i ddefnyddwyr a chynyddu eu ffydd yn a gwasanaeth.

Hygyrchedd Cludiant

4.17. Mae'n hanfodol bod cludiant ar gael i bawb, pa un ai'n gludiant cyhoeddus, preifat neu wirfoddol. Mae tua 22,000 o bobl oedrannus, gyda rhai ohonynt heb fod yn gallu defnyddio cludiant cyhoeddus oherwydd gwendid neu afiechyd, a chyfran fawr o bobl anabl, tua 2,000 ohonynt yn ôl yr amcan, sy'n methu defnyddio gwasanaethau presennol. Gall pobl sy'n byw yn ardaloedd gwledig y Fwrdeistref Sirol ei chael yn anodd i gyrchu cyfleusterau cludiant hefyd. Nod y Cyngor yw sicrhau cludiant cyhoeddus i bob rhan o'r gymuned, ac mae hyn yn rhan annatod o'r Cynllun Cludiant Lleol.

4.18. Mae'r adrannau canlynol yn rhestru polisïau'r Cynllun Cludiant Lleol. Trwy weithredu ei bolisïau, y bwriad yw cynhyrchu rhwydwaith cludiant cynaliadwy a chyfun.

Yr Amgylchedd

Polisi ES1	Cadw golwg ar, a cheisio lleihau, llygredd tir, awyr, dŵr a sŵn.
Polisi ES2	Hyrwyddo a hybu rhwydwaith a chyfundrefn gludiant fwy amgylcheddol deimladwy.

Strategaeth

4.19. Yr amgylchedd lleol yw un o adnoddau mwyaf y Fwrdeistref Sirol, yn rhan hanfodol o safon bywyd y trigolion ac o ddatblygu mentrau diwydiannol a thwristaidd lleol llwyddiannus. Mae'r Cynllun Gweithredu Amgylcheddol wedi adolygu effeithiau gweithgareddau'r Cyngor ar yr amgylchedd ac wedi dynodi amcanion er mwyn gwella'r cyflawniad amgylcheddol.

4.20. Mae gan y Datganiad Amgylcheddol amryw o amcanion sy'n ymwneud â chludiant yn benodol;

Bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam;

- yn cadw golwg ar, a cheisio lleihau, llygredd tir, awyr, dŵr a sŵn yn y Fwrdeistref
- yn hyrwyddo a hybu rhwydwaith a chyfundrefn gludiant fwy amgylcheddol deimladwy yn y Fwrdeistref
- yn annog datblygu dull iach o fyw
- yn mabwysiadu arferion amgylcheddol da
- yn gwarchod ac yn gwella tref a phentrefi Wrecsam

Gwaith Hyd Yma

4.21. Mae'n ofyniad ar y Cyngor, o dan Ddeddf yr Amgylchedd 1996, i adolygu ansawdd yr awyr yn y Fwrdeistref Sirol. Mae Cyfnod 1 yr adolwg, y Sgrinio Dechreuol, newydd gael ei gynnal, ac mae'r argymhellion isod. Nod ail gyfnod yr adolygiad ac asesiad yw sgrinio mwy o grynodiadau llygrwyr, yr oedd adolygiad ac asesiad Cyfnod 1 wedi awgrymu fyddai'n arwyddocaol.

Llygrwr	Gofynion Cyfnod 2	Rhesymwaith
Gronynnau Mân	OES	Oherwydd natur PM10 a'r lefelau uchel yn genedlaethol
Deuocsid Swlffwr	NAC OES	Daw mwy o wybodaeth ar gyfer asesu allyriadau o ffynonellau diwydiannol a llosgi glo yn lleol
Ocsidiau Nitrogen	OES	Traffig a ffynonellau diwydiannol i gael eu hasesu yn fwy manwl
Monocsid Carbon	Dim angen archwilio ymhellach	Dylai Mesurau Polisi sydd eisoes ar gael arwain at gyrraedd y nod erbyn 2003
Bensen	Dim angen archwilio ymhellach	Dim safleoedd diwydiannol yn allyrru bensen. Dylai polisi cenedlaethol ar gerbydau petrol ostwng y tebygolrwydd o fynd uwchlaw'r nod ar gyfer bensen
1,3 Biwtadïen	Dim angen archwilio ymhellach	Fel bensen
Plwm	Dim angen archwilio ymhellach	Mae defnyddio petrol di-blwm wedi dod â lleihad cenedlaethol

Problemau

4.22. Mae ffynonellau PM10 yn y Fwrdeistref Sirol yn cynnwys traffig ar y ffordd. Yn genedlaethol, mae'r rhwydweithiau cadw golwg yn dangos fod ansawdd yr awyr mewn amryw o safleoedd cadw golwg ar draws y DU uwchlaw Safonau Ansawdd yr Awyr.

4.23. O'r prif ffynonellau, y rhagolwg yw mai cludiant ffordd fydd y cyfrannwr mwyaf at lefelau gronynnau yn y rhan fwyaf o brif drefi a dinasoedd y DU.

4.24. Mae swm yr allyriadau blynyddol o ocsidiau nitrogen (Nox) wedi gostwng 25% rhwng 1990 a 1996. Bu lleihad tebyg mewn allyriadau traffig ar y ffordd dros yr un cyfnod. Ar waethaf y gostyngiadau hyn, mae crynodiadau cyfartalog, yn ôl yr awr ac yn flynyddol, sydd uwchlaw lefelau'r amcanion yn cael eu cofnodi mewn amryw o safleoedd cefndir a min y ffordd ar draws y DU.

4.25. Y safle gadw golwg ar ddeuocsid nitrogen yn y Fwrdeistref sy'n dangos y crynodiadau uchaf yw'r un yn 3/5 Ffordd Grosvenor, Wrecsam. Y cymedr blynyddol yn 1997 oedd 17 rhan mewn biliwn ac 19.5 rhan mewn biliwn yn 1998. Mae'r lefelau islaw trothwy'r Safon Ansawdd o 21 rhan mewn biliwn wedi ei fesur fel cymedr blynyddol.

4.26. Nid yw materion amgylcheddol yn gyfyngedig i lygru'r awyr yn unig. Gall sŵn a dirgryniadau, sy'n cael eu hachosi gan draffig, effeithio'n sylweddol ar y trigolion. Er nad yw sŵn a dirgryniad, ar hyn o bryd, yn cael eu hystyried yn broblemau amgylcheddol sy'n digwydd yn y Fwrdeistref Sirol, gyda rhagolygon o fwy o draffig, yn enwedig CNTau, gallai hyn fod yn broblem yn y dyfodol os na chaiff rhywbeth ei wneud.

Gweithredoedd

4.27. Gwybodaeth gyfyngedig sydd ar gael ar hyn o bryd o ran allyriadau traffig yn y Fwrdeistref Sirol. Felly, mae angen gwneud mwy o waith i weld beth fydd effaith allyriadau traffig ar ansawdd yr awyr yn y dyfodol. Bydd gwaith cadw golwg ar PM10 yn digwydd mewn amrywiol fannau yn y Fwrdeistref Sirol, yn cynnwys;

- Cadw golwg cefndir gan ddefnyddio Samplwr Awyr *Partisol 2000*
- Cadw golwg, o safleoedd presennol cadw golwg ar draffig ar fin y ffordd (pan yn briodol)
- Bras amcan o ddwysedd allyriadau cludiant ffordd
- Rhagamcan o gymedr blynyddol crynodiadau NO_2 ar brif safleoedd min y ffordd
- Rhagamcan o grynodiadau 1 awr uchaf

Cynllunio Defnydd Tir / Cynllun Datblygu Unedol

Polisi UDP1	Bydd cynlluniau ar gyfer gwella'r rhwydwaith cludiant yn cael eu gweithredu yn unol â'r polisïau sydd yng Nghynllun Datblygu Unedol Wrecsam.
Polisi UDP2	Bydd gofyn i gynigion am ddatblygiadau newydd, yn enwedig ar gyfer cynlluniau mawr tai, adwerthu, hamdden a gwaith, ystyried eu goblygiadau o ran cludiant cyflawn. Lle bydd gwasanaethau cludiant cyhoeddus, a chyfleusterau beicio a cherdded presennol yn annigonol, bydd angen gwneud trefniadau priodol i wneud gwelliannau neu i ddarparu cyfleusterau a gwasanaethau newydd.
Polisi UDP3	Gweithredu a hybu gwaith isadeiledd ffyrdd byr a hirdymor, e.e. Ffordd Gyrchu Stad Ddiwydiannol Wrecsam.
Polisi UDP4	Diogelu hen reilffyrdd at ddarparu rhwydwaith o lwybrau cerdded a beicio.
Polisi UDP5	Cefnogi a hybu ail-ddatblygiad Gorsaf Fysiau Wrecsam.

Strategaethau

4.28. Bydd y Cynllun Datblygu Unedol (CDU) yn disodli'r Cynllun Datblygu presennol (sy'n cynnwys Cynllun Lleol Wrecsam Maelor, Cynllun Lleol Dosbarth Glyndŵr a'r Newid Cyntaf i Gynllun Strwythur Clwyd). Bydd y CDU yn cael ei osod ar adnau cyhoeddus ym mis Mai 2000 ac yna caiff cynrychiolaethau a gwrthwynebiadau i'r polisïau a'r cynigion eu dadansoddi. Mae'n debygol y caiff ymchwiliad cyhoeddus ei gynnal, i drafod gwrthwynebiadau sydd heb eu datrys, yn ystod 2001 ac, ar ôl hynny, caiff y CDU ei fabwysiadu'n ffurfiol.

4.29. Mae'r CDU yn cydnabod nad oes modd ystyried symud pobl a nwyddau ar wahân i agweddau eraill ar ddatblygiad defnydd tir. Felly, bydd rhwydwaith cludiant effeithlon, gydag elfen gref o gyfuno gyda chylchoedd datblygu presennol ac yn y dyfodol, yn hanfodol i sicrhau safon uchel o fywyd ac economi llwyddiannus.

4.30. Mae'r strategaeth gyflawn ar gyfer cludiant yn y Cynllun Datblygu Unedol yn cael ei ddangos yn Rhan Gyntaf (Polisi PS8) y CDU fel a ganlyn;

"Caiff rhwydwaith cludiant ei ddatblygu i ddarparu amrediad cyfun o ddewisiadau teithio i ac o'r prif ganolfannau preswyl, masnachol, gwaith ac addysg trwy wneud y defnydd gorau o'r rhwydwaith presennol o ffyrdd a rheilffyrdd, gydag unrhyw welliannau angenrheidiol, a thrwy hybu cludiant cyhoeddus, beicio a cherdded"

4.31. Mae'r polisïau mwy manwl sydd yn Ail Ran y Cynllun Datblygu Unedol yn dangos sut y caiff y strategaeth uchod ei gweithredu. Yn arbennig, y bwriad yw:-

- y dylai datblygiadau newydd ar gyfer tai, gwaith a gwasanaethau cymunedol gael eu cyfeirio i safleoedd o fewn y ffiniau aneddiad a'r parthau gwaith sydd wedi eu diffinio.
- y dylid annog datblygu tir gwag neu ddiffaith yn hytrach na safleoedd tir glas.
- y dylid cynnal y patrwm aneddiad presennol
- y dylai datblygiad cyfleusterau cludiant newydd a rhai wedi eu gwella fod wedi eu cyfuno'n agosach gyda defnydd tir presennol ac arfaethedig.

4.32. Mae Ail Ran y Cynllun Datblygu Unedol hefyd yn cynnwys nifer o bolisïau cludiant manwl sydd:-

- yn annog datblygiad fydd yn cadw neu'n gwella'r rhwydwaith cludiant cyhoeddus, yn gwella cyfleusterau teithwyr neu'n darparu cyfleusterau parcio a theithio.
- yn ceisio ail ddatblygu Gorsaf Fysiau Wrecsam
- yn gwarchod tir yn Yr Orsedd, Johnstown a Chefn Mawr ar gyfer gorsafoedd trên newydd
- yn darparu ffordd gyswllt o safon uchel i Stad Ddiwydiannol Wrecsam
- yn cynnwys rhaglen o welliannau ffyrdd o faint
- yn diffinio'r prif rwydwaith a'r rhwydwaith craidd
- yn rheoli traffig yn Wrecsam, Rhosllannerchrugog a Choedpoeth
- yn ceisio rheoli traffig yng Nghanol Tref Wrecsam a mannau eraill lle bydd tagfeydd
- yn gosod safonau parcio diweddar ar gyfer datblygiadau newydd
- yn sefydlu rhwydwaith o lwybrau cerdded a beicio, yn enwedig trwy ddefnyddio hen reilffyrdd

4.33. Mae'r polisïau yn y Cynllun Datblygu Unedol yn cefnogi ac yn ategu cynigion Strategaeth Cludiant Cyfun Wrecsam sydd erbyn hyn wedi eu hymgorffori yn y Cynllun Cludiant Lleol.

4.34. Mae strategaeth Cynllunio Defnydd Tir sy'n cael ei ddangos yn y Cynllun Datblygu Unedol yn ymwybodol o, ac yn ategu'n gryf, gyfarwyddyd Fforwm Economaidd Gogledd Cymru y dylai'r Cyngor ystyried yr angen;

"I gyd-drefnu polisïau defnydd tir a chludiant i gyrraedd gweithgaredd cludiant mwy cyfun a chynaliadwy"

Rheoli Datblygiad

4.35. Bydd cyfraniadau i isadeiledd cludiant yn cael eu trafod gyda datblygwyr fel rhan o drefn rheoli datblygiad. Mae mwy a mwy o ofyn am ddarparu cyfleusterau fydd yn hybu cludiant cynaliadwy. Mae enghreifftiau diweddar yn cynnwys;

- Dyfarnwyd caniatâd cynllunio am gryn ddatblygiad tai i'r de o Ffordd Holt gyda'r gofyniad fod dolen feicio yn cael ei hadeiladu i Ysgol Dewi Sant, gan gynnwys mesurau gostegu traffig priodol a bod y datblygwyr yn rhoi cymorth ariannol i gludiant cyhoeddus

- Mae cyfraniad y datblygwr o £1,800,000 oddi wrth Tesco ac Asda wedi caniatáu gorffen gwaith ar y briffordd yn ddiweddar, gan gynnwys llwybrau beicio, 3 croesfan toucan, 1 croesfan pâl, 2 cilfan fysiau ynghyd â lledu'r briffordd.

Cerdded

Polisi W1	Darparu llwybrau cerdded hwylus, diogel a dymunol drwy'r Fwrdeistref Sirol.
Polisi W2	Ystyried cerddwyr ar bob cyfnod o'r drefn ddatblygu.
Polisi W3	Darparu cyfleusterau ar gyfer cerddwyr.
Polisi W4	Ymestyn gwaith gostegu traffig a pharthau cerdded yng Nghanol Tref Wrecsam, yn y pentrefi trefol a gerllaw ysgolion.
Polisi W5	Annog a hwyluso cerdded fel dull o wella diogelwch, ffitrwydd a symudoledd plant ysgol a gostwng peryglon traffig o amgylch ysgolion.

Strategaethau

4.36. Ym mis Mawrth 2000, cyhoeddodd y Llywodraeth gyngor i awdurdodau lleol ar "Annog Cerdded" i wneud cerdded yn rhwyddach, yn fwy dymunol ac yn fwy diogel nag yw'n awr.

4.37. Cyfarwyddyd Fforwm Economaidd Gogledd Cymru yw y dylai'r Cyngor ystyried yr angen;

"I ddatblygu a hybu llwybrau cerdded",
" Gwella llwybrau troed mewn cymunedau ac i siopau, safleoedd bws, gorsafoedd trên a chyfleusterau cymunedol eraillll".

Parth Cerdded, Queens Square, Wrecsam

4.38. Cymeradwywyd Strategaeth Gerdded y Fwrdeistref Sirol ym mis Gorffennaf 2000 fel dogfen atodol i'r brif Strategaeth Cludiant Cyfun. Mae'r Strategaeth Gerdded i'w gweld yng Nghyfrol 2.

4.39. Cymeradwywyd Strategaeth Hawliau Tramwy Cyhoeddus ar wahân ym mis Gorffennaf 2000 ar gyfer 860km o lwybrau troed, llwybrau march a chilffyrdd cyhoeddus. Caiff llawer ohonynt eu defnyddio at ddibenion hamdden ond, yn arbennig ger trefi a phentrefi, gall y rhwydwaith fod yn bwysig fel math o gludiant, er bod llawer o'r llwybrau mewn cyflwr gwael ar hyn o bryd ar ôl blynyddoedd lawer o ddiffyg arian.

Ystadegau

4.40. Mae pawb bron yn cerdded, pa un ai am y daith gyfan neu i gyrraedd math arall o gludiant, gan wneud cerdded yn rhan anhepgor o'r gyfundrefn gludiant. Mae dros 80% o deithiau yn llai na milltir o hyd ac mae'r gyfran yn uwch fyth pan fo'r teithiau yn fyrrach. Mae cerdded yn cynrychioli dros 20% a 10% yn eu tro o deithiau addysg a siopa dros filltir.

4.41. Yn debyg i feicio, mae cerdded yn aml yn cael ei ddibrisio fel math o gludiant. Eto mae 11.7% o bobl yn cerdded i'w gwaith ym Mwrdeistref Sirol Wrecsam, gyda'r rhif hwn yn cymharu'n ffafriol â'r cyfartaledd o 12.6% dros Gymru. Mae cerdded yn ddelfrydol ar gyfer teithiau byr, lleol ac, wrth fod 29% o holl deithiau o dan filltir o hyd, mae eto ddigon o le i gynyddu nifer y cerddwyr yn sylweddol.

4.42. Cerdded yw'r prif ddull o symud yn yr ardaloedd trefol, yn arbennig yng nghanol tref Wrecsam. Mae Ffigur 4 yn dangos llifau cerddwyr o gwmpas canol tref Wrecsam.

Problemau

4.43. Er mwyn hyrwyddo cerdded a chynyddu'r nifer o bobl sy'n cerdded fel math o gludiant, rhaid cydnabod y problemau sy'n wynebu cerddwyr;

Mae problemau sy'n wynebu cerddwyr yn cynnwys;

- pellter y daith
- y teimlad o berygl oddi wrth gerbydau
- problemau wrth groesi ffyrdd
- pryder am ddiogelwch personol
- y posibilrwydd o dywydd garw
- arafwch
- anhawster cludo nwyddau

Gostegu traffig tu allan i Ysgol Gynradd Acton

4.44. Mae problemau arbennig o ran ysgolion, gyda thagfeydd traffig wedi cynyddu yn sylweddol yn y 10 deng mlynedd diwethaf yn yr holl ysgolion fel bydd mwy a mwy o rieni yn gyrru eu plant i'r ysgol.

Gweithredoedd

4.45. Gall y gweithredoedd canlynol wella amodau i gerddwyr;

- Gostegu traffig – mae gwaith gostegu traffig yn ceisio gostwng cyflymder cerbydau trwy ddefnyddio mesurau ffisegol yn hytrach na chyfyngiadau cyflymder. Mae gostwng cyflymder yn hanfodol at ostwng nifer a difrifoldeb y clwyfedigion.
- Llwybrau troed lletach – mae llwybrau troed lletach yn gwella diogelwch cerddwyr a'r teimlad o ddiogelwch. Mewn mannau prysur, mae'r lled ychwanegol yn rhoi digon o le i gerddwyr yn lle bod raid iddynt gerdded ar y ffordd fawr.
- Cyffyrdd dyrchafedig – mae cyffyrdd dyrchafedig yn arafu cerbydau ar gyffyrdd ac yn cynyddu ymwybyddiaeth gyrwyr o gerddwyr.
- Cyfnodau "gwyrdd i bawb" ar gyfer cerddwyr lle bydd goleuadau traffig – mae amseru goleuadau traffig i roi blaenoriaeth i gerddwyr yn gostwng eu hamserau teithio. Gall datgelyddion sy'n ymestyn amser croesi ar gyfer cerddwyr, os bydd rhai'n dal yn bresennol ar y groesfan, leihau oediad cerbydau.

- Croesfannau cerddwyr ar linellau dymuniad – mae'n bwysig nad yw cerddwyr yn gorfod dargyfeirio er mwyn croesi ffyrdd. Dylai llwybrau fod mor uniongyrchol ag y bo modd.
- Arwyddion, seddau, biniau sbwriel a goleuo da – gall dodrefn stryd sydd wedi eu gosod a'u dylunio'n dda wella amwynder ardal a gwella'r gyfathrach gymdeithasol. Gall goleuo wella diogelwch personol.
- Cyrbau isel a phafin cyffyrddol – mae ystyried anghenion y rhai sydd ag anawsterau symud yn rhan annatod o wella'r rhwydwaith cerdded. Mae darparu cyfleusterau o'r fath yn gwella annibyniaeth a symudoledd gan ddod â buddion cymdeithasol yn ei sgil.
- Tirlunio deniadol – gall gwaith tirlunio ar lwybrau troed ddod â buddion cymdeithasol a diogelwch. Ar y cyd â goleuo da, gall tirlun sydd wedi ei ddylunio'n dda ostwng ofnau o ddiogelwch personol trwy leihau mannau sydd mewn cysgod. Ar y cyd â darparu dodrefn stryd, gall lleiniau o dirlun deniadol roi mannau i gyfathrachu'n gymdeithasol.

Allt Madeira ar gau i gerbydau i ffurfio llwybr cerdded a beicio i ganol tref Wrecsam

- Cynnal a Chadw i adfer llwybrau troed a ddifrodwyd – gall llwybrau troed sydd wedi eu cynnal yn wael atal pobl fyddai'n dymuno cerdded rhag gwneud hynny, yn enwedig yr henoed sydd ofn baglu. Dylid cynnal llwybrau troed i safon uchel.
- Atal parcio ar balmentydd – gall palmentydd gyda cherbydau wedi eu parcio arnynt fod yn beryglus, yn enwedig i'r rhai sydd yn ei chael yn anodd i weld.

Gwaith Hyd Yma

4.46. Mae Adran 5 yn dangos gwaith y Cyngor hyd yma o ran gwella cyfleusterau i gerddwyr.

4.47. Rhaid tynnu sylw arbennig at ganol y dref lle mae parth cerdded eang, a gwell croesfannau wedi cael eu gosod ar y Ffordd Gylch Fewnol. Gwnaed y gwaith hwn mewn partneriaeth gydag amrediad eang o sefydliadau, gan gynnwys arian oddi wrth Tesco, Asda, Yr Awdurdod Iechyd Deintyddol, Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, Coleg Iâl, Cynulliad Cenedlaethol Cymru ac Awdurdod Datblygu Cymru. Cyfunwyd y cyfleusterau cerdded gyda rhannau o'r rhwydwaith beicio a thrwy ddarparu cysylltiadau rhwng cyfnewidfeydd cludiant cyhoeddus a meysydd parcio.

4.48. Y syniad sylfaenol yw fod canol y dref yn barth cerdded cyflawn (gydag ond cerbydau gwasanaethu hanfodol a deiliaid bathodynnau anabl tu allan i adegau cerdded brig) wedi ei gylchynu gan lwybr beicio o'r canol sydd, yn ei dro, ynghanol y Ffordd Gylch Fewnol ar gyfer traffig. Mae Ffigur 5 yn dangos y cyfleusterau a ddarparwyd a'r cyfuno rhwng mathau o gludiant.

Beicio

Polisi C1	Sefydlu llwybrau beicio cynhwysfawr trwy welliannau ar hyd llwybrau presennol, defnyddio strydoedd tawel, ac adeiladu pontydd i feicwyr a cherddwyr.
Polisi C2	Cynyddu mannau i barcio beiciau mewn cylchoedd cyhoeddus allweddol.
Polisi C3	Darparu cyfleusterau llogi beiciau fel rhan o ail ddatblygu'r Orsaf Fysiau.
Polisi C4	Ymestyn gwaith gostegu traffig a pharthau cerdded yng Nghanol Tref Wrecsam, pentrefi trefol a gerllaw ysgolion.
Polisi C5	Goleuo lwybrau beicio a cherdded yn ddigonol.
Polisi C6	Ystyried anghenion beicwyr ar bob cyfnod o'r drefn ddatblygu.

Strategaethau

4.49. Ym mis Gorffennaf 1996 cyhoeddwyd y Strategaeth Feicio Genedlaethol i hybu blaenoriaeth i feicio ar y briffordd, yn y gweithle ac mewn datblygiadau newydd. Yr amcan drwyddi draw yw cynyddu defnyddio beiciau.

4.50. Cymeradwywyd Strategaeth Feicio'r Fwrdeistref Sirol, sydd i'w gweld yng Nghyfrol 2, ym mis Ionawr 1999. Mae'n cefnogi ac yn ategu'r Strategaeth Feicio Genedlaethol a chyfarwyddyd FfEGC y dylai'r Cyngor fod yn;

"Datblygu a hybu'r Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol a chysylltiadau perthynol".

4.51. Mae'r strategaeth yn cydnabod fod gan feicio y gallu i chwarae rhan fwy mewn datblygu rhwydwaith cludiant cynaliadwy. Trwy'r Cynllun Cludiant Lleol a'r Strategaeth Feicio, mae Cyngor Bwrdeistref Sirol yn awyddus i hybu beicio fel math iach o gludiant personol sy'n amgylcheddol gyfeillgar.

Blaenoriaeth i feicwyr fel rhan o lwybr beicio Acton

4.52. Ar hyn o bryd nid oes unrhyw gysylltiadau i'r Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol o Wrecsam. Mae'r Cyngor wrthi yn trafod gydag awdurdodau cyfagos a SUSTRANS i gael dolen o'r rhwydwaith beicio cenedlaethol o Gaer trwy Wrecsam a Llangollen i Drawsfynydd.

Ystadegau Beicio

4.53. Yn genedlaethol, mae beicio yn y DU yn cyfrif am lai na 2% o deithiau i'w gymharu â 10% yn Sweden a 18% yn Nenmarc. Mae'r defnydd o feiciau wedi gostwng ym Mhrydain, ond eto yn ddiweddar bu cynnydd cyson mewn gwerthiant beiciau, oherwydd diddordeb mewn beicio fel gweithgaredd hamdden.

4.54. Gyda 47% o deithiau yn llai na 2 filltir, yn genedlaethol, mae'n amlwg fod lle i gynyddu'r defnydd o feiciau fel math o gludiant. Dim ond 1.6% o weithwyr oedd yn beicio i'w gwaith yn

Wrecsam (Cyfrifiad 1991). Mae'r nifer hwn, er ei fod yn isel, ychydig yn well na'r cyfartaledd o Deithiau i'r Gwaith ar Feic dros Gymru, sef 1.4%.

Problemau

4.55. Er mwyn gwella atyniad beicio, rhaid mynd i'r afael â sawl mater. Mae beicwyr presennol, a'r rhai sydd eisiau bod, yn enwi amryw o broblemau sy'n mynd gyda beicio;

- pellter y daith
- y teimlad o berygl ar ffyrdd
- diffyg cyfleusterau beicio ar ffyrdd
- pryder am ddiogelwch personol
- y posibilrwydd o dywydd garw
- anhawster parcio beiciau'n ddiogel
- diffyg cyfleusterau yn y gwaith neu'r ysgol, e.e. cawodydd
- arafwch
- anhawster cludo nwyddau

Gwaith Hyd Yma

4.56. Mae Adran 5 yn dangos gwaith y Cyngor hyd yma o ran gwella cyfleusterau i feicwyr.

4.57. Yn arbennig, mae gwaith wedi ei wneud eisoes ynghanol y dref i annog beicio, gyda lansio Llwybrau Beicio Wrecsam ym mis Mawrth 1999. Cyhoeddwyd Map o'r Llwybrau Beicio, sydd ar gael yn rhad ac am ddim yn yr holl lyfrgelloedd lleol, atyniadau ymwelwyr, ysgolion a swyddfeydd y Cyngor.

4.58. Mae cyfleusterau yn cynnwys parcio i feiciau, llinellau aros i feiciau ar y blaen, cyfleusterau croesi toucan a lonydd a llwybrau beicio.

4.59. Sefydlwyd Fforwm Beicio hefyd ym mis Mawrth 1999 sy'n cyfarfod bob chwarter. Daw llawer o bobl i'r Fforwm, sy'n gorff annibynnol, yn cynnwys unigolion gyda diddordeb personol, busnes neu broffesiynol mewn beicio yn ardal Wrecsam.

4.60. Mae Ffigurau 6 a 7 yn dangos y llwybrau beicio yng nghylch canol Wrecsam sy'n osgoi'r parth cerdded craidd a'r Ffordd Gylch Fewnol, gan gynnwys 5 croesfan toucan. Mae Ffigur 5 yn dangos sut mae beicio wedi cael ei gyfuno gyda dulliau teithio eraill yng nghanol y dref.

Cludiant Cyhoeddus

Polisi PT1	Cefnogi a datblygu gwasanaethau bws confensiynol ac atebion cludiant cymunedol yng nghefn gwlad gyda'r sector gwirfoddol.
Polisi PT2	Helpu'r henoed a'r anabl i ddefnyddio gwasanaethau presennol.
Polisi PT3	Cefnogi ac ehangu gwaith Galw am Gludiant Chariotts.
Polisi PT4	Parhau i ddatblygu'r ymroddiad i hyrwyddo holl wasanaethau cludiant cyhoeddus yn y Fwrdeistref Sirol i hybu'r defnydd mwyaf.

Strategaeth

4.61. O dan Ddeddf Cludiant 1985, mae gan y Cyngor ddyletswydd i lunio polisïau ar gludiant cyhoeddus. Cyhoeddwyd y Strategaeth Cludiant Cyhoeddus ym mis Ionawr 1999, yn dilyn ymgynghoriad gyda chwmnïau cludiant, awdurdodau cyfagos, cynghorau tref a chymuned ac eraill gyda diddordeb. Mae'r Strategaeth Cludiant Cyhoeddus yn amlinellu polisïau ac amcanion cludiant cyhoeddus y Cyngor, ac maent i'w gweld yng Nghyfrol 2.

4.62. Mae gan wasanaethau bws a thrên ran bwysig iawn i chwarae o ran cyflenwi'r Cynllun Cludiant Lleol. Mae'r ddau yn fathau o gludiant cynaliadwy a chost-effeithiol sydd â'r gallu i wasanaethu ardaloedd trefol a chefn gwlad y gymuned.

4.63. Mae sail cyfraniad y Strategaeth Cludiant Cyhoeddus i'r Cynllun Cludiant Lleol yn adlewyrchu ymroddiad y Cyngor i gymunedau, busnesau a'r amgylchedd a chaiff ei seilio ar bedair egwyddor;

- Yr Amgylchedd
- Y Gymdeithas
- Hyrwyddo
- Partneriaeth

Gorsaf Fysiau Wrecsam

4.64. Mae Partneriaeth yn gydran allweddol o'r strategaeth, a'r partneriaid yn cynnwys Cynghorau Tref a Chymuned, awdurdodau cyfagos gyda'r rhai y bydd trefniadau'n cael eu gwneud i noddi gwasanaethau ar draws y ffiniau, cwmnïau trên a *Railtrack*. Rhaid cydnabod yn arbennig ran yr holl gwmnïau bws masnachol, gan na fyddai llawer o'r gwasanaethau yn rhedeg hebddynt.

4.65. Mae'r strategaeth ar gyfer gwasanaethau bws a thrên yn cefnogi amcan Fforwm Economaidd Gogledd Cymru y dylai'r Cyngor;

"Wella isadeiledd cludiant cyhoeddus i gynnig safon briodol o wasanaeth",
"Cyd-drefnu gwasanaethau cludiant cyhoeddus i hybu cyfnewid rhwng dulliau cludiant a gwella teithiau",
"Cydnabod pwysigrwydd parhaol cludiant ffordd yn ardaloedd gwledig ac ymylol y rhanbarth",

"Darparu gwybodaeth hygyrch, hawdd ei deall a dibynadwy i deithwyr o bob math"

Problemau

4.66. Mae cyfran fawr o'r boblogaeth, trwy salwch, oedran, anabledd parhaol neu dros dro yn llai abl i ddefnyddio'r gyfundrefn gludiant leol. Gyda sefydlu gofal yn y gymuned, mae anghenion teithio o'r fath wedi cynyddu. Nod y Cyngor yw sicrhau gwasanaethau cludiant sydd o fudd i bawb yn y gymuned, a bydd yn annog defnyddio cerbydau cwbl hygyrch ar gytundebau gwasanaethau bws lleol ac mewn partneriaeth gyda chwmnïau i ategu bysiau mwy hygyrch sydd ar gael eisoes ar nifer o wasanaethau.

4.67. Mae cyhoeddusrwydd a hyrwyddo yn cael ei weld fel dull allweddol o ddatblygu cludiant cyhoeddus. Mae gwybodaeth amhleidiol a diweddar yn gymorth i hyrwyddo ymwybyddiaeth y cyhoedd, ac mae'n erfyn pwysig mewn cynyddu nifer y defnyddwyr, gan fod o fudd uniongyrchol i'r rhai sy'n teithio a chwmnïau masnachol fel ei gilydd. Gall hefyd hyrwyddo delwedd gadarnhaol a rhoi cadarnhad o'r gwasanaeth, hyder a sicrwydd i'r teithwyr.

Gwaith Hyd Yma

4.68. Y Cyngor yw'r unig ddarparwr o amserlenni cynhwysfawr yn y Fwrdeistref Sirol ac mae eisoes yn dosbarthu mwy na 30,000 o daflenni a llyfrynnau bob blwyddyn. Mae swyddfa ymholiadau'r orsaf fysiau yn trin rhyw 70,000 ymholiad neu ymweliad bob blwyddyn yn ogystal â thrafod o leiaf 30,000 o alwadau ffôn.

4.69. Mae gan unigolion eu hanghenion teithio eu hunain sy'n amrywio o ddefnyddio cludiant cyhoeddus presennol, a hynny gydag anhawster yn aml, i'r rhai sydd angen cludiant arbenigol. Mae'r gwaith yn y Fwrdeistref Sirol hyd yma yn cynnwys;

- Gwelliannau mewn gwasanaethau bws yn rhoi mwy o gyfle teithio i bobl. Rhwng 0700 a 1800 mae gan yr holl brif dramwyfeydd bws trefol a gwledig wasanaethau o leiaf bob chwarter awr a phob awr yn eu tro i'r pentrefi trefol allweddol. Mae gwasanaethau hwyrol ar y tramwyfeydd hyn bob awr fan leiaf.
- Bydd cynlluniau ar gyfer yr orsaf fysiau yn cynnwys yr hygyrchedd diweddaraf i annog mwy o gyfnewid a mwy o gyfle i'r henoed a'r anabl deithio. Bydd yn cyfuno *Shopmobility*.
- Mae'r rhai sy'n dewis defnyddio cynllun tocynnau mantais y Cyngor wedi cynyddu 275 y cant. Mae'r cynllun yn cynnig tocynnau hanner pris i'r henoed a'r anabl, gyda'r dall a'r tra byddar yn teithio'n rhad ac am ddim.
- Erbyn hyn mae'r Cyngor yn cyfrannu'n sylweddol at Chariotts, Galw am Gludiant Wrecsam. Mae nifer y teithiau a geisiwyd wedi cynyddu'n gyson o 175 ym mis Ebrill 1999 i 301 ym mis Ionawr 2000.

A Gwybodaeth Amserlen

Gweithredoedd

4.70. Er mwyn i gludiant cyhoeddus allu chwarae ei ran briodol, mae'r Cyngor eisiau adeiladu ar y datblygiad hwn i gynnwys y canlynol;

- sicrhau, lle bydd modd, fod holl orsafoedd trên a'r trenau sy'n galw yno yn gwbl hygyrch. Dim ond gorsaf newydd Wrecsam sy'n cynnwys cyfleusterau i'r anabl a gall mynediad fod yn anodd mewn gorsafoedd eraill, nid yn unig i deithwyr anabl, ond hefyd i gerddwyr gyda chadeiriau gwthio neu bramiau.

- mewn partneriaeth gyda chwmnïau, defnyddio bysiau llawr isel fesul tipyn
- ehangu gwaith Galw am Gludiant Chariotts
- sefydlu cynlluniau car gwirfoddol trefol i'r rhai sy'n methu defnyddio cludiant cyhoeddus ond sydd heb fod angen Galw am Gludiant llawn
- ystyried gwasanaeth bws canol y dref sy'n gwbl hygyrch
- archwilio dulliau o wella hygyrchedd i'r rhai gyda phroblemau symud yng nghefn gwlad trwy ddefnyddio atebion anghonfensiynol
- gwella safleoedd bws ar fin y ffordd
- ystyried cynllun cerdyn tacsi
- mewn partneriaeth gyda chwmnïau bws a thrên, archwilio tocynnau trwodd, yn enwedig fel rhan o ymgyrchoedd twristiaeth
-

4.71. Er mwyn atgyfnerthu'r gwaith o hyrwyddo cludiant cyhoeddus y bwriad yw:

- cyfrannu'n uniongyrchol at farchnata gwasanaethau trên
- gwella hysbysfyrddau ar fin y ffordd ac mewn llochesau
- adeiladu ar welliannau mewn dylunio amserlenni a thaflenni
- comisiynu map a chyfarwyddyd cyffredinol ar gludiant cyhoeddus oddi mewn a thu allan i'r Fwrdeistref Sirol
- cynnig amserlenni print bras ar gyfer pobl sydd heb fod yn gweld cystal
- hysbysu buddion gwasanaethau ac amleddau i hybu cludiant cynaliadwy.

4.72. Yn rhanbarthol, mae gan Wrecsam y gallu i chwarae rhan llawer mwy sylweddol mewn cludiant cyhoeddus. Mae gwasanaethau bws a thrên yn gwasanaethu prif isranbarthau, gogledd-ddwyrain Cymru, gogledd-orllewin Lloegr, cysylltiadau i orllewin canolbarth Lloegr a chysylltiadau i Gaer a Swydd Caer. Bydd y Cyngor yn parhau i weithio'n agos gydag awdurdodau cyfagos wrth gynllunio a hyrwyddo gwasanaethau cludiant cyhoeddus.

Bysiau

Polisi BS1	Sicrhau darpariaeth o wasanaethau bws angenrheidiol i'r gymuned yn amodol ar gael y gwerth gorau am yr arian o fewn yr adnoddau sydd ar gael.
Polisi BS2	Yn gyffredinol, bydd pris tocynnau ar wasanaethau angenrheidiol i'r gymuned yn unol â gwasanaethau bws masnachol yn yr ardaloedd.
Polisi BS3	Sefydlu gwasanaethau bws arbrofol i wella'r rhwydwaith presennol er mwyn adlewyrchu'r gofynion newidiol am gludiant cyhoeddus.
Polisi BS4	Adolygu maint y cymorth i wasanaethau ar Suliau a Gwyliau Banc.
Polisi BS5	Cynnal y rhwydwaith presennol o wasanaethau ysgol ar gyfer plant sydd heb fod yn gymwys i dderbyn cludiant di-dâl wrth deithio i'w hysgol agosaf.
Polisi BS6	Sefydlu Partneriaethau o Safon i wella cyfleusterau teithwyr a defnyddio gwasanaethau.
Polisi BS7	Ystyried mesurau blaenoriaeth i wasanaethau bws.
Polisi BS8	Gwella isadeiledd min y ffordd er mwyn cael y defnydd hygyrchedd gorau o wasanaethau bws.
Polisi BS9	Trwy ail ddatblygu Gorsaf Fysiau Wrecsam, darparu cyfleusterau cyfnewid cyfoes gyda staff wrth law i roi cyngor a gwybodaeth.

4.73. Y brif derfynfa ynghanol y dref yw'r Orsaf Fysiau lle bydd y rhelyw o'r gwasanaethau yn galw. Gorsaf Fysiau Wrecsam yw'r orsaf fysiau fwyaf yng Ngogledd Cymru. Mae'n trafod 3 miliwn o deithwyr y flwyddyn gyda dros 170,000 ymadawiad y flwyddyn. Mae rhyw 16 y cant o deithwyr yn trosglwyddo o un bws i'r llall. Gyda mwy na deg cwmni masnachol yn defnyddio'r safle, mae amleddau yn tueddu i fod yn uchel, hyd yn oed rhai'r cwmnïau llai.

4.74. Adeiladwyd Gorsaf Fysiau Wrecsam yn y 1950au gan yr hen *Crosville Motor Services Ltd* ac mae angen cryn ailwampio arni. Cafwyd arian o Gynulliad Cenedlaethol Cymru at ailwampio'r Orsaf Fysiau.

4.75. Caiff gwasanaethau yn y Fwrdeistref Sirol eu darparu gan gwmnïau masnachol niferus. Mae rhai gwasanaethau yn cael eu rhedeg gan gwmnïau lleol, tra bo gwasanaethau eraill yn cael eu darparu gan y cwmni mawr, Arriva. Mae tua 400,000 o deithiau bws lleol yn y Fwrdeistref Sirol bob blwyddyn a rhyw ddwy filiwn o deithwyr yn defnyddio safleoedd bws canol y dref neu Orsaf Fysiau Wrecsam bob blwyddyn. Ar gyfartaledd mae pedwar bws yn rhedeg bob awr ar wasanaethau i ac o Ganol Tref Wrecsam yn ystod y dydd. Mae Ffigurau 8 a 9 yn dangos y gwasanaethau bws sy'n rhedeg yn y Fwrdeistref Sirol.

4.76. Mae lle ar gael ar y gwasanaethau bws presennol ac fe all y rhwydwaith, felly, symud llawer mwy o deithwyr heb ychwanegu llawer at y costau. I hybu defnyddio'r bysiau, rhaid darparu gwasanaethau hwylus a chyfleusterau o safon uchel er mwyn gwella sut mae'r cyhoedd yn gweld teithio ar y bws.

4.77. Pa fesurau bynnag sy'n cael eu sefydlu i helpu teithwyr henoed ac anabl, bydd rhan o'r gymuned yn parhau i fethu cael mynediad llawn a bod angen gwasanaeth cyflawn o ddrws i ddrws. Mae gwasanaeth Galw am Gludiant ar hyn o bryd yn gwneud gwaith pwysig, yn enwedig i ddefnyddwyr cadeiriau olwynion. Ar hyn o bryd, caiff ei ariannu drwy'r cynllun tocynnau mantais a thrwy daliadau'r rhai sy'n ei ddefnyddio, ond mae'r galw am y gwasanaeth yn uwch, ar hyn o bryd, nag y gall y ddau gerbyd ei ateb a bydd angen mwy o gynhaliaeth.

Cerbyd Galw am Gludiant Chariotts

4.78. Mae pwysigrwydd cludiant cyhoeddus mewn ardaloedd gwledig heb eu cludiant eu hunain yn cael ei gydnabod. Yn dilyn derbyn arian y Grant Cludiant Gwledig, cafodd amryw o wasanaethau bws gwledig eu gwella ers mis Tachwedd 1998. Fodd bynnag, mae gwasanaethau gwledig yn aml yn ddrud i'w darparu ac nid yw bob amser yn briodol nac yn gost-effeithiol i redeg gwasanaethau mewn rhai ardaloedd. Os caiff gwasanaethau eu dileu, bydd y Cyngor yn ceisio hyrwyddo gwasanaethau cludiant cymunedol hyblyg fel cynlluniau car cymdeithasol, bysiau cymunedol a gwasanaethau bws y post. Er bod cysylltiadau cludiant cyhoeddus wedi gwella yn Nyffryn Maelor a Dyffryn Ceiriog, mae'r Cyngor eisoes yn cynnal cludiant cyhoeddus anghonfensiynol ac mae'n ceisio gwella cyfleoedd teithio'r rhai sydd heb eu cludiant eu hunain trwy noddi cynlluniau car cymdeithasol presennol. Ar hyn o bryd, mae'r cynlluniau presennol yn rhad ac am ddim, a'r bwriad yw gofyn i ddefnyddwyr gyfrannu tuag at bob taith.

Rheilffyrdd

Polisi RS1 Hyrwyddo a datblygu'r gwasanaethau trên yn y Fwrdeistref Sirol yn unol â chynigion Fforwm Economaidd Gogledd Cymru. Y cynigion yw;

- Gwasanaeth bob awr o Wrecsam drwy Gaer i Fanceinion a Maes Awyr Manceinion.
- Gwasanaeth bob hanner awr ar reilffordd Wrecsam - Bidston gyda chysylltiadau da yn Shotton a Wrecsam i wasanaethau eraill.
- Gwasanaeth bob hanner awr ar reilffordd Caer – Wrecsam - Amwythig gyda threnau bob yn ail yn rhedeg i Gaerdydd a Birmingham gan roi gwasanaeth bob awr i'r mannau hynny. Byddai trenau o Birmingham yn mynd ymlaen i Fanceinion a rhai o Gaerdydd ym rhedeg ymlaen i Gaergybi.
- Gwasanaeth bob dwy awr o Gaergybi i Lundain gyda chysylltiadau da yng Nghaer ar gyfer gwasanaethau Wrecsam.
- Gwasanaeth bob hanner awr rhwng Caer a Crewe gan roi cysylltiadau da yng Nghaer a Crewe ar gyfer gwasanaethau i Lundain sydd heb fod yn rhai trwodd.
- Partneriaethau gyda chwmnïau trên, tebyg i'r rhai ar gyfer gwasanaethau bws.

Polisi RS2 Hwyluso neu gyfrannu at welliannau dethol i isadeiledd y rheilffyrdd yn y Fwrdeistref Sirol.

Polisi RS3 Ar y cyd â Chyngor Sir y Fflint, sicrhau gwasanaethau hwyrol ac ar y Sul ar reilffordd Wrecsam - Bidston.

4.79. Mae dwy brif orsaf ynghanol y dref, yr Orsaf Ganolog newydd ei hadeiladu a'r Orsaf Gyffredinol a ailwampiwyd yn ddiweddar. Mae dwy linell yn rhedeg trwy'r Fwrdeistref, o Gaer drwy Wrecsam, Rhiwabon a'r Waun i'r Amwythig a Birmingham; ac o Wrecsam a Gwersyllt i Bidston (a Lerpwl). Yr amcangyfrif yw fod dros 300,000 o deithwyr yn defnyddio'r orsaf drenau ynghanol y dref bob blwyddyn. Mae Ffigur 10 yn dangos y Rhwydwaith Rheilffyrdd.

Gorsaf Ganolog Newydd Wrecsam wedi ei darparu fel rhan o ddatblygiad canolfan

4.80. Yn aml mae teithio ar y trên yn cael ei danbrisio ond mae'n chwarae rhan bwysig yn llwyddiant Cynllun Cludiant Lleol Wrecsam. Nid yw trenau yn dioddef tagfeydd o'r fath sy'n cael ei ddioddef gan gerbydau eraill, er y gall oedi ddigwydd gyda gormod o bwysau ar gyffyrdd allweddol neu rannau fel sydd rhwng Wolverhampton a Birmingham. Rhaid cydnabod nad yw gorsafoedd bob amser yn hygyrch naill ai ar ddechrau neu ar ddiwedd y daith.

4.81. Mae'r Awdurdod Rheilffyrdd Strategol Cysgodol wrthi yn ail-drafod neu'n ail-fasnachfreinio'r rhwydwaith trenau teithwyr. Bydd y masnachfreiniau newydd am 15/20 mlynedd ac un posibilrwydd yw creu Masnachfraint neu Gwmni Trenau Cymru Gyfan i gynnwys Cymru a'r gororau. Ar hyn o bryd mae 4 Cwmni Trenau yn gwasanaethu Gogledd Cymru. Rhaid i unrhyw fasnachfraint newydd allu cyflenwi'r rhwydwaith gorau posibl gyda gwasanaethau gwell mewn dull cost-effeithiol i wasanaethu anghenion teithwyr yn well. Sut bynnag y caiff y map masnachfreiniau ei lunio, y gobaith yw y bydd y cwmni llwyddiannus yn ymroddi i raglen o drin

gorsafoedd ar hyd y rheilffyrdd i wella cyfleusterau teithwyr a chyfnewid gyda dulliau cludiant eraill.

4.82. Yn ystod 1999 datblygwyd nifer o fentrau partneriaeth gydag awdurdodau lleol er mwyn hyrwyddo'r llinell rhwng Caer a Birmingham (a'r llinell o'r Amwythig i Aberystwyth a Phwllheli). Mae gofyn i'r Awdurdodau Lleol ar hyd y llwybr gefnogi buddsoddiad o £5 miliwn yn y rheilffyrdd sy'n gwasanaethu gogledd a chanolbarth Cymru. Mae'r bartneriaeth newydd wedi ei ffurfio gydag Awdurdod Datblygu Cymru, *Central Trains* a *Railtrack* i drawsnewid dyfodol y llinellau hyn. Os aiff hyn rhagddo, gallai'r cynigion i wella'r isadeiledd weld cynnydd mewn cyflymder fydd yn caniatáu ail-lunio'r patrwm gwasanaeth yn gyfan-gwbl. Bydd amserau teithio yn gostwng a gallai'r gwasanaeth rhwng yr Amwythig a Chaer newid o wasanaeth bob dwy awr i un bob awr.

Gorsaf Gyffredinol Wrecsam wedi ei Hailwampio

4.83. Er bod gwasanaethau ar gael i Wrecsam o dri chyfeiriad, gan gynnwys amryw o drefi mawrion, mae nifer y teithwyr yn isel ar hyn o bryd, a gallai safon ac amledd y gwasanaethau fod yn llawer gwell, gan gynnwys darparu cysylltiadau hirbell i Dde Cymru a Llundain.

4.84. Trwy weithio mewn partneriaeth gyda'r cwmnïau trên ac awdurdodau lleol eraill, mae modd cytuno ar weledigaeth a strategaeth gyfrannol at ddatblygu'r llwybrau, ac mae'n rhoi cyfle i bawb sy'n cymryd rhan i gytuno ar gynllun unedig. Gyda'r cwmnïau'n gweithio ar y cyd â'r Awdurdodau Lleol, fe all y bydd modd cael arian o ffynonellau allanol.

4.85. Penodwyd Swyddogion Rheilffyrdd Cymunedol ar gyfer llinell Wrecsam - Bidston a llinell Caer - Birmingham i godi ymwybyddiaeth a chynyddu'r defnydd drwy hynny. Daw'r cyllid ar gyfer y Swyddogion Rheilffyrdd Cymunedol ar y cyd oddi wrth y cwmnïau trên, *Railtrack*, y Cynghorau Lleol ac Asiantaeth Cefn Gwlad.

Cerbydau Newydd ar wasanaethau Caer – Wrecsam - Birmingham

Parcio a Pharcio a Theithio

Polisi P1	Ni fydd y Cyngor yn darparu unrhyw feysydd parcio byr-aros newydd yng nghanol tref Wrecsam. Efallai y caiff lleoedd byr-aros ychwanegol eu darparu trwy addasu lleoedd hir-aros.
Polisi P2	Ni fydd y Cyngor yn darparu unrhyw feysydd parcio hir-aros newydd yng nghanol tref Wrecsam.
Polisi P3	Cadw golwg ar ddefnydd a phrisio meysydd parcio canol y dref er mwyn gweld pryd y bydd galw amlwg am Barcio a Theithio.
Polisi P4	Diogelu safle(oedd) ar gyfer Parcio a Theithio a gweithredu yn unol â Pholisi P3.
Polisi P5	Sefydlu mesurau blaenoriaeth penodol i fysiau ar gyfer gwasanaethau bws parcio a theithio.

Strategaeth Barcio

4.86. Mae'r Cynllun Cludiant Lleol yn cydnabod na fydd darparu mathau eraill o gludiant yn darbwyllo gyrwyr ceir i newid o'u ceir yn hawdd. Mae'r Strategaeth Barcio yn anelu at ddatblygu arweiniadau parcio fydd yn ategu cynigion cludiant eraill. Bydd gweithredu polisïau parcio yn elfen allweddol o reoli'r galw am deithio, yn enwedig o ran teithiau i ac o Ganol Tref Wrecsam. Mae'r Cyngor yn cydnabod fod raid cynnal bywiogrwydd parthau masnachol ac amwynderau cylchoedd preswyl, yn arbennig trwy;

- Edrych mewn ffordd gynhwysfawr ar ddarparu lleoedd parcio
- Annog cynlluniau cymudo gwyrdd er mwyn lleihau'r galw am barcio
- Asesu addasrwydd parcio a theithio i ateb anghenion teithio ardal Wrecsam.

Parcio Ceir yng Nghanol Tref Wrecsam

4.87. Ar hyn o bryd mae 11 o feysydd parcio yng nghanol y dref, sy'n darparu bron i 2,500 o leoedd. Mae naw o'r rhain ym meddiant, ac o dan reolaeth, y Cyngor a chaiff y ddau arall eu rheoli gan *National Car Parks*. Mae meysydd parcio Neuadd y Dref, y Llyfrgell a Stryt y Farchnad yn rhai byr-aros yn unig ac mae Dôl Eryrod yn bennaf yn safle hir-aros, tra bo'r gweddill yn darparu parcio byr a hir-aros. Caiff Maes Parcio Ffordd Rhosddu ei neilttuo ar gyfer deiliaid bathodynnau anabl yn unig. Mae amod cynllunio ar Faes Parcio Y Werddon, o dan reolaeth *National Car Parks,* sy'n mynnu bod y prisiau yn adlewyrchu prisiau'r Cyngor.

4.88. Mae Ffigur 5 yn dangos lleoliad meysydd parcio canol y dref. Mae mynediad i'r meysydd parcio o'r Ffordd Gylch Fewnol heb ddim mynediad i'r parth cerdded craidd.

4.89. Mae cyflogwyr Canol y Dref hefyd yn darparu nifer o feysydd parcio staff sydd yn rhoi cyfanswm o bron i 1,300 o leoedd. Mae llawer o'r meysydd parcio hyn yn fychan, tu cefn i fusnesau, gan

mwyaf tu ôl i'r swyddfeydd yn Ffordd Grosvenor, ond mae chwech o safleoedd mwy hefyd. Cyfanswm nifer y lleoedd ynghanol y dref ar gyfer pob math o barcio yw 6,080.

4.90. Mae gwaith cadw golwg ar ddefnyddio meysydd parcio yn dangos fod nifer y mannau parcio cyhoeddus sydd ar gael yn ddigonol i ateb y gofyn presennol er bod defnydd yn amrywio'n sylweddol o le i le. Y meysydd parcio mwyaf poblogaidd (Y Llyfrgell, Byd Dŵr a Chilgant Sant Siôr) yn cael eu defnyddio hyd yr eithaf ar y rhan fwyaf o ddyddiau, gyda gyrwyr yn barod i aros am le yn ystod oriau brig. Fel rheol, mae lle ar gael yn Nôl Eryrod gyda hyd at draean o'r lleoedd yn wag (heblaw ar ddydd Llun pan fo llawer llai o le yno oherwydd y farchnad agored). Oherwydd cyn lleied o dir sydd i'w ddatblygu yng Nghanol y Dref, ychydig o obaith sydd i ddarparu mwy o safleoedd ar gyfer meysydd parcio cyhoeddus.

4.91. Gall prisiau parcio ddylanwadu'n sylweddol ar ffyniant canol trefi ac mae'n hanfodol felly bod y prisiau yn Wrecsam yn cael eu gosod ar lefelau fydd yn peidio atal siopwyr. Mae prisiau Wrecsam yn uwch na'r rhai yn Yr Wyddgrug, fwy neu lai yn debyg i'r rhai yng Nghroesoswallt ac yn is na'r prisiau yng Nghaer a'r Amwythig. Mae'n arwyddocaol, fodd bynnag, fod parcio ar gael mewn llawer o'r trefi llai o gwmpas Wrecsam, ac yn y parciau adwerthu tu hwnt i'r dref ym Mrychdyn a *Cheshire Oaks* yn rhad ac am ddim. Er mwyn cynnal a gwella ar gyfran Wrecsam o fasnach adwerthu'r rhanbarth, bydd gofyn i brisiau parcio gadw golwg ar y sefyllfa yn y trefi eraill hyn. Rhaid cael cydbwysedd rhwng pennu prisiau sy'n ddeniadol i siopwyr ond sydd heb fod mor isel ag i annog hyd yn oed fwy o gymudo mewn ceir.

4.92. Cododd prisiau parcio tua 50% yn Ebrill ac Awst 2000 a chafodd parcio hir-aros ei atal ym meysydd parcio Sant Siôr a San Silyn o ganlyniad i bolisïau yn y Strategaeth Barcio.

Parcio ar gyfer Pobl ag Anawsterau Symud

4.93. Tra bo pobl abl yn gallu dewis rhwng nifer o ddulliau teithio, nid yw'r un dewis ar gael i'r rhai sydd ag anawsterau symud. O dan amryw amgylchiadau, y car preifat yw'r unig ddull o gyrraedd gwaith, y siopau a chyfleusterau hamdden. Os na fydd parcio ar gael gerllaw'r gyrchfan, gall effeithio'n fawr ar ansawdd bywyd y rhai sydd ag anawsterau symud.

4.94. Ar hyn o bryd, mae'r rhai gydag anawsterau symud sylweddol yn gymwys i ddefnyddio bathodyn oren sy'n rhoi'r buddion canlynol;

- defnyddio mannau parcio wedi eu dangos yn arbennig mewn meysydd parcio cyhoeddus a phreifat ac ar y ffordd gyhoeddus
- parcio di-dâl yng Nghanol Tref Wrecsam
- defnyddio maes parcio deiliaid bathodyn oren ger Ffordd Rhosddu
- hawl i barcio ar y ffordd mewn parthau aros cyfyngedig am hyd at 3 awr heblaw pan fo cyfyngiadau llwytho, a pheidio rhwystro traffig arall
- gallu gyrru a pharcio ar strydoedd lle na chaiff y cyhoedd fynd

4.95. Erbyn hyn mae mannau parcio lletach ym meysydd parcio cyhoeddus Canol Tref Wrecsam ar gyfer modurwyr anabl ac mae lleoedd tebyg ym meysydd parcio siopau adwerthu mawr, canolfannau chwaraeon ac eiddo arall sy'n agored i'r cyhoedd.

Parcio Ceir tu allan i Ganol y Dref

4.96. Nid mater ar gyfer canol y dref yn unig yw parcio. Bu datblygiad ym Mhlas Coch, y Parc Technoleg, Ysbyty Maelor a Choleg Prifysgol NEWI. O ganlyniad, mae'r galw am barcio yn yr ardal hon bron mor uchel ag ynghanol y dref, ac mae'n agos at 5,000 o fannau parcio yno. Mae datblygiadau pellach yn debygol o ddigwydd fydd yn creu mwy o alw am barcio yn ardal Plas Coch / Croesnewydd, a bydd goblygiadau i hyn.

Polisïau Parcio

4.97. Caiff polisïau parcio penodol sydd yn y Strategaeth Barcio eu rhestru isod;

Parcio Byr-aros

4.98. Nid yw'r Cyngor yn bwriadu darparu meysydd parcio byr-aros cyhoeddus newydd yng Nghanol Tref Wrecsam. Bydd unrhyw leoedd parcio byr-aros ychwanegol ar gael yn unig trwy newidiadau i gynllun a rheolaeth y meysydd parcio presennol.

4.99. Os bydd unrhyw leoedd parcio byr-aros newydd yn cael eu darparu gan y sector preifat yng Nghanol y Dref bydd y Cyngor yn ceisio cael cytundebau rheoli ar brisiau a'r cyfnod aros.

4.100. Bydd fforwm parcio yn cael ei gynnal fel bod y Cyngor a phrif ddarparwyr parcio canol y dref yn gallu trafod materion parcio a dod i gytundeb ar reoli mannau parcio preifat presennol.

4.101. Pan fydd datblygwyr canol y dref, o dan rai amgylchiadau, yn methu cyrraedd safonau parcio'r Cyngor, bydd cyfraniadau ariannol yn cael eu talu i'w defnyddio i gynnal gwasanaethau cludiant cyhoeddus, beicio, cerdded, parcio a theithio, gwella meysydd parcio cyhoeddus a threfniadau diogelu..

Parcio Hir-aros

4.102. Nid yw'r Cyngor yn bwriadu darparu mwy o leoedd parcio hir-aros yng Nghanol Tref Wrecsam.

4.103. Bydd prisiau hir-aros yn y rhan fwyaf o feysydd parcio canolog y Cyngor yn cynyddu er mwyn annog cymudwyr i ddefnyddio Dôl Eryrod.

4.104. Bydd safonau gostyngedig ar gyfer parcio staff yn cael eu gosod ar ddatblygiadau newydd yng Nghanol y Dref er mwyn cyfyngu ar dwf cymudo gyda'r car.

4.105. Ni fydd parcio hir-aros mewn strydoedd preswyl ar bwys canol y dref yn cael ei gymell. Fe all y bydd cynlluniau parcio trigolion yn cael eu sefydlu os bydd:-

- nifer sylweddol o gartrefi yn cael eu heffeithio a;
- bod y buddion yn fwy na chostau gweinyddol y gwaith gorfodi

Parcio ar y Stryd

4.106. Bydd parcio ar y stryd yng Nghanol Tref Wrecsam yn cael ei gyfyngu i barcio byr-aros yn unig.

4.107. Yn amodol ar ystyriaeth fanwl, efallai y bydd mannau parcio ar y stryd yn cael eu darparu ar Allt y Dref, Stryt y Bryn a Stryt Efrog a thrwy ymestyn parthau aros cyfyngedig Stryt Caer. Nid oes unrhyw ddarpariaeth ychwanegol o barcio ar y stryd yn cael ei ragweld.

4.108. Bydd Gorchymyn Mannau Parcio ar y Stryd yn cael ei osod ar ochr ddeheuol Cilgant Sant Siôr. Bydd y pris parcio yr un faint ag ym maes parcio Cilgant Sant Siôr.

Parcio yng Nghroesnewydd a Phlas Coch

4.109. Efallai y bydd cyfyngiad ar ddarparu parcio mewn datblygiadau newydd masnachol, gwaith, addysg, hamdden ac ysbyty yn ardal Croesnewydd a Phlas Coch yn Wrecsam ond bod dulliau eraill o deithio ar gael i'r staff.

Parcio mewn Canolfannau Siopa Cylch a Phentrefi

4.110. Bydd y ddarpariaeth o barcio cyhoeddus mewn canolfannau cylch a phentrefi yn cael ei asesu gan ystyried amgylchiadau lleol sy'n cynnwys:-

- hygyrchedd gyda chludiant cyhoeddus, cerdded a beicio
- faint o barcio sydd ar gael ar y stryd

4.111. Os bydd maes parcio presennol yn llenwi'n rheolaidd, bydd y Cyngor yn ystyried ail-ddylunio'r cynllun i ddarparu mwy o leoedd, ymestyn y safle, darparu maes parcio newydd mewn lle gwahanol neu gyfyngu'r defnydd i barcio byr-aros.

Darpariaeth Barcio ar gyfer Pobl gydag Anawsterau Symud

4.112. Bydd cyfleusterau parcio newydd, neu rai wedi eu gwella, ar gyfer pobl ag anawsterau symud yn cael eu dylunio i gyd-fynd mor agos ag y bo modd â'r canllawiau cyfredol.

4.113. Bydd adolygiad yn cael ei gynnal o'r gofynion parcio ar ac oddi ar y stryd ar gyfer pobl gydag anawsterau symud. Lle bydd galw amlwg am ddarpariaeth ychwanegol, bydd lleoedd ar gyfer deiliaid bathodynnau oren yn cael blaenoriaeth dros ddarpariaeth o leoedd cyhoeddus.

4.114. Bydd deiliaid bathodynnau oren yn parhau i barcio'n ddi-dâl ym meysydd parcio Cyngor y Fwrdeistref Sirol.

Diogelu

4.115. Bydd pob maes parcio lle bydd tâl yn cael ei godi yn cael ei wella i Safon Maes Parcio Diogel a bydd diogelwch mewn meysydd parcio eraill yn cael ei wella fel y bydd adnoddau'n caniatáu.

Parcio Beiciau Modur

4.116. Mae beic modur yn fath o gludiant sy'n cymryd llai o le ar y ffordd ac yn creu llai o lygredd na'r car preifat. Fodd bynnag, er bod meysydd parcio yn y Fwrdeistref Sirol yn cael eu defnyddio'n rheolaidd gan feicwyr modur, ychydig o leoedd parcio arbennig sydd ar gael iddynt. Byddai poblogrwydd defnyddio beiciau modur, felly, yn cyfiawnhau gwneud peth darpariaeth bellach, fyddai o fudd i feicwyr modur trwy fod â rhannau arbennig o feysydd parcio ar eu cyfer ac yn galluogi defnyddio lleoedd parcio ceir yn fwy effeithlon.

Dyfarniad Maes Parcio Diogel Marchnad y Bobl

Parcio a Theithio

4.117. Mae mwy o ddefnyddio ceir wedi achosi tagfeydd traffig a chreu anawsterau parcio mewn llawer o drefi a dinasoedd. Gall sefydlu cynllun parcio a theithio, gydag un neu fwy o feysydd parcio ar gwr y dref, fod ymysg y dulliau mwyaf effeithiol o wynebu'r problemau hyn. Datganodd Strategaeth Cludiant Cyfun Wrecsam y dylid cynnal astudiaeth ymarferedd i ystyried os oedd cynllun parcio a theithio yn addas ar gyfer Wrecsam ac, os felly, pryd y dylid sefydlu'r fath gynllun.

4.118. Bydd gwybod os yw cynllun parcio a theithio yn debygol o fod yn addas ar gyfer Wrecsam yn dibynnu'n bennaf ar ba mor gyflym y bydd canol y dref yn parhau i ddatblygu fel prif ganolfan siopa a gwaith ac i ba raddau y bydd y ddarpariaeth barcio bresennol yn gallu ateb y galw am fannau parcio.

4.119. Er ei bod yn anodd ar adegau prysur i ddod o hyd i le i barcio yng Nghanol Tref Wrecsam, mae'r ddarpariaeth o leoedd parcio yn ddigon i ateb y galw presennol yn gyffredinol.

4.120. Mae'r Strategaeth Barcio yn datgan na ddylid darparu mwy o feysydd parcio cyhoeddus yng Nghanol y Dref ac y dylid paratoi'n awr at ddarparu cynllun parcio a theithio yn y tymor canolig. Y cynnig yw, felly, y dylid gwarchod safle sydd yn ddigon mawr i barcio o leiaf 500 o geir mewn lleoliad sydd yn dod agosaf at gyrraedd y meini prawf priodol. Bydd hyn yn galluogi darparu cynllun o safon uchel fydd yn denu'r nifer mwyaf o ddefnyddwyr.

4.121. Ymysg y darpar safleoedd a archwiliwyd, Rhan 3 o'r Parc Technoleg yw'r lleoliad mwyaf addas ar sail polisi cynllunio, tir ar gael, mynediad a chludiant cyfun. Felly, bydd llain benodol o dir yn cael ei dynodi ar gyfer cynllun parcio a theithio a'i gwarchod fel rhan o ddylunio cyflawn y parc technoleg.

4.122. Yn gryno, mae'n ymddangos y bydd angen safle ar gyfer parcio a theithio yn hwyr neu'n hwyrach ond na fydd modd cyfiawnhau cynllun yn fuan iawn. Fodd bynnag, mae'r sefyllfa yn newid yn gyflym a bydd y Cyngor yn parhau i gadw golwg ar ddefnydd a phrisiau meysydd parcio canol y dref er mwyn gweld pryd y bydd galw amlwg am barcio a theithio. Yn ogystal, bydd gwaith manwl pellach yn cael ei wneud ar ymarferedd a chostau.

Gwaith Hyd Yma

4.123. Dyfarnwyd Statws Maes Parcio Diogel i Farchnad y Bobl.

4.124. Adolygwyd meysydd parcio canol y dref i lunio strwythur prisio haws ei ddeall.

4.125. Newidiwyd maes parcio Stryt y Farchnad o barcio cytundeb i faes parcio byr-aros, a neilltuwyd maes parcio Ffordd Rhosddu ar gyfer deiliaid bathodynnau anabl.

4.126. Erbyn hyn mae meysydd parcio canol y dref yn elwa o arwyddion cyfeirio gwell, mwy eglur ac arwyddion yn rhestru'r prisiau.

Cludo Nwyddau

Polisi FT1 Adeiladu ffordd gyrchu newydd o safon uchel i Stad Ddiwydiannol Wrecsam.

Polisi FT2 Ystyried argymhellion yr astudiaeth oedd yn archwilio'r gallu i symud rhai nwyddau oddi ar y rhwydwaith ffyrdd a'u rhoi ar y trên.

Polisi FT3 Datblygu Partneriaethau Nwyddau o Safon ar gyfer canol y dref a Stad Ddiwydiannol Wrecsam

Strategaeth

4.127. Mae'r Cyngor yn cefnogi Strategaeth Dosbarthu Cynaliadwy'r Llywodraeth sydd yn ceisio;

- gwella effeithiolrwydd dosbarthu
- lleihau tagfeydd
- gwneud gwell defnydd o'r gyfundrefn gludiant
- lleihau llygredd a gostwng allyriadau o nwyon tŷ gwydr
- rheoli pwysau datblygiad ar y tirlun
- gostwng sŵn a chynnwrf o symudiadau nwyddau
- lleihau nifer y damweiniau, anafiadau ac achosion afiechyd sydd ynghlwm wrth symud nwyddau

4.128. Mae Fforwm Economaidd Gogledd Cymru yn datgan y dylai'r Cyngor ystyried yr angen;

"I ddatblygu cyfleusterau newydd a gwell i alluogi cludo cyfran uwch o nwyddau ar y rheilffyrdd ac ar y môr."

Ystadegau

4.129. Drwy'r Deyrnas Unedig, mae traffig CNT ar ein ffyrdd wedi cynyddu 38% (1989-1999) wrth fesur nifer y tunelli cilomedr sy'n cael eu cludo. Mae cyfanswm nifer y lorïau trwm sydd wedi eu cofrestru ym Mhrydain wedi aros yn ei unfan, er bod eu cynhwysedd wedi codi. Mae traffig faniau wedi cynyddu 40%. Gostyngodd y nwyddau oedd yn cael eu symud ar y trên fwy nag 20% dros y cyfnod 1982 i 1995 ond erbyn hyn maent unwaith eto o fewn 3% i'r hyn oeddent yn 1982.

Problemau

4.130. Mae'r Drefn Newydd ar Gludiant yn cydnabod fod gan ddosbarthu nwyddau ran i chwarae mewn cynnal twf economaidd y wlad, ond na ddylai hyn fod ar draul y gymuned ehangach a'r amgylchedd.

4.131. Ar hyn o bryd, mae'r nwyddau sy'n cael eu symud ar drenau yn y Fwrdeistref Sirol yn ddibwys mewn cymhariaeth â nwyddau ar y ffyrdd.

4.132. Un o'r prif lwybrau sy'n cludo cerbydau nwyddau trwm yw'r un i Stad Ddiwydiannol Wrecsam, gyda 2,000 o CNTau y dydd yn teithio arno. Gall sŵn a llygredd fod yn fater pwysig i'r trigolion sy'n byw gerllaw. Ar hyn o bryd mae cynnig i adeiladu mynedfa newydd i Stad Ddiwydiannol Wrecsam, i ddechrau yn 2001, ond bod arian ar gael. Bydd y cynllun yn symud traffig o Lôn Hugmore ac yn golygu y bydd CNTau ymhellach o dai preswyl.

Hugmore Lane, y brif fynedfa ar hyn o bryd i Stad Ddiwydiannol Wrecsam

4.133. Mae bywiogrwydd masnachol y Fwrdeistref yn dibynnu ar symud nwyddau'n effeithlon. Yn y Fwrdeistref Sirol, y rhwydwaith ffyrdd yw'r prif ddull o gludo ac mae'n hanfodol i ffyniant economaidd y Fwrdeistref Sirol fod mynedfeydd da yn cael eu darparu rhwng y prif safleoedd gwaith a'r rhwydwaith ffyrdd cenedlaethol a lleol.

4.134. Ar hyn o bryd, dim ond un cyfleuster cludo nwyddau ar y trên sydd yn y Fwrdeistref Sirol, yn gwasanaethu Kronospan yn y Waun. Caiff coed eu cludo i'r safle o'r Alban at gynhyrchu byrddau sglodion. Ar hyn o bryd, un trên y dydd yw hyn ond, yn y dyfodol agos, mae'r ffatri'n gobeithio cynyddu hyn i ddau drên y dydd. Mae anawsterau'n codi wrth anfon y nwyddau allan, gydag ond un trên y mis yn gadael y ffatri, oherwydd problemau cyfleusterau trafod y nwyddau ar ben arall y daith. Dyma enghraifft o'r gallu i symud nwyddau ar y trên.

Gweithredoedd

4.135. Mae gwaith ar y gweill i ddatblygu Ffordd Gyrchu Stad Ddiwydiannol Wrecsam, gyda chymorth Grant Cludiant Cynulliad Cenedlaethol Cymru, ac mae'r gwelliant hwn yn hanfodol bwysig os yw'r Stad Ddiwydiannol i ddatblygu i'w llawn werth.

4.136. Ar hyn o bryd, Mae'r Cyngor yn trafod â'r *Freight Transport Association* gyda golwg ar fynd i gytundeb Partneriaeth o Safon ar gyfer canol tref Wrecsam a Stad Ddiwydiannol Wrecsam.

4.137. Yn ddiweddar, gorffennwyd astudiaeth i archwilio'r gallu i gynyddu faint o nwyddau sy'n cael eu symud ar reilffyrdd Cymru wedi ei chomisiynu gan Awdurdod Datblygu Cymru ar ran *Railtrack* a'r Awdurdodau Lleol yng ngogledd a chanolbarth Cymru ac mae'n cael ei hystyried ar hyn o bryd.

Hyrwyddo Cludiant Gwyrdd

Polisi GC1	Llunio Cynllun Cludiant Gwyrdd ar gyfer y Cyngor.
Polisi GC2	Annog cyflogwyr mawr yn y cylch i lunio Cynlluniau Cludiant Gwyrdd.
Polisi GC3	Mynnu bod datblygwyr safleoedd cyflogi mawr newydd yn paratoi Cynlluniau Cludiant Gwyrdd sy'n cynnwys darpariaeth i gyfyngu ar faint o barcio sydd ar y safle.
Polisi CG4	Annog a helpu ysgolion i weithredu Cynlluniau Cludiant Gwyrdd / Cynlluniau Teithio i'r Ysgol.

Amcan Cynllun Cludiant Gwyrdd

4.138. Strategaeth yw Cynllun Cludiant Gwyrdd at ostwng y defnydd o geir a lorïau, gan gynnwys teithiau i'r gwaith. Er mwyn i Gynllun Cludiant Gwyrdd lwyddo, rhaid i agweddau ac arferion pobl newid.

Mae crynodeb o'r buddion yn cael ei ddangos isod;

Buddion Cymunedol	**Buddion Gweithwyr**	**Buddion Cyflogwyr**
Arbediadau ynni	Llai o straen	Rhyddhau mannau parcio
Llai o dagfeydd	Gwell iechyd	Arbed costau
Teithiau cyflymach	Arbed costau	Cyfrannu at amcanion gwyrdd
Gwell cludiant cyhoeddus	Teithiau cyflymach	Delwedd well
Ansawdd yr awyr yn well		

4.139. Mae'r Cyngor ei hun yn bwriadu arwain trwy sefydlu'r fath gynllun fydd yn wynebu gofynion parcio'r Cyngor ei hun yng Nghanol y Dref. Yn ogystal, y bwriad yw y bydd y prif gyflogwyr yn mabwysiadu Cynlluniau Cludiant Gwyrdd.

4.140. O ran Canol Tref Wrecsam, mae Cynlluniau Cludiant Gwyrdd yn debygol o ganolbwyntio ar roi cymhelliant i gymudwyr ollwng eu gafael ar fannau parcio gydol y dydd a defnyddio cludiant cyhoeddus, beicio, cerdded neu rannu ceir yn lle hynny. Bydd trefniadau yn cael eu sefydlu i sicrhau fod mannau parcio hir-aros sy'n cael eu rhyddhau gan gymudwyr yn cael eu cyfnewid am nifer cyfartal o fannau byr-aros ar gyfer siopwyr.

4.141. Tu allan i Ganol Tref Wrecsam, gallai ardal Plas Coch / Croesnewydd o'r dref ddioddef mwy o dagfeydd traffig a phroblemau parcio fel y bydd NEWI ac Ysbyty Maelor yn parhau i ymestyn ac yr aiff datblygiad y Parc Technoleg rhagddo. Felly, bydd y Cyngor yn annog cyflogwyr presennol yn yr ardal hon i baratoi eu cynlluniau cludiant gwyrdd eu hunain. Bydd y cynlluniau hyn hefyd yn ofyniad ar bob datblygiad mawr newydd.

Beic trydan at ddefnydd staff y Cyngor

4.142. Mae ysgolion yn cynhyrchu canran sylweddol o draffig yn yr oriau brig. Mae'r Llywodraeth yn awyddus i ysgolion weithredu Cynlluniau Teithio i'r Ysgol ac mae wedi sefydlu Grŵp Ymgynghorol ar Deithio i'r Ysgol (GYDY). Mae'r Cyngor yn cefnogi'r syniad o weithredu Cynlluniau Teithio i'r Ysgol.

Gwaith Hyd Yma

4.143. Mae'r Cyngor wedi dechrau hyrwyddo Cludiant Gwyrdd trwy wneud y gwaith canlynol;

- cynnal a dadansoddi arolwg cynhwysfawr o holl staff y Cyngor sy'n gweithio yn, neu'n ymweld â, chanol y dref
- dynodi cyfres o fesurau, ar sail yr arolwg o'r staff, er mwyn helpu i leihau y defnydd o'r car ymysg staff y Cyngor
-

Poster a luniwyd gan Ysgol y Rofft, Merffordd, fel rhan o Brosiect Llwybrau Diogel i'r Ysgol

4.144. Fel rhan o ddatblygiad parhaol o waith yr Awdurdod hwn ar Lwybrau Diogel i Ysgolion, cynhaliwyd dau gynllun peilot mewn Ysgolion Cynradd mewn dau o bentrefi trefol y Fwrdeistref Sirol.

4.145. Cynhaliwyd y prosiectau mewn partneriaeth gyda '*Groundwork'* Wrecsam. Cynhyrchwyd adroddiadau yn manylu ar y gwaith sydd ei angen ac mae argymhellion yn cael eu hystyried ar hyn o bryd.

4.146. Mae Ysbyty Maelor, cyflogwr mawr iawn i'r gogledd-orllewin o ganol y dref, wedi llunio cynllun cludiant gwyrdd ac mae'n ei ddatblygu ymhellach ar hyn o bryd.

4.147. Mae'r Cyngor yn ceisio cyhoeddusrwydd i hybu defnyddio mathau cynaliadwy o gludiant, yn arbennig mewn perthynas â materion Agenda 21. Mae hyn yn golygu cydweithio rhwng adrannau amgylcheddol, cynllunio a chludiant y Cyngor.

Gwella Ffyrdd

Polisi R1 Gweithredu polisïau'r Strategaeth Ffyrdd.

Strategaeth

4.148. Caiff ei dderbyn yn eang nad oes dim y gallwn ei wneud heblaw adeiladu ffyrdd newydd i drin tagfeydd. Mae'n bwysig, fodd bynnag, ein bod yn cael y defnydd gorau o'r rhwydwaith ffyrdd presennol a'i wella pan fydd hynny'n briodol.

4.149. Mae'r Strategaeth Cludiant Cyfun yn cydnabod fod angen "gwelliannau dethol i'r ffyrdd". Mae'r blaenoriaethau ac amserlen y gwelliannau i'r rhwydwaith ffyrdd yn cael ei ddangos yn y Strategaeth Ffyrdd sydd i'w weld yng Nghyfrol 2.

4.150. Mae Cefnffordd yr A5 / A483, sy'n mynd drwy'r Fwrdeistref Sirol rhwng De a Gogledd, yn ffurfio rhan o'r Rhwydwaith Traws Ewropeaidd o Felixstowe i Gaergybi. Mae'n darparu mynediad hanfodol ar gyfer masnach a diwydiant i'r rhwydwaith strategol cenedlaethol ar hyd yr A55, yr M53 a'r M56 i'r gogledd a'r M54 i'r de. Mae'n bwysig fod cwmnïau a chymunedau lleol yn gallu cyrchu'r llwybr strategol hwn er mwyn gallu allforio nwyddau a gwasanaethau ac annog buddsoddiad a thwristiaeth yn y Fwrdeistref Sirol.

4.151. Mae llwybrau eraill sy'n hanfodol bwysig yn rhoi mynediad i drefi a chymunedau cyfagos, yr A541 i'r Wyddgrug a Glannau Dyfrdwy, yr A525 i Ruthun ac Arfordir Gogledd Cymru a'r A539 i Langollen a'r A5 i'r gorllewin o'r Fwrdeistref Sirol. Yn y dwyrain, mae'r A534, A525, A528 a'r A539 yn rhoi mynediad i'r rhwydwaith strategol cenedlaethol ar hyd yr A41 ac yn cysylltu'r ardal â'r *Potteries* a gorllewin canolbarth Lloegr.

Problemau

4.152. Mae Adran 4.6. yn disgrifio patrymau teithio ac mae llifau traffig i'w gweld yn Ffigur 3.

4.153. Mae traffig wedi cynyddu yn y Fwrdeistref Sirol fel yng ngweddill y Deyrnas Unedig. Bu'r cynnydd hwn yn arbennig o ddyrys lle sefydlwyd tai a diwydiant newydd yn y Fwrdeistref Sirol ac ar ffyrdd yn arwain at gylchoedd cyflogaeth a siopa tu allan i'r Fwrdeistref Sirol.

4.154. Mae cylchoedd tagfeydd yn y Fwrdeistref Sirol, a thu allan iddi, yn cael eu dangos yn Ffigur 1. Bydd tagfeydd yn digwydd yn y mannau canlynol;

- Cyfnewidfa yr A483/A55 i'r de o Gaer (ciwio rheolaidd tua'r gogledd ar yr A483 yn awr frig y bore a thua'r de yn yr hwyr. Bydd traffig hefyd yn ciwio ar ffyrdd ymadael yr A55 o'r dwyrain ac o'r gorllewin i fynd ar yr A483 – a hyn ar waethaf lledu'r ffordd a gosod goleuadau traffig yn ddiweddar).

- A483/A5 Rhiwabon i'r Amwythig (llifau mawr o draffig yn teithio'n araf ar ffordd sengl gyda chylchfannau ar y gwastad a dim ond ychydig gyfle i oddiweddyd)

- A541/A550 Caergwrle a Gwersyllt (traffig trwm ar ffordd sengl yn teithio drwy gylchoedd trefol)

- A525 Heibiad Wrecsam i Goedpoeth (dyma'r unig ffordd sy'n gwasanaethu cylch trefol mawr)

- Canol Tref a Gogledd-orllewin Wrecsam (traffig trwm yn oriau brig y bore a'r hwyr. Tagfeydd cynyddol oherwydd datblygiadau mawr diweddar e.e. Y Werddon, Parc Technoleg Wrecsam, Ysbyty Maelor a datblygiad adwerthu Plas Coch)

- Stad Ddiwydiannol Wrecsam i'r A483 (traffig trwm gyda chanradd uchel o CNTau yn teithio ar hyd lonydd gwledig i Stad Ddiwydiannol fawr)

Traffig awr frig y bore yng nghanol tref Wrecsam

Gweithredu

A5156 Gwella mynediad i Stad Ddiwydiannol Wrecsam

4.155. Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi rhoi arian drwy'r Grant Cludiant ar gyfer costau paratoi'r cynllun hwn ers Ebrill 1996. Hwn yw cynllun mwyaf blaenllaw'r Fwrdeistref Sirol gan gynnwys pedair elfen neilltuol:-

- Deuoli ffordd bresennol yr A5156 – Ffordd Gyswllt Acton i Lan y Pwll
- Ffordd ddeuol newydd o drogylch yr A534 - Ffordd Holt i mewn i'r Stad ar gyffordd Abenbury Way, Ash Road a Clywedog Road
- Gwelliannau i Clywedog Road South
- Ffordd sengl newydd o'r Pumrhyd i'r A525 i'r gorllewin o Cross Lanes

4.156. Mae'r gwelliant hwn yn hanfodol bwysig os yw'r Stad Ddiwydiannol yn mynd i ddenu'r buddsoddiad sydd ei angen i ddatblygu ei lawn werth. Bydd yn rhoi mynediad cyflym a rhwydd i'r A483 a'r A525 a bydd yn symud llawer o draffig o gymunedau Llan y Pwll, Hugmore Lane, Cross Lanes a Ffordd Cefn sydd ar hyn o bryd yn defnyddio'r ffyrdd hyn i gyrchu'r Stad. Bydd hefyd yn helpu i ddarparu heibiad dwyreiniol, o'r A483 yn Acton i'r A525 ger Cross Lanes.

4.157. Mae'r gwaith adeiladu wedi ei raglennu i ddechrau ym mis Chwefror 2001. Bydd hyn yn dibynnu ar orffen y trefniannau statudol yn foddhaol a bod y Cynulliad Cenedlaethol yn parhau i roi cymorth ariannol drwy'r Grant Cludiant.

A541 Heibiad Caergwrle

4.158. Mabwysiadodd hen Gyngor Sir Clwyd y llwybr dewisol ar gyfer y cynllun hwn yn 1994. Mae'r llwybr yn gadael yr A541 ar ben gorllewinol y lôn ddeuol bresennol ger Sydallt ac yn rhedeg tua'r gogledd-ddwyrain i'r gorllewin o Stad Ddiwydiannol Llai hyd at drogylch ar y B5373 ger Rackery Hall. Mae gweddill y llwybr yn Sir y Fflint lle bydd yn rhannu i ffurfio heibiad o'r A541 i'r gogledd o Gaergwrle a heibiad o'r A550 yn yr Hôb. O ran y Fwrdeistref Sirol, mae'r cynllun yn lleddfu problemau traffig Cefn y Bedd ac yn darparu mynediad i Stad Ddiwydiannol Llai gan liniaru'r rhwydwaith o ffyrdd dosbarth B sy'n mynd drwy gymunedau Llai, Croes Hywel a'r Pandy.

4.159. Gyda'r polisïau cludiant presennol, mae'n annhebygol y byddai modd cefnogi cynllun o'r fath. Ar hyn o bryd, mae Cyngor Sir y Fflint, gyda chefnogaeth yr Awdurdod hwn, wedi gwneud cais llwyddiannus i'r Cynulliad Cenedlaethol am gyllid Grant Cludiant i gynnal astudiaeth cludiant cyfun ar gyfer tramwyfa'r A541 / A550. Bydd yr astudiaeth hon yn cynnwys problemau ar y rhwydwaith ffyrdd ym Mwrdeistref Sirol Wrecsam sy'n cael eu heffeithio gan ddyfodol y cynllun hwn.

4.160. Mae'r astudiaeth i gael ei chynnal yn 2000/2001 a'r rhagolwg yw y daw cynllun pecyn o'r astudiaeth, yn cynnwys rhaglen o fesurau dros nifer o flynyddoedd fydd yn;

- Gwella isadeiledd cludiant cyhoeddus, bws a thrên
- Sefydlu mesurau rheoli traffig ac amgylcheddol
- Gwella cyfleusterau beicio
- Gweithredu cynlluniau cerdded
- Cynnal cynlluniau diogelwch ar y ffordd

A541 Gwelliant Gwersyllt

4.161. Bydd y cynigion presennol i ddeuoli'r A541 o Stansty i Park Wall, yn darparu trogylch ar gyffordd y Wheatsheaf a ffordd fynediad ar wahân i Eglwys y Drindod a'r eiddo adwerthu a masnachol ar hen safle Glofa Westminster. Derbyniodd y cynllun ganiatâd cynllunio ym mis Medi 1995 ac ni fu arian ar gael i weithio ar y cynllun ers hynny. Y bwriad yw cynnal adolygiad o'r cynllun hwn fel rhan o'r astudiaeth a ddisgrifiwyd yn Adran 4.158.

Cynlluniau Eraill

4.162. Caiff y cynlluniau eraill sydd yn y Strategaeth Ffyrdd eu rhestru isod, gyda mwy o fanylion i'w cael yn y Strategaeth Ffyrdd yng Nghyfrol 2.

- A5152 – Cyffordd Ffordd y Dŵr / Ffordd Bradle
- A525 – Heibiad Coedpoeth a Bwlchgwyn
- A525 - Raggs Hill, i'r dwyrain o Fangor is y Coed
- A541 – Cyffordd Stryt y Rhaglaw / Ffordd Bradle
- Ffordd Plas Bennion, Rhiwabon
- Ffordd Pentrebychan – Smithy Lane i'r Amlosgfa
- Stryt Las, Rhosllannerchrugog
- A525 - Wrecsam i Whitchurch
- A534 - Wrecsam i Holt

Ffyrdd Eraill

4.163. Efallai y bydd cynlluniau i'w cynnwys yn y rhaglen gwella ffyrdd yn dod i'r amlwg yn ystod cyfnod y cynllun hwn. Gall y rhain ddeillio o gynigion datblygu eraill ac ystadegau damweiniau. Gall gwelliannau hefyd gael eu dynodi i roi mynediad i gymunedau yn unol â pholisi'r Cyngor ar Gynhwysiad Cymdeithasol. Bydd yr adnoddau sydd ar gael at gloriannu cynlluniau newydd, a gweithio ar y rhai sydd eisoes wedi eu cynnwys yn y Cynllun, yn dibynnu ar ddarganfod ffynonellau newydd o arian ac ar bolisi'r Cynulliad Cenedlaethol o ran cymhwyster ar gyfer Grant Cludiant.

Mân Welliannau hyd at £25,000

4.164. Ar hyn o bryd mae 160 o gynlluniau ar restr y mân welliannau. Yr aelodau sy'n dynodi'r cynlluniau hyn trwy ymgynghoriad gyda'r trigolion lleol. Pan fydd arian ar gael, caiff blaenoriaeth ei roi i'r safleoedd hynny lle bydd damweiniau neu broblemau traffig a lle bydd tir ar gael eisoes.

Gwelliannau i Gyffyrdd – Safleoedd Clystyrau Damweiniau

4.165. Caiff gwelliannau i gyffyrdd flaenoriaeth yn ôl eu hanes damweiniau. Mae'r Adran ar Ddiogelwch ar y Ffordd yn dangos y rhestr o Safleoedd Clystyrau Damweiniau sy'n ymddangos yng Nghynllun Diogelwch ar y Ffordd y Cyngor. Caiff y safleoedd hyn eu trefnu yn ôl nifer damweiniau anaf personol yn y safle dros gyfnod treigl o dair blynedd. Os bydd arian ar gael, bydd cynlluniau'n cael eu trefnu trwy ddefnyddio dadansoddiad cost-buddion i ganfod y cynlluniau mwyaf effeithiol.

Diogelwch ar y Ffordd a Chynlluniau Diogelwch Lleol

Polisi S1	Gweithio ar, a hybu, "Gweithrediadau" y Cynllun Diogelwch ar y Ffordd.
Polisi S2	Cyhoeddi adroddiad ac ystadegau blynyddol ar Ddiogelwch ar y Ffordd.
Polisi S3	Amlygu lleoliad clystyrau o ddamweiniau a dylunio mesurau adferol.
Polisi S4	Gweithio ar fesurau adferol rhag damweiniau yn ôl rhaglen o flaenoriaethau.

Problemau

4.166. Damweiniau ar y ffyrdd yw un o brif achosion marwolaethau cynamserol yn y Fwrdeistref Sirol. Yr amcangyfrif yw fod costau economaidd dioddefwyr damweiniau ar ffyrdd Wrecsam yn £31 miliwn.



4.167. I ostwng damweiniau ar y ffyrdd, rhaid gwneud safiad gweithredol ac ymatebol. Rhaid wynebu'r rhesymau sy'n peri i ddefnyddwyr y ffordd gael damweiniau a rhaid cynnal mesurau ataliol parhaol hefyd, i geisio gostwng nifer y damweiniau ymysg pawb sy'n defnyddio'r ffyrdd.

4.168. Mae'n amlwg fod cyfanswm y clwyfedigion yn y Fwrdeistref Sirol ymhell uwchlaw'r targed a osododd y DETR i ostwng traean erbyn y flwyddyn 2000. Mae cyfanswm y clwyfedigion dros Gymru hefyd uwchlaw targed 2000, er nad yw'r cynnydd cymharol mor uchel â'r un a welwyd yn y Fwrdeistref Sirol. Erbyn hyn, gosodwyd targedau newydd ar gyfer y deng mlynedd nesaf, a bydd y Cyngor yn ceisio cyrraedd y rhain.



4.169. Mae angen i atebion peirianyddol, fel gostegu traffig a datblygu llwybrau beicio, fynd law yn llaw gydag addysg, hyfforddiant a chyhoeddusrwydd priodol ac mae angen cefnogaeth yr heddlu, yn arbennig o ran gorfodi deddfau traffig. Dim ond yn gorfforedig y bydd modd ateb yr her hon a chyda chefnogaeth y gymuned leol.

4.170. Mae'n fuddiol rhannu syniadau a chyfuno arian diogelwch ar y ffordd gydag awdurdodau eraill yng Nghymru. Mae noddwyr wedi caniatáu digwyddiadau mawr fel nawdd cenedlaethol Vauxhall o *Megadrive* Cymru, rhaglen o hyfforddiant cyn gyrru ar gyfer pobl ifanc 16 ac 17 oed, i hyrwyddo dysgu a newid agweddau hirdymor.

Strategaethau

4.171. Ym mis Mawrth 2000, cyhoeddodd y Llywodraeth strategaeth diogelwch ar y ffordd a thargedau gostwng clwyfedigion ar gyfer 2010, "Ffyrdd Yfory– Mwy Diogel i Bawb". Erbyn 2010, y nod sydd i'w gyrraedd, mewn cymhariaeth gyda'r cyfartaledd dros 1994-1998, yw gostyngiad o;

- 40% yn nifer y bobl sy'n cael eu lladd neu eu hanafu'n ddifrifol mewn damweiniau ffordd
- 50% yn nifer y plant sy'n cael eu lladd neu eu hanafu'n ddifrifol
- 10% yng nghyfradd mân anafiadau, yn cael ei fynegi fel nifer y bobl sy'n dioddef mân anafiadau fesul 100 miliwn cilomedr cerbyd.

4.172. Datblygwyd y Cynllun Diogelwch ar y Ffordd 1999-2002, sydd i'w weld yng Nghyfrol 2, fel arweiniad corfforedig yn cynnwys holl gyfarwyddiaethau'r Cyngor a Heddlu Gogledd Cymru. Mae wedi dynodi'r gweithredoedd gofynnol i wella diogelwch ar y ffordd a gostwng damweiniau yn y Fwrdeistref Sirol. Sail y Cynllun Diogelwch ar y Ffordd yw'r syniad o "GAPA";

- Gorfodi,
- Addysg,
- Peirianneg,
- Annog.

4.173. Ar gyfer pob gweithgaredd mae rhestr benodol o weithrediadau sydd i'w gwneud. Bydd cadw golwg a chloriannu yn digwydd i sicrhau fod digon o waith yn cael ei wneud.

4.174. Yn cael eu rhestru isod mae'r 23 o weithrediadau sydd wedi eu dynodi;

	Gweithred
1	Cyhoeddi adroddiad blynyddol ar y cynllun diogelwch ar y ffordd, yn cynnwys cadw golwg, y gweithrediadau a wnaed a gosod targedau newydd
2	Cynhyrchu ystadegau damweiniau blynyddol a hysbysu'r canlyniadau
3	Cefnogi, trefnu neu hyrwyddo ymgyrchoedd cyhoeddusrwydd
4	Arddangos posteri a thaflenni ymgyrchoedd diogelwch ar y ffordd
5	Cynnwys cyhoeddusrwydd diogelwch ar y ffordd mewn cyhoeddiadau, llythyrau ac arwyddion
6	Pob cais am wybodaeth a deunydd i'w ateb neu ei gyfeirio i arbenigwr
7	Deunydd diogelwch ar y ffordd i'w roi, neu ei fenthyg, i rieni, gofalwyr plant a grwpiau Brownies, Cybiau a Scowtiaid
8	Paratoi enghraifft o bolisi diogelwch ar y ffordd ar gyfer ysgolion a'i anfon i bob ysgol
9	Ysgolion i fabwysiadu polisi diogelwch ar y ffordd
10	Mwy o hyfforddiant beicio i blant
11	Parhau i gynnal cwrs hyfforddi Megadrive, os bydd arian ar gael
12	Ystyried hyfforddiant gyrru cerbydau ar gyfer Gweithwyr y Cyngor sy'n gyrru cerbydau wrth eu gwaith
13	Amlygu safleoedd clystyrau damweiniau, dylunio mesurau adferol, gweithredu mesurau a chadw golwg arnynt
14	Amlygu safleoedd lle bu damweiniau diweddar a gwneud gwaith adferol
15	Ceisio barn Heddlu Gogledd Cymru cyn gwneud newidiadau i'r rhwydwaith ffyrdd presennol
16	Ystyried y goblygiadau damweiniau tebygol pan yn trefnu a darparu gwaith cynnal ffyrdd
17	Cynnal archwiliadau diogelwch ar bob cynllun ffordd o faint
18	Gorfodi deddfau traffig yn unol â Chynllun Cynnal Gweithrediadau Traffig Heddlu Gogledd Cymru
19	Gorfodi deddfau i sicrhau fod y ffyrdd yn rhydd o atalfeydd a pheryglon
20	Gorfodi deddfau ar orlwytho cerbydau a gwerthu cerbydau anaddas i'w gyrru ar y ffordd ac offer diogelwch ar y ffordd
21	Defnyddio'r ffyrdd mewn dull diogel bob amser ac annog eraill i wneud hynny
22	Bydd y Cyngor yn cyfarwyddo gweithwyr i beidio defnyddio ffonau symudol na siarad ar y radio pan yn gyrru
23	Ystyriaeth i'w roi i ddarparu arian at gyllidebau diogelwch ar y ffordd ac archwilio damweiniau

4.175. Ni fydd y gweithrediadau yn llwyddo heb bartneriaeth. Mae dyletswydd statudol ar y Cyngor i hyrwyddo diogelwch ar y ffordd, ac mae llwyddiant y Cynllun yn dibynnu ar holl Gyfarwyddiaethau'r Cyngor, Heddlu Gogledd Cymru a gwahanol grwpiau cymunedol yn gweithio fel partneriaid. Bydd partneriaid yn cydweithio i gyrraedd y nod cyflawn o leihau nifer y damweiniau ar ffyrdd y Fwrdeistref Sirol yn sylweddol.

4.176. Mae'r Cyngor yn aelod o RoSCoW, Cyngor Diogelwch ar y Ffordd Cymru, sy'n cynnwys holl awdurdodau lleol Cymru a Chynulliad Cenedlaethol Cymru gydag ysgrifenyddiaeth lawn-amser yng Nghaerdydd. Mae RoSCoW yn cyd-drefnu addysg, hyfforddiant a gweithgareddau cyhoeddusrwydd diogelwch ar y ffordd yng Nghymru ac mae'n arbennig o ddefnyddiol o ran cynhyrchu deunydd dwyieithog, trefnu ymgyrchoedd a chynadleddau dros Gymru gyfan a dod â swyddogion diogelwch ar y ffordd at ei gilydd i rannu a chyfuno syniadau ac adnoddau.

4.177. Mae'r Cyngor yn aelod o Grŵp Diogelwch ar y Ffordd Gogledd Cymru, yn cynnwys 6 awdurdod lleol Gogledd Cymru a Heddlu Gogledd Cymru, sy'n trefnu ymgyrchoedd lleol a rhannu adnoddau, gan gynnwys uned arddangos symudol sy'n cael ei defnyddio'n helaeth ar gyfer digwyddiadau, arddangosfeydd ac eisteddfodau.

Cynlluniau Diogelwch Lleol

4.178. Mae oddeutu 14% o ddamweiniau yn digwydd mewn "safleoedd clystyrau damweiniau". Mae modd archwilio manylion pob safle glwstwr i amlygu achosion cyffredin o ddamweiniau ac mewn llawer achos mae modd dod o hyd i fesurau adfer rhad, gyda'r math o fesur sy'n cael ei ddarparu yn dibynnu ar achosion y ddamwain. Mae mesurau fel codi arwyddion rhybuddio, gwella wyneby ffordd, marciau ffordd a newidiadau i'r lôn gerbyd, i gyd yn welliannau cost-effeithiol ar gyfer mannau o'r fath.

4.179. Bydd safleoedd clystyrau damweiniau yn cael eu dynodi, a phan fydd arian ar gael, caiff y gwaith ei wneud. Ar gyfartaledd, cafwyd cyfradd adennill ryfeddol yn y flwyddyn gyntaf o fwy na 550% ar gynlluniau gweithredu a fesurwyd hyd yn hyn. Mewn rhai mannau, gall damweiniau ddigwydd oherwydd newidiadau mewn amodau ar y ffordd fel arwyddion coll, gwrychoedd wedi gordyfu neu wynebau ffyrdd sydd wedi heneiddio. Tua chwe gwaith y flwyddyn mae damweiniau yn cael eu dadansoddi i amlygu safleoedd sydd â graddfa anarferol uchel o ddamweiniau a chaiff y safleoedd eu trafod mewn cyfarfodydd gyda Heddlu Gogledd Cymru. Pan yn briodol, caiff gwaith adfer ei wneud.

4.180. Gan ddefnyddio targedau newydd y Llywodraeth, nid oedd modd canfod y gostyngiadau'n fathemategol am fod y niferoedd yn fach iawn. Felly, archwiliwyd y Fwrdeistref Sirol am ddamweiniau mewn ardal gyfan neu ar sail llwybr cyfan. Dynodwyd y safleoedd canlynol i'w harchwilio ymhellach;

- First Avenue / Wheatsheaf Lane, Gwersyllt
- Ffordd Brynhyfryd, Gwersyllt – ger ei chyffordd gyda Rogers Lane
- Ffordd Montgomery, Wrecsam
- Ffordd Llannerch, Afoneitha
- A525, Heol Maelor, Coedpoeth

Datblygiad

4.181. Yn ystod y ddwy flynedd diwethaf, mynychodd 384 o fyfyrwyr "*Megadrive*". Mae uchafswm o 200 o leoedd ar gael bob blwyddyn ac mae disgwyl i'r un faint ohonynt gael eu defnyddio yn 2000.

4.182. Ymwelodd Rhaglen Addysg Gyrwyr Ifanc â 4 ysgol uwchradd rhwng Ionawr a Mawrth 2000. Caiff myfyrwyr chweched dosbarth y cyfle i weld drama ddeifiol yn erbyn goryrru a, hyd yn hyn, cyflwynwyd cwrs Dwyn a Gyrru Ceir i 13 o droseddwyr ifanc a 50 o bobl ifanc eraill.

4.183. Mae cefnogaeth barhaol i ymgyrchoedd cyhoeddusrwydd, pa un ai'n lleol, yn rhanbarthol neu'n genedlaethol. Mae'r rhain yn cynnwys goryrru, yfed a gyrru, gwregysau diogelwch, gweledd a Cherdded i'r Ysgol.

4.184. Cyrhaeddwyd y targed clwyfedigion blaenorol (traean yn llai o glwyfedigion erbyn y flwyddyn 2000 i'w gymharu â'r cyfartaledd rhwng 1981 a 1985) o ran y bobl a laddwyd neu a anafwyd yn ddifrifol. Fodd bynnag, roedd nifer y clwyfedigion gyda mân anafiadau gryn dipyn uwchlaw'r targed.

4.185. Wrth geisio cyrraedd targed y llywodraeth, dynodwyd 32 o safleoedd clwstwr "man drwg" ac, o'r rhain, bydd 26 o gynlluniau wedi cael eu gweithredu neu'n cael eu gweithredu yn y dyfodol agos. Ariannwyd y rhain yn bennaf o amrywiol ffynonellau allanol.

4.186. Derbyniwyd cymorth Grant o Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar gyfer Cynlluniau Diogelwch Lleol yn 1999-2000 i dargedu safleoedd yn benodol lle'r oedd damweiniau yn cynnwys defnyddwyr ffyrdd "bregus" (cerddwyr a beicwyr). Dynodwyd 7 o safleoedd a gweithredwyd mesurau adferol.

Safleoedd Clystyrau Damweiniau - Damweiniau Anaf 01/97 – 12/99

Lleoliad	***Nifer***	***Nodiadau***
Trogylch Y Groesffordd - ffyrdd dynesu	39	Goleuadau traffig newydd yn cael eu cynnig fel rhan o Welliant Mynedfa'r Stad Ddiwydiannol
A541 Trogylch Ffordd yr Wyddgrug / Ffordd Stansty Chain / Hen Ffordd yr Wyddgrug, Gwersyllt	20	Newidiadau i'r lôn gerbyd a'r gyffordd i'w gwneud yn Haf 2000
Trogylch Ffordd yr Wyddgrug - ffyrdd dynesu	20	Goleuadau llawn-amser ers mis Mawrth 1998 (dros 3 blynedd, 11 damwain cyn, 9 wedyn)
A534 Ffordd Holt / Hugmore Lane	13	Goleuadau traffig newydd ers mis Mai 1998 (dros 3 blynedd, 7 damwain cyn, 6 wedyn)
A541 Stryt y Rhaglaw / Ffordd Bradle / Ffordd Grosvenor	13	Cyffordd newydd yn cael ei hystyried
A5152 Ffordd Grosvenor - trogylch a ffyrdd dynesu	11	Newidiwyd y trogylch yn Ionawr 1999 (dros 3 blynedd, 9 damwain cyn, 2 wedyn)
A525 Ffordd Rhuthun/ A483 ffyrdd ymadael	10	
B5445 / The Beeches, Y Groesffordd	9	Addaswyd y marciau ffordd Haf 2000
A525 Ffordd Rhuthun, Ffordd Croesnewydd	8	
B5425 Ffordd Newydd / Lôn T◊ Gwyn	7	Newid marciau ffordd Haf 2000
A534 Ffordd Holt - trogylch a ffyrdd dynesu	7	Trogylch newydd yng Ngwanwyn 2000 (ail ddatblygiad Tesco)
A483 / A5, Cyffordd Halton	7	Gosodwyd wyneb gwrth-lithro a *chevrons* newydd
B5425 Ffordd Rhosddu / Ffordd Newydd / Ffordd Stansty	6	Addasiad o'r gyffordd yn cael ei gynnig fel rhan o ddatblygiad newydd
A495 Bronington	6	I'w ail-wynebu Haf 2000
A525 Ffordd Kingsmills	6	Addaswyd y lôn gerbyd a'r sebra yn Ionawr 1999. (dros 3 blynedd, 5 damwain cyn, 1 wedyn)
A5152 Ffordd Bradle / A525 Ffordd Rhuthun	6	Wyneb gwrth-lithro ger y sebra Mawrth 1999 (dros 3 blynedd, 4 damwain cyn, 2 wedyn)
A541 Ffordd Yr Wyddgrug / Stryt yr Hôb / Lôn Wheatsheaf	6	Cyffordd i'w haddasu fel rhan o ddatblygiad adwerthu
B5100 Lôn Rhosnesni / Ffordd Borras	5	Trogylch newydd yn Rhagfyr 1998. (dros 3 blynedd, 5 damwain cyn, 0 wedyn)
A525 Ffordd Rhuthun / Safle Sipsiwn	6	Haen arwyneb newydd i'w osod yn Haf 2000
B5445 Ffordd Caer / Lôn Pikey, Y Groesffordd	5	
B5100 Ffordd y Tylwyth Teg / Ffordd Sonlli	5	
A539 Ffordd Llangollen/Ffordd Plas Bennion	5	
A528 / B5426, Eutun	5	
A5152 Ffordd Wrecsam / Stad Ddiwydiannol, Rhostyllen	5	
A525 Gallt Bryn y Grog, Marchwiel	5	Arwyneb newydd yn Haf 1999. (dros 3 blynedd, 5 damwain cyn, 0 wedyn)
B5425 Ffordd Newydd / Ffordd Osborne		Wyneb gwrth-lithro Mawrth 1999. (dros 3 blynedd, 5 damwain cyn, 0 wedyn)
A541 Ffordd Yr Wyddgrug / Lôn Crispin	5	3 ar ôl symud Coleg Iâl
A5152 Ffordd Victoria, Rhiwabon	5	
B5445 Ffordd Caer, Y Groesffordd	5	
A525 – B5430 Four Crosses, Bwlchgwyn	5	

D.S. Dewiswyd y safleoedd uchod ar sail o leiaf 5 damwain anaf mewn tair blynedd

Gostegu Traffig

Polisi TC1	Gosod mesurau gostegu traffig a pharthau 20mya fel rhan o arweiniadau teithio i'r ysgol.
Polisi TC2	Gosod mesurau gostegu traffig mewn cylchoedd sy'n dioddef yn ddrwg o draffig ar lwybrau tarw.
Polisi TC3	Sefydlu parthau 20mya mewn cylchoedd preswyl pan yn briodol.

Strategaeth

4.187. Trwy hybu defnyddio mathau eraill o gludiant, mae Strategaeth Cludiant Cyfun a Chynllun Cludiant Lleol y Fwrdeistref Sirol yn ceisio cyfyngu ar dwf traffig. Mae angen sicrhau, fodd bynnag, fod mathau eraill o gludiant yn ddiogel. Cerddwyr, beicwyr a phobl gydag anawsterau symud yw defnyddwyr mwyaf bregus y ffyrdd ac mae angen creu cynlluniau fydd yn diogelu'r defnyddwyr hyn.

4.188. Gostegu Traffig yw creu mesurau i wella amodau diogelwch ac amgylcheddol ar ffyrdd. Gall y mesurau gwmpasu nifer o dechnegau gwahanol, gan gynnwys;

- twmpathau ffordd
- culhau'r lôn gerbyd
- *chicanes* gyda pharcio cysgodol
- triniaethau porth ar ddechrau newid terfyn cyflymder
- llochesau cerddwyr
- arwyneb lliw
- cylchfannau mini

4.189. Fel rhan o arweiniad teithiau mwy diogel i'r ysgol, bydd nifer o gynlluniau gostegu traffig yn cael eu sefydlu gerllaw ysgolion. Gall dadansoddi damweiniau hefyd helpu i osod mesurau o'r fath, gan amlygu lleoliad a mathau o ddamweiniau mynych. Yna bydd modd gosod mesurau yn y mannau hyn i leihau digwyddiadau felly.



Porth Pentref wedi ei ariannu gan Gyngor Cymuned Y Groesffordd

Datblygiad

4.190. Sefydlodd yr awdurdod priffyrdd blaenorol gynllun gostegu traffig mawr a pharth 20mya yn ardal Parc Caia o Wrecsam oedd yn dioddef cyfradd uchel o ddamweiniau ymysg plant ifanc. Bu'r canlyniadau yn syfrdanol gyda chyflymder rhwng 19 a 27mya ar gyfartaledd cyn sefydlu'r cynllun a rhwng 12 a 21 mya wedyn, a gwelwyd y gyfradd ddamweiniau yn gostwng i lai na'r hanner. Gwelliant arall, oedd yn fwy na'r disgwyl, oedd gostyngiad mawr yn nifer y CNTau oedd yn ei ddefnyddio fel llwybr tarw i'r Stad Ddiwydiannol.

4.191. Mae'r Cyngor wedi sefydlu 16 porth mewn mannau lle bydd terfynau cyflymder is yn dechrau. Mabwysiadwyd dyluniad safonol yn defnyddio arwyneb coch, arwyddion terfyn cyflymder gyda bwrdd melyn tu cefn, croeslinellu, marciau ffordd dannedd y ddraig arbennig a lloches ganol pan fydd y ffordd yn ddigon llydan. Talwyd yn llawn am y rhan fwyaf o'r safleoedd hyn gan y Cyngor Cymuned.

4.192. Enghreifftiau eraill o waith gostegu traffig diweddar yw;

- Box Lane – twmpathau a mannau cul, llwybr beicio tu allan i'r ysgol
- Ffordd Caer ger Smithy Lane – llochesau cerddwyr, lonydd beicio, mannau cul
- Lôn Rhosnesni / Rhodfa'r Parc– trogylch cyfandirol (wedi ei lunio i arafu traffig) a llochesau cerddwyr.
- Cynllun cynhwysfawr yn ardal siopa Rhosllannerchrugog yn cynnwys mannau cul, twmpathau a chyfyngiadau ar draffig

4.193. Caiff holl stadau preswyl newydd eu dylunio gyda gostegu traffig fel rhan annatod o'r cynllun. Gall hyn gynnwys nodweddion ffisegol fel y disgrifiwyd uchod neu droadau sydyn i gadw cyflymder yn isel.

4.194. Caiff y defnydd o barthau 20mya ei gefnogi ond, hyd yma, dim ond un cynllun sydd wedi ei osod oherwydd y ddeddfwriaeth gymhleth a'r gofyn bod mesurau ffisegol yn eu lle i gadw cyflymder ar, neu islaw'r, terfyn.

Gostegu Traffig ar Ffordd Parc Borras

Tacsis a Cherbydau Llogi Preifat

Polisi TX1	Cydnabod y rhan y gall tacsis a cherbydau llogi preifat chwarae yn y gyfundrefn gludiant.
Polisi TX2	Ystyried anghenion tacsis a cherbydau llogi preifat yn unrhyw gynllun rheoli traffig neu welliant yng nghanol y dref.

4.195. Mae tacsis a cherbydau llogi preifat yn bwysig iawn, yn enwedig wrth ddarparu cludiant ysgol, un ai ar y cyd â gwasanaethau bws neu'n annibynnol.

4.196. Mae angen cydnabod rhan tacsis a cherbydau llogi preifat yn llawn. Yng nghefn gwlad denau ei phoblogaeth, yn enwedig, gallant lenwi bylchau yng nghyfundrefn cludiant cyhoeddus ar lwybrau na fyddai fyth yn talu gyda gwasanaeth bws confensiynol ac ar adegau pan nad yw cludiant cyhoeddus yn rhedeg. Hefyd, gall tacsis a cherbydau llogi preifat ffurfio rhan o arweiniadau cludiant cymunedol lle gall rhannu tacsis fod yn ddewis cost-effeithiol yn aml. Er mwyn ateb anghenion teithwyr gydag anawsterau symud, bydd defnyddio cerbydau hygyrch yn cael ei hybu.

Cerbydau Dwy Olwyn Gyredig

Polisi PTW1	Ystyried anghenion defnyddwyr cerbydau dwy olwyn gyredig wrth ddylunio a gwella isadeiledd ffyrdd trwy drefniannau archwilio ac adolygu diogelwch.
Polisi PTW2	Darparu cyfleusterau parcio diogel ar gyfer defnyddwyr cerbydau dwy olwyn gyredig ynghanol y dref ac mewn cyfnewidfeydd.

4.197. Gall cerbydau dwy olwyn gyredig, h.y. mopedau, sgwteri, beiciau modur mawr ac ysgafn, fod yn ddull arall o symud yn lle'r car preifat. Mae allyriadau Deuocsid Carbon o gerbydau dwy olwyn gyredig yn sylweddol is na'r rhai o geir, gan roi buddion amgylcheddol os bydd y defnyddwyr wedi newid o'r car preifat. Fodd bynnag, os caiff cerbydau dwy olwyn gyredig eu defnyddio yn lle beicio, cerdded neu gludiant cyhoeddus maent yn llai derbyniol ac yn is yn hierarchaeth amgylchedd gynaliadwy.

Diogelwch

4.198. Mae diogelwch yn fater pwysig i ddefnyddwyr cerbydau dwy olwyn gyredig. Mae Grwpiau Beic Modur yn datgan fod cyfran uchel o glwyfedigion beicio modur i'w briodoli i yrwyr eraill yn peidio ystyried eu hanghenion. Mewn ymateb i hyn mae Adran yr Amgylchedd, Cludiant a'r Rhanbarthau yn ychwanegu cwestiynau i ran theori'r prawf gyrru i wella ymwybyddiaeth o ddefnyddwyr bregus y ffyrdd. Yn gadarnhaol, fodd bynnag, ers 1998 mae gwerthiant cerbydau dwy olwyn gyredig yn y DU wedi codi 19% gyda chyfanswm y clwyfedigion i lawr 49%. Mae cerbydau dwy olwyn gyredig yn cyfrif am 4.5% o holl werthiant cerbydau newydd.

4.199. Mae cyfradd ddamweiniau uchel beiciau modur mawr yn cael eu gyrru'n gyflym yn peri pryder arbennig. Mae'r mater hwn yn cael ei drin fel rhan o ymgyrch gynhwysfawr dros ddiogelwch ar y ffordd gan Grŵp Diogelwch ar y Ffordd Gogledd Cymru (h.y. Heddlu Gogledd Cymru a 6 Awdurdod Lleol Gogledd Cymru).

4.200. Mae materion Cynnal a Chadw yn bwysig iawn hefyd i gerbydau dwy olwyn gyredig. Gall ffyrdd sydd heb eu cynnal yn dda fod yn beryglus iawn i ddefnyddwyr ac mae rhychau, sy'n cael ei achosi gan CNTau, a hindreulio yn gallu creu wyneb sy'n beryglus i gerbydau dwy olwyn gyredig.

4.201. Bydd trefniannau archwilio ac adolygu diogelwch yn rhoi'r fframwaith at wella diogelwch cerbydau dwy olwyn gyredig. Caiff archwiliadau diogelwch eu cynnal ar bob cynllun newydd a chaiff trefniannau adolygu eu sefydlu ar yr holl ffyrdd presennol. Bydd archwiliadau ac adolygiadau yn edrych ar faterion perthynol i ddylunio cyffyrdd, lled lonydd, marciau ffordd, draenio, mynediad, parcio a dodrefn stryd.

Parcio

4.202. Ar hyn o bryd, ychydig o feysydd parcio'r Fwrdeistref Sirol sydd â mannau parcio wedi eu dynodi ar wahân ar gyfer cerbydau dwy olwyn gyredig. Byddai poblogrwydd y beic modur, felly, yn cyfiawnhau gwneud peth darpariaeth ychwanegol. Byddai hyn o fudd i feicwyr modur fyddai'n cael mannau penodol i barcio ynddynt a hefyd yn peri bod lleoedd parcio ceir yn cael eu defnyddio'n fwy effeithlon. Mae'n bwysig, fodd bynnag, fod y parcio'n ddiogel, gan fod lladrad beiciau modur yn bryder i ddefnyddwyr yn aml. Yn 1998 cafodd 25,000 eu dwyn ac mae ystadegau'r Heddlu yn dangos mai dim ond 14% o beiriannau sy'n cael eu hadennill ar gyfartaledd, i'w gymharu â 60% o geir. Felly dylid diogelu'r maes parcio a dylai parcio diogel fod ar gael hefyd mewn mannau fel gorsafoedd bws a thrên i hyrwyddo cyfnewid haws.

Cynnal Ffyrdd a Phontydd

Polisi RM1	Cydnabod fod cynnal a chadw yn hanfodol er mwyn gwarchod y rhwydwaith presennol.
Polisi RM2	Cynnal archwiliadau ac arolygon ar ffyrdd a phalmentydd yn rheolaidd.
Polisi RM3	Gweithredu polisïau'r Strategaeth Bontydd.

Strategaeth

4.203. Cyfarwyddyd Fforwm Economaidd Gogledd Cymru yw y dylai'r Cyngor;

"Ddod â'r rhwydwaith ffyrdd strategol i safon dderbyniol",
"Cynnal y rhwydwaith ffyrdd i sicrhau safon briodol o wasanaeth a gwella cysylltiadau i safleoedd datblygu ac atyniadau ymwelwyr"

4.204. Mae'r Cyngor wedi cyhoeddi Strategaeth Bontydd sydd i'w gweld yng Nghyfrol 2. Cyhoeddwyd Strategaeth Gynnal hefyd.

4.205. Mae'r Cyngor yn cydnabod fod cynnal yn hanfodol er mwyn cadw'r rhwydwaith presennol a bod yr ased hollbwysig hwn yn cael ei gadw i'r safon. Gall pontydd, ffyrdd a phalmentydd sydd wedi eu cynnal yn wael fod yn rhwystr i ddefnyddwyr, yn enwedig i'r cerddwyr a'r beicwyr y ceisiwn eu hannog. Mae'n arwain at gynnydd mewn hawliadau yswiriant a gall cyfyngiadau pwysau neu gau pontydd olygu bod mwy o deithio, yn aml ar ffyrdd anaddas.

Traphont Dôl Eryrod
sydd angen gwaith cynnal ar y cynalyddion

Ystadegau

4.206. Mae rhwydwaith priffyrdd Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn cynnwys;

- Cefnffyrdd 31km
- Prif Ffyrdd 101km(yn cynnwys 18km o Brif Ffordd heb fod yn Gefnffordd)
- Ffyrdd Eraill 1003km
- Hawliau Tramwy Cyhoeddus 860km (gweler Adran 4.39 Cerdded)
- Pontydd / Cylfatiau 467 (cyfrifoldeb ar y cyd am 119)

4.207. Y Cynulliad Cenedlaethol sy'n gyfrifol am y rhwydwaith cefnffyrdd sy'n cynnwys yr A483 a'r A5, a'r Cynulliad sy'n eu hariannu'n llawn. Fel partner yn Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd-ddwyrain Cymru, mae Wrecsam yn trefnu ac yn goruchwylio gwaith cynnal a chadw'r cefnffyrdd yn ei ardal. Y Cyngor sy'n gyfrifol am gynnal a chadw holl ffyrdd mabwysiedig eraill a'r rhan fwyaf o bontydd. Mae rhai pontydd sy'n cludo ffyrdd yn gyfrifoldeb ar y cyd gyda *Railtrack*, Bwrdd Eiddo'r Rheilffyrdd Prydeinig, *British Waterways* ac eraill.

Problemau

4.208. Bu diffyg cyllid yn broblem am flynyddoedd ac mae wedi arwain at ôl-groniad sylweddol o waith sydd angen ei wneud. Cynhaliwyd arolygon sampl ar fywyd gweddilliol y prif ffyrdd sy'n dangos;

44% - dim bywyd gweddilliol
23% - llai na 4 blynedd o fywyd gweddilliol

4.209. Oherwydd anawsterau ariannol dim ond 3.7km o'r prif ffyrdd a gafodd eu hail wynebu rhwng Ebrill 1996 a Mawrth 2000. Os yw'r ffigurau bywyd gweddilliol hyn yn nodweddiadol o'r rhwydwaith, fe all fod bron i 70km o brif ffyrdd gyda llai na 4 blynedd o fywyd gweddilliol.

4.210. Mae ffyrdd eraill wedi cael archwiliadau gweledol sy'n dangos fod 48% yn dioddef o namau mawr (gydag o leiaf 25% o glytio ei angen cyn ail wynebu). Dangosydd Cyflawniad P2c y Comisiwn Archwiliadau yw "ffyrdd lle dylid ystyried atgyfnerthu" oedd yn 44% o ffyrdd y Fwrdeistref yn 1999/2000.

Lôn gerbyd mewn cyflwr gwael

4.211. Yr amcangyfrif yw fod gwerth pontydd y Fwrdeistref Sirol dros £30m. Ymarferiad gorau presennol yw buddsoddiad blynyddol o 1% i gynnal yr ased ond, ers 1996, dim ond 0.2% fu'r buddsoddiad, gan adael ôl-groniad o tua £1m, yn ogystal â'r ôl-groniad sylweddol cyn 1996 a gwaith sydd ei angen ar gloddiau cynnal a chylfatiau.

4.212. Gyda'r diffyg arian at gynnal priffyrdd a phontydd byddant yn parhau i ddirywio a bydd gwaith yn cael ei wneud yn unig pan fydd argyfwng yn codi.

5. Cyflawniad

5.1. Mae'r adran hon yn rhoi ENGHREIFFTIAU o gyflawniad ers 1996 ond nid yw'n rhestr gynhwysfawr. Ariannwyd y mwyafrif o'r cynlluniau hyn trwy'r Grant Cludiant, o Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Lle cafwyd arian o ffynonellau ychwanegol, caiff hyn ei ddangos yn y tabl.

Cynllun	Amcan	Partneriaeth
Cludiant Cyhoeddus		
Ail ddatblygu ac ailwampio gorsafoedd trên	Gwelliannau i orsafoedd trên presennol gan gynnwys Gorsaf Wrecsam Cyffredinol, Gorsaf Rhiwabon, Gorsaf y Waun a Gorsaf Gwersyllt.	
Adeiladu gorsaf drenau newydd	Adeiladu Gorsaf Ganolog newydd yng nghanol tref Wrecsam fel rhan o Ddatblygiad Y Werddon.	Ariannwyd gan y datblygwr
Llochesau bws newydd	Darparu llochesau bws newydd mewn mannau Strategol ar y rhwydwaith cludiant cyhoeddus.	Rhoes *Adshel* lochesau, darparwyd rhai llochesau newydd gydag arian cais pecyn.
Mesurau Partneriaeth o Safon	Gwella ansawdd gwasanaeth	Cwmni bysiau ar y cyd â chais pecyn
Cerdded / Beicio / Llwybrau Diogel i'r Ysgol.		
Rhwydwaith beicio canol y dref	Darparu rhwydwaith o lwybrau beicio gydag arwyddion newydd yn, ac o amgylch, canol tref Wrecsam.	
Croesfannau toucan	Darparu dull diogel o groesi ffordd gylch fewnol canol y dref fel rhan o gryn ail lunio cyffyrdd a darparu cyfleusterau beicio newydd.	Ymddiriedolaeth G.I.G. yn rhan ariannu ar y cyd â chais pecyn.
Llwybr beicio trwodd	Darparu llwybr beicio trwodd o Ganol Tref Wrecsam i Riwabon drwy Stad Parc Erthig.	Cytundeb i arwyddo llwybr beicio trwy stad yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol.
Llwybr beicio oddi ar y briffordd	Darparu llwybr beicio diogel oddi ar y briffordd yn osgoi cyffordd brysur yng nghanol y dref	Cytundeb gyda Gwasanaethau Addysg a Hamdden i ddefnyddio rhan o'u tir.
Cyfleusterau beicio newydd	Adeiladu llwybrau beicio newydd i gysylltu ardal breswyl fawr Parc Caia i rwydwaith beicio Wrecsam.	'*Groundwork'* Wrecsam yn helpu gyda dylunio ac adeiladu'r llwybr.
Cyfleusterau beicio hamdden newydd	Adeiladu llwybrau hamdden newydd ym Mharc Gwledig Dyfroedd Alun.	'*Groundwork'* Wrecsam yn helpu gyda dylunio ac adeiladu cyfleusterau newydd.
Cyfleusterau parcio beiciau	Mannau parcio beiciau newydd mewn lleoedd strategol trwy'r cyfan o ganol tref Wrecsam.	'*Groundwork'* Wrecsam yn trefnu gosod stondinau beiciau.
2 Gynllun Llwybrau Diogel i'r Ysgol	Cynnal astudiaethau trwyadl, gan weithio yn yr ysgolion i benderfynu ar gynlluniau priodol i'w gweithredu yn Ysgol Gynradd St. Pedr, Yr Orsedd ac Ysgol Gynradd y Rofft, Merffordd.	Adroddiad wedi ei baratoi ar y cyd â 'Groundwork' Wrecsam.

Cynllun	Amcan	Partneriaeth
Mesurau Gostwng Defnyddio Ceir		
Rheoli meysydd parcio	Gosod polisi prisio newydd gydag amcanion cludiant a chynnydd sylweddol mewn prisiau yn Ebrill ac Awst 2000 yn rhoi strwythur mwy eglur – i annog peidio parcio'n hir yng nghanol y dref	
Cynlluniau Peirianyddol Mawr		
Parth cerdded canol y dref	Parth cerdded ym mhrif ganolfan canol y dref a chreu sgwâr y dref newydd	ADC a Chynulliad Cenedlaethol Cymru
Ffordd San Silyn	Ffordd newydd gyda llwybr beicio ar ei phwys yn caniatáu troi'r Stryt Fawr yn barth cerdded	ADC a Chynulliad Cenedlaethol Cymru
Ffordd gyswllt newydd yn osgoi canol pentref Rhosllannerchrugog	Adeiladu ffordd gyswllt newydd yn tynnu'r mwyafrif mawr o draffig trwodd o ganol Rhosllannerchrugog gan ganiatáu creu parth cerdded o'r rhan fewnol	ADC a Chynulliad Cenedlaethol Cymru
Gwelliannau amgylcheddol Ffordd Yr Wyddgrug	Cynnal gwelliannau tramwyfa newydd ar brif lwybr i ganol y dref, yn rhoi nodwedd porth, gan gynnwys gwaith gwella amgylcheddol, dodrefn stryd newydd, goleuadau traffig newydd a chyfleusterau beicio newydd	
Rheoli Datblygiad		
Gwaith gwella oddi ar y briffordd fel rhan o ddatblygiad tai newydd ger Ffordd Holt	Yn cynnwys darparu croesfan toucan newydd o'r safle ar draws Ffordd Holt, llwybrau beicio newydd ar draws meysydd chwarae a gostegu traffig mewn cylchoedd preswyl cyfagos	Ariannwyd gan y datblygwr
Cryn ail ddatblygu o ddau safle canol y dref gan archfarchnadoedd Tesco ac Asda.	Gwell isadeiledd priffyrdd gyda chyfanswm gwerth o £1.8m, gan gynnwys darparu tair croesfan toucan newydd, 1 groesfan pâl, llwybrau beicio newydd a gostegu traffig mewn strydoedd preswyl cyfagos.	Ariannwyd gan y datblygwyr, Tesco ac Asda.
Gostegu traffig yn ofyniad mewn holl ddatblygiadau tai newydd.	Darparu cyfleusterau gostegu traffig ar holl ffyrdd stad newydd fel rhan o ddatblygiadau tai newydd.	Ariannwyd gan y datblygwr
Cyfarwyddyd Cynllunio Atodol ar safonau parcio beiciau	Sefydlu gofynion Parcio Beiciau mewn datblygiadau newydd	Ariannwyd gan y datblygwr
Safonau parcio newydd	Sefydlu safonau parcio newydd gan droi hen safonau uchaf yn lefelau uchaf newydd	

Cynllun	Amcan	Partneriaeth
Gwelliannau Priffyrdd Mawr		
Creu cynlluniau porth pentref newydd yn • Coedpoeth • Marchwiel • Llai • Yr Orsedd • Ffordd Kingsmills, Wrecsam • Ffordd y Bers, Wrecsam • Y Groesffordd • Bwlchgwyn • Johnstown	Creu nodweddion porth ar fynedfeydd trefi gwledig a phentrefi	Arian Cymunedol
Cynlluniau gwella diogelwch ac amgylcheddol	Darparu triniaeth mynediad o'r briffordd ar strydoedd preswyl yng nghanol y dref	Arian Cymunedol
Lloches newydd i gerddwyr ym mharc adwerthu Plas Coch	Darparu gwell croesfan ar rwydwaith ffyrdd mewnol Parc Adwerthu Plas Coch	Ariannwyd gan Sainsburys
Addysg / Cyhoeddusrwydd / Yr Amgylchedd		
Wythnos Cerdded i'r Ysgol	Hybu buddion amgylcheddol a chymdeithasol cerdded i blant ysgol	
Megadrive	Rhaglen hyfforddiant cyn gyrru i rai 16 - 17 mlwydd oed i hyrwyddo dysgu a newid agweddau hirdymor.	Nawdd Vauxhall
Diwrnod Heb Geir	Hybu buddion dewisiadau yn lle'r car	CBSW
Ffair Amgylchedd a Chludiant Gwyrdd	Hybu mathau o gludiant amgylcheddol gynaliadwy, ailgylchu a materion amgylcheddol	

Ffair yr Amgylchedd a Chludiant Gwyrdd

6. Deddf Lleihau Traffig Ffordd

6.1. Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gofyn am adroddiad ar Ddeddf Lleihau Traffig ar y Ffordd (1997). Mae'r Ddeddf yn ymwneud â thraffig ar ffyrdd lle mae'r Cyngor yn Awdurdod Priffyrdd. Nid yw'n cynnwys cefnffyrdd, h.y. yr A483 a'r A5, sy'n gyfrifoldeb uniongyrchol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Problemau

6.2. Mae'r Comisiwn Cludiant Cyfun yn rhagweld y bydd traffig yn tyfu 35% rhwng 1996 a 2010. Dywed cyngor y Comisiwn y dylai cylchoedd sy'n dioddef tagfeydd o ganlyniad i dwf traffig gael eu dynodi ar gyfer gweithredu. Mae ffyrdd sy'n orlawn yn tueddu i fod â chyfradd uwch o ddamweiniau a lefelau uwch o allyriadau oherwydd cerbydau'n symud yn araf.

6.3. Mae'r rhagolygon o dwf traffig ffordd wedi eu seilio ar y Rhagolygon Traffig Ffordd Cenedlaethol (NRTF) sy'n cyfrif tueddiadau traffig, defnyddio a pherchenogaeth ceir, a thraffig cludo nwyddau ar y ffordd.

6.4. Mae'r Cyngor yn cydnabod pwysigrwydd Deddf Lleihau Traffig Ffordd ac yn cefnogi mesurau i leihau defnyddio cerbydau trwy fesurau yn y Strategaeth Cludiant Cyfun ac yn y Cynllun Cludiant Lleol hwn.

6.5. Mae cylchoedd sy'n dioddef tagfeydd ar hyn o bryd yn cael eu dangos yn Ffigur 1, a llifau traffig presennol yn y Fwrdeistref Sirol ac yn ardaloedd awdurdodau cyfagos yn Ffigur 3.

Gweithredoedd

6.6. Rhaid cydnabod nad yw'r rhan fwyaf o deithiau ddim yn cychwyn nag yn gorffen yn y Fwrdeistref Sirol ac, felly, mae gostwng traffig ffordd yn fater na all un awdurdod ei ddatrys. Er mwyn wynebu'r broblem hon ar y cyd, mae Grŵp Cludiant Cyfun Gogledd Cymru (GCCGC) yn ceisio cydweithio ar y mater hwn. Ar hyn o bryd mae'r grŵp mewn trafodaethau, gyda golwg ar gasglu a chyfnewid data er mwyn cynhyrchu cronfa ddata o batrymau traffig rhanbarthol.

6.7. Mae gan y Cyngor beth rheolaeth yn nhref Wrecsam ac ar rai teithiau byrrach, e.e. i ysgolion, ond rheolaeth neu ddylanwad cyfyngedig sydd ganddo ar deithiau eraill mewn cerbydau. Felly, bydd y Cyngor yn ceisio gosod targedau ar gyfer;

- Tu allan i ysgolion
- Canol tref Wrecsam

Ni fydd yn ymarferol i osod targedau ar ffyrdd eraill am na fydd modd mesur y newidiadau oherwydd polisïau yn y Cynllun Cludiant Lleol hwn yn annibynnol ar yr holl ddylanwadau eraill ar ddewisiadau teithio sydd tu hwnt i reolaeth y Cyngor. Mae'r dylanwadau hyn yn cynnwys;

- Teithiau Cefnffyrdd / Traffyrdd sydd heb gyfyngiadau ar draffig
- Costau teithio yn y dyfodol
- Polisïau awdurdodau lleol eraill, awdurdodau rheilffordd ac ati
- Polisi trethu'r Llywodraeth
- Elfennau rhyngwladol sy'n effeithio ar dwristiaeth a mewnforio ac allforio nwyddau
- Incwm sydd gan y boblogaeth i'w wario
- Newidiadau mewn ymarferion gweithio, e.e. gweithio adref / gweithio dros y ffôn

6.8. Bydd y Cyngor yn parhau i gasglu data traffig o'i safleoedd cyfrif ei hun a chadw golwg ar fannau yn y Fwrdeistref Sirol o ran tagfeydd.

7. Y Rhaglen 5 Mlynedd

Ffynonellau Arian Posibl

7.1. Er mwyn cyflawni prif amcanion Cynllun Cludiant Lleol y Fwrdeistref Sirol, mae'n hanfodol bod arian digonol ar gael. Y prif ffynonellau arian yw;

- Cynulliad Cenedlaethol Cymru - Grant Cludiant (cynlluniau ffordd, ceisiadau pecyn a llwybrau diogel i'r ysgol) a Her Cyfalaf Cymru / Cronfa Adfywiad Lleol
- Awdurdod Datblygu Cymru
- Yr Undeb Ewropeaidd
- Cyfraniadau Datblygwyr
- Arweiniadau Cyllid Preifat
- Cyngor y Fwrdeistref Sirol

Grant Cludiant

7.2. Prif ffynonellau arian yn y blynyddoedd diwethaf fu Grant Cludiant Cynulliad Cenedlaethol Cymru ac Awdurdod Datblygu Cymru. Y rhagolwg yw y bydd y ffynonellau hyn o arian yn aros fel y prif ffynonellau arian i weithredu'r Cynllun Cludiant Lleol. Lle bynnag y bydd modd, bydd y Cyngor yn cael cyllid ychwanegol o ffynonellau eraill o arian.

7.3. Ym mis Chwefror 2000, cadarnhaodd Cynulliad Cenedlaethol Cymru'r gwariant am 2000-2001 gyda Gwariant Cymeradwy'r Grant Cludiant yn cael ei ddangos isod.

2000/2001 Gwariant Cymeradwy'r Grant Cludiant

	Bid £m	Accepted £m
Gwella Mynediad i Stad Ddiwydiannol Wrecsam	1.159	0.500
Pecyn Wrecsam	1.945	1.075
Llwybrau Diogel i'r Ysgol – Wrecsam	0.080	Nil
Dyraniad Lleihau Damweiniau Arbennig	-	0.146

7.4. Roedd y Cynulliad Cenedlaethol yn ystyried na allai gefnogi cais y Cyngor am arian ar gyfer Llwybrau Diogel i'r Ysgol. Fodd bynnag, bydd y Cyngor yn parhau i weithio tuag at gefnogi cynlluniau trwy elfen "Cerdded / Beicio a Llwybrau Diogel i'r Ysgol" y prif gais am Grant Cludiant lle maent yn ffurfio rhan o gynllun cynhwysfawr.

7.5. Yn ystod y flwyddyn ariannol, rhoddwyd dyraniad gostwng damweiniau arbennig i holl Gynghorau Cymru. Caiff y mwyafrif o'r £146,000 ei ddefnyddio i drin safleoedd clystyrau damweiniau, yn arbennig lle bydd crynhoad o ddamweiniau marwol, difrifol neu i blant yn cerdded, gyda dyraniad bychan i Addysg Diogelwch ar y Ffordd at gynhyrchiadau drama ysgol.

Cyllideb Gyllid y Cyngor

7.6. Mae'r adran hon yn dangos cyllideb gyfyngedig ariannol y Gwasanaethau Cludiant a Pheirianneg am y flwyddyn ariannol 2000-2001, gyda chymhariaeth â chyllideb 1999/2000, gan gynnwys costau staffio.

Cyllideb 2000-2001

	Cyllideb Gyfyngedig Ariannol	
	1999/2000	2000/2001
Meysydd Parcio	-338,100	-378,221
Gwasanaethau Peirianneg	303,789	306,473
Cynnal a Chadw Ffyrdd - Client	3,830.500	3,925,737
Cyd-drefnu Cludiant	755,785	753,849
Cynllunio Strategol	184,100	191,663
Rheoli Traffig a Rheoli Datblygiad	632,200	650,921
Diogelwch ar y Ffordd a Hebryngwyr Croesfannau Ysgol	145,700	152,449
Adeiladwaith Wrecsam	-159,808	-166,367
Gwasanaethau Cefnogi	354,077	364,114
Cyfanswm		

Rhaglen Weithredu

7.7. Mae rhaglen pum mlynedd y Cynllun Cludiant Lleol yn anelu at y canlynol;

- cyrraedd amcanion y Strategaeth Cludiant Lleol
- adlewyrchu gwariant cymeradwy 2000-2001 y Cais am Grant Cludiant
- adlewyrchu arian sy'n debygol o ddod o bob ffynhonnell, e.e. Cynghorau, Yr Undeb Ewropeaidd, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Awdurdod Datblygu Cymru a Datblygwyr.
- Adlewyrchu cyfarwyddyd y Cynulliad Cenedlaethol ar Gynlluniau Cludiant Lleol
- cyfannu gwaith a chynlluniau eraill a orffennwyd hyd yma
- sicrhau gwerth am yr arian

7.8. Dylid sylwi bod llawer o waith ffyrdd a phontydd cyfalafol. Nid yw'r cynlluniau ffordd wedi eu dylunio i annog defnyddio ceir, ond yn bennaf i leihau damweiniau, gwella amodau amgylcheddol, helpu cludiant cyhoeddus a darparu gwell cyfleusterau cerdded a beicio. Amcan y cynlluniau pontydd yw atal dirywiad y briffordd bresennol a chaniatáu codi cyfyngiadau pwysau, sydd ar hyn o bryd yn peri i CNTau ddefnyddio llwybrau eraill anaddas. (Dylid sylwi fod angen cynnydd sylweddol hefyd mewn cyllid ar gyfer gwaith pontydd a phriffyrdd cyffredinol i osgoi dirywiad pellach yn isadeiledd y priffyrdd.)

7.9. Mae'r rhestr ganlynol yn dangos y rhaglen gyfalafol am y 5 mlynedd 2001 i 2006. Caiff prif elfennau'r rhaglen 5 mlynedd eu disgrifio'n fwy manwl yn yr adrannau canlynol.

Diwrnod o Hwyl i Hybu Agor y Llwybrau Beicio

Y Rhaglen 5 Mlynedd (Gwariant Cyfalafol)

Cyf.		*Mesur*	*Cost mewn £m*	
A	**Cerdded a Beicio**			
	A1	Cyffredinol	1.5	
	A2	Llwybr Beicio Cenedlaethol: Caer – Wrecsam – Llangollen - Trawsfynydd	1.0	1. 2.
	A3	Canol Tref Wrecsam – Gatewen a Brymbo	1.0	1.
B	**Llwybrau Diogel i'r Ysgol**		0.9	
C	**Pobl ag Anawsterau Symud**		0.2	
D	**Cludiant Cyhoeddus**			
	D1	Gorsaf Fysiau Wrecsam	1.4	2.
	D2	Mesurau Partneriaeth o Safon	1.0.	
	D3	Cyfnewidfeydd Bws / Trên	0.3	
	D4	Tocynnau Rhwydwaith / Cardiau Craff / TCC / Gwybodaeth Gyfamserol	0.4	
	D5	Cylchdro Ffordd Yr Wyddgrug / Ffordd Grosvenor	0.9	2.
	D6	Gorsaf Drenau Newydd yn Johnstown	1.0.	1.
E	**Gostwng Defnyddio Ceir**			
	E1	Parcio a Theithio	1.0	1.
	E2	Rheoli Meysydd Parcio / Parcio Trigolion	0.2	
F	**Lleihau Damweiniau**		1.5	
G	**Ymgyrch Ymwybyddiaeth o Deithio**		0.4	
H	**Gostegu Traffig**		1.25	
I	**Ffyrdd**			
	I1	Mynediad i Stad Ddiwydiannol Wrecsam	14.1	
	I2	Cyffordd yr A55/A483 i'r De o Gaer	-	3.
	I3	A483 – Deuoli rhwng Rhiwabon a'r Amwythig	-	4.
	I4	Ffordd y Dŵr / Ffordd Bradle, Wrecsam	0.3	
	I5	A541 Gwelliant Gwersyllt	4.6	
	I6	A525 Raggs Hill i'r dwyrain o Fangor is y Coed	0.6	
	I7	Ffordd Plas Bennion, Rhiwabon	0.2	
	I8	Stryt Las, Rhosllannerchrugog	0.1	
	I9	Ffordd Pentre Bychan ger yr Amlosgfa	0.05	
	I10	Adnewyddu / gwaith trwsio strwythurol ar y lôn gerbyd	2.5	
J	**Pontydd**			
	J1	B5430 Pont Southsea	0.06	5.
	J2	B51525 Pont Felin Puleston	0.35	5.
	J3	B5102 Pont Newydd Cooks	0.35	5.
	J4	B5097 Afon Eitha	0.03	5.
	J5	B4500 Cynnal y briffordd yn y Waun	0.1	6.
	J6	B5400 Clawdd cynnal Bryn Derw	0.06	6.
	J7	B5434 Pont Cysyllte	0.4	7.
	J8	A5152 Traphont Dôl Eryrod	0.15	7.
	J9	A534 Cylfat Brickyard Cottage	0.05	7.
	J10	Pont Sonlli Ganol	0.05	7.
	J11	A525 Cylfat Sands Cottage, Horseman's Green	0.1	7.
	J12	Pont Gamlas Clapping Gate	0.2	7.
	J13	Pont Bryn Alun	0.15	7.
	J14	Cylfat Penley Bank Cottage	0.1	7.

Nodiadau

1. Cost amcanol gan mai syniad yw'r cynllun ar hyn o bryd
2. Rhagolwg o arian sylweddol oddi wrth ddatblygwyr, Sustrans ac ati
3. Cynllun yn gyfan gwbl yn Swydd Caer i'w ariannu gan DETR
4. Cynllun gan mwyaf yn Swydd Amwythig i'w ariannu gan DETR / Cynulliad Cenedlaethol Cymru
5. Atgyfnerthu'r Bont
6. Gwaith Pontydd Newydd
7. Gwaith ailadeiladu ac ailwampio Pontydd

Cerdded a Beicio (Cyf. A)

7.10. Mae'r Cynllun Cludiant Lleol yn ceisio darparu llwybrau diogel, hwylus a deniadol ar gyfer cerddwyr a beicwyr ynghanol y dref a thu allan i ysgolion yn y Fwrdeistref Sirol. Mae Rhan 1 o Rwydwaith Llwybrau Beicio Wrecsam wedi cael ei weithredu gydag atborth cadarnhaol oddi wrth y defnyddwyr. Mae gwaith ar y gweill ar Ail Ran y rhwydwaith a'r bwriad yw y bydd y rhwydwaith yn darparu llwybrau diogel, uniongyrchol a hwylus i feicwyr eu defnyddio, gyda'r bwriad o hybu pobl i ddefnyddio eu beiciau i deithio pellterau byr yn lle defnyddio eu ceir. Nid oes modd crynhoi'r gwaith o adeiladu llwybr beicio cynhwysfawr i mewn i raglen tair rhan. Bydd dolennau newydd yn parhau i gael eu dynodi a'r rhagolwg yw y bydd y rhwydwaith yn gwella ac yn ymestyn bob blwyddyn gyda mwy o ardaloedd yn cael eu cysylltu. (Cyf. A1)

7.11. Mae dau lwybr cerdded a beicio penodol yn cael eu cynnig:

- Caer – Wrecsam – Llangollen - Trawsfynydd (Cyf. A2). Dolen yw hon yn y Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol sy'n cael ei drafod ar hyn o bryd gyda Sustrans. Mae'r llwybr eto i gael ei benderfynu'n derfynol ond y rhagolwg yw y bydd defnydd helaeth o hen reilffyrdd, tir yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol a mân ffyrdd yn y Fwrdeistref Sirol.

- Canol Tref Wrecsam i Frymbo, (Cyf. A3) gyda chainc i Southsea / Gatewen yn ffurfio llwybr cymudo o aneddiadau cylchynol i Wrecsam, yn defnyddio hen reilffyrdd gan mwyaf.

Llwybrau Diogel i'r Ysgol (Cyf. B)

7.12. Mae Llwybrau diogel i'r Ysgol yn cynnwys cymysgedd o fesurau addysg, hyrwyddo a pheirianneg yn cael eu datblygu trwy gydweithrediad rhwng athrawon ysgol, swyddogion diogelwch ar y ffordd a pheirianwyr. Mae *Groundwork* Wrecsam wedi helpu'r Cyngor yn y nifer cyfyngedig o gynlluniau hyd yma.

7.13. Mae gwaith Gostegu Traffig tu allan i ysgolion yn elfen bwysig o'r Cynllun a bu datblygiadau mewn nifer o ysgolion. Dylid sylwi y bydd gostwng traffig tu allan i ysgolion yn darged penodol i'r Cyngor fel rhan o Ddeddf Lleihau Traffig Ffordd.

Pobl ag Anawsterau Symud (Cyf. C)

7.14. Mae pobl ag anawsterau symud yn dioddef llawer o rwystrau i symudiad sy'n aml heb eu gwerthfawrogi gan bobl abl. Gall diffyg cyrbau isel lle bydd cerddwyr yn croesi ffyrdd beri cryn deithio ychwanegol, problem sy'n cael ei gwaethygu os bydd cerdded neu ddefnyddio cadair olwynion yn anodd. Gwnaed gwariant cyfyngedig gyda chymorth Grant Cludiant, a'r bwriad yw parhau gyda'r gwaith hwn i leihau problemau pobl ag anawsterau symud. Dylid sylwi, pan fydd unrhyw gynllun newydd yn cael ei ddylunio, y bydd anghenion pobl ag anawsterau symud yn cael eu hystyried yn benodol fel rhan o'r drefn ddylunio ac archwilio.

Cludiant Cyhoeddus (Cyf. D)

7.15. Amcan y Cynllun Cludiant Lleol yw gweithredu polisïau'r Strategaeth Cludiant Cyhoeddus. Mae'r Cynllun Cludiant Lleol yn ceisio gwella delwedd a darpariaeth cludiant cyhoeddus. Mae hyn i gael ei wneud trwy welliannau i orsafoedd, safleoedd a chyfnewidfeydd yn ogystal â gweithio gyda chwmnïau ac awdurdodau cyfagos i ddarparu amserlenni a chardiau craff.

7.16. Er mwyn cyrraedd amcanion y Strategaeth Cludiant Cyhoeddus mae cyfuniad o fesurau yn cael eu cynnig.

Mesurau Partneriaeth o Safon (Cyf. D2)

7.17. Sefydlwyd Mesurau o Safon ar dramwyfeydd Wrecsam i'r Wyddgrug a Wrecsam i Gaer. Mae

llochesau a safleoedd bws o safon uchel, gydag amserlenni unswydd, i gael eu darparu ar y dramwyfa fel rhan o gydweithrediad ag awdurdodau cyfagos ac mae'r cwmni bysiau wedi darparu llochesau newydd a hyfforddiant i'r gyrwyr. Mae cynlluniau tebyg yn cael eu cynnig ar holl lwybrau yn y Fwrdeistref Sirol.

Mesurau Cyfnewid rhwng Bws a Thrên (Cyf. D3)

7.18. Yn unol â Pholisi'r Llywodraeth i ddarparu cludiant cyhoeddus "diwnïad" mae cynnig i ddarparu mesurau mewn cyfnewidfeydd rhwng bws a thrên. Byddai gwell safleoedd bws ac arwyddion i orsafoedd ar gyfer cerddwyr yn gwella ansawdd y daith i ddefnyddwyr trenau a bysiau.

Tocynnau Rhwydwaith / Cardiau Craff / TCC / Gwybodaeth Gyfamserol (Cyf. D4)

7.19. Mae holl lochesau a safleoedd bws i gael casys arddangos at ddarparu gwybodaeth amserlenni, fydd yn benodol i bob lleoliad. Mae cronfa ddata, fydd yn galluogi cynhyrchu gwybodaeth benodol ar gyfer pob safle, wedi ei sefydlu erbyn hyn.

7.20. Bu trafodaethau ar gynllun peilot cerdyn teithio electronig yn Wrecsam. Byddai'r cynllun hwn yn golygu cydweithredu gydag awdurdodau cyfagos yn Swydd Caer a Sir y Fflint a byddai'n galluogi sefydlu tocynnau rhwydwaith disgownt ac yn hwyluso rheoli unrhyw gynllun tocynnau mantais di-dâl yn y dyfodol.

7.21. Mae ystyriaeth yn cael ei roi i ddarparu gwybodaeth gyfamserol mewn safleoedd bws ar dramwyfa Wrecsam - Caer. Mae nifer o gyfundrefnau cyfamserol ar gael sy'n defnyddio technoleg i ddatgelu symudiadau bysiau a throsglwyddo'r amser y bydd disgwyl i'r bws gyrraedd a'i ddangos ar fwrdd yn y safle.

7.22. Byddai gosod TCC yn gwella lefelau diogelwch ac yn darparu amgylchedd diogel, sicr ar gyfer teithwyr a cherbydau wedi eu parcio.

Cylchdro Ffordd Yr Wyddgrug / Ffordd Grosvenor (Cyf. D5)

7.23. Mae cyffordd Ffordd Yr Wyddgrug / Ffordd Grosvenor / Ffordd Bradle yn gyffordd allweddol yn Wrecsam. Raid i'r mwyafrif o fysiau sy'n defnyddio'r Orsaf Fysiau fynd drwy'r gyffordd. Mae'r orsaf dân ar bwys y gyffordd a rhaid i ambiwlansiau rhwng Ysbyty Maelor a llawer rhan o Wrecsam ddefnyddio'r gyffordd. Mae'r tagfeydd presennol, felly, yn niweidiol iawn i rwydwaith cludiant cyhoeddus effeithlon ac i'r gwasanaethau argyfwng. Yn ogystal, mae'r gyffordd hon yn brysur gyda cherddwyr rhwng canol y dref a NEWI, y sefydliad addysg drydyddol mwyaf yng ngogledd-ddwyrain Cymru, a maes pêl droed Wrecsam sy'n llwyfannu amrywiol ddigwyddiadau rhyngwladol. Mae hefyd yn ffurfio rhan o'r rhwydwaith llwybrau beicio. Caewyd Bragdy Lager Wrecsam erbyn hyn gan greu ardal ddiwydiannol fawr sydd angen ei hail ddatblygu. Mae trafodaethau ar y gweill i fynd i'r afael â phroblemau cludiant y lleoliad hwn fel rhan o ail ddatblygu'r safle.

Mesurau Gostwng Defnyddio Ceir (Cyf. E)

Parcio a Theithio (Cyf. E1)

7.24. Bydd llwyddiant Parcio a Theithio yn dibynnu ar ba mor gyflym y bydd Wrecsam yn parhau i ddatblygu fel prif ganolfan siopa a gwaith ac i ba raddau y bydd y ddarpariaeth barcio bresennol yn gallu ateb y galw am fannau parcio.

Rheoli Meysydd Parcio / Parcio Trigolion (Cyf. E2)

7.25. Mae'n bwysig fod modurwyr sy'n defnyddio meysydd parcio canol tref Wrecsam yn peidio gyrru o un maes parcio llawn i'r llall, gan fod hyn ond yn ychwanegu at y tagfeydd, llygredd a damweiniau. Y bwriad, felly, yw sefydlu cyfundrefn i reoli meysydd parcio gan ddefnyddio arwyddion amryw neges tu allan i ganol y dref i gyfeirio ceir i safleoedd gyda lle ar gael (neu, yn

y dyfodol, i'r safle parcio a theithio). Mae trigolion sy'n byw ger canol y dref yn dioddef problemau pan fydd cymudwyr a siopwyr yn eu hatal rhag parcio. Y bwriad, felly, yw sefydlu cynlluniau parcio trigolion ar ôl astudiaethau manwl o'r cylchoedd dan sylw a gwaith ymgynghori trylwyr.

Lleihau Damweiniau (Cyf. F)

7.26. Yn aml gall astudiaethau manwl o hanes damweiniau ganfod achosion o ddamweiniau'n cael eu ailadrodd y bydd modd eu trin trwy fesurau peirianyddol. Dangoswyd bod y dechneg hon yn eithriadol gost-effeithiol yn genedlaethol ac, yn y Fwrdeistref Sirol, cafwyd cyfraddau adennill yn y flwyddyn gyntaf o dros 550%. Yn ogystal â'r arbed arian (e.e. gofal ysbyty, colli gwaith, trwsio ceir) mae arbediadau pwysicach o ran poen, galar a dioddef.

7.27. Yn ogystal â mesurau peirianyddol, mae modd gostwng damweiniau hefyd fel rhan o raglen benodol o addysg, hyfforddiant a chyhoeddusrwydd yn cael ei chynnal gan swyddogion diogelwch ar y ffordd gyda chydweithwyr yn yr heddlu a'r gwasanaeth iechyd.

Ymwybyddiaeth o Deithio (Cyf. G)

7.28. Dim ond effaith gyfyngedig fydd darparu mathau cynaliadwy o gludiant (gwell cludiant cyhoeddus, cerdded a beicio) os nad yw'r cyhoedd yn ymwybodol o'r dewisiadau a'r buddion. Bu'r ymgyrchoedd a gynhaliwyd hyd yma, gan gynnwys y Diwrnod Hwyl Beicio, Diwrnod Di-gar Wrecsam, ymgyrchoedd bws a thrên, yn fuddiol ond cyfyngedig. Mae hysbysebu yn hanfodol i gael newid mawr mewn defnydd a newid agweddau. Y bwriad, felly, yw trefnu ymgyrch barhaol sylweddol (efallai o dan y slogan "*TravelWise*") yn cynnwys holl fathau o gludiant, wedi ei gyd-drefnu gydag awdurdodau cyfagos ac yn cynnwys gwybodaeth amdanynt.

7.29. Mae'r Cyngor yn bwriadu parhau ei ymroddiad i hyrwyddo holl wasanaethau cludiant cyhoeddus yn y Fwrdeistref Sirol er mwyn hybu ymwybyddiaeth y cyhoedd. Yn ogystal â chynhyrchu amserlenni, taflenni a llyfrynnau, y bwriad yw cyfrannu'n uniongyrchol at farchnata gwasanaethau trên, gwella arddangosiadau min y ffordd ac mewn llochesau, ac adeiladu ar welliannau mewn dylunio amserlenni a thaflenni. Yn ogystal, mae'r Cyngor yn bwriadu hyrwyddo twristiaeth gyda chludiant cyhoeddus, cyhoeddi amserlenni print bras i'r rhai sydd heb fod yn gweld cystal, a hysbysu buddion gwasanaethau ac amleddau i annog cludiant cynaliadwy.

Gostegu Traffig (Cyf. H)

7.30. Mae gostwng cyflymder ar ffyrdd yn gwneud cerdded a beicio yn fwy deniadol a defnyddio ceir yn llai felly. Mae modd cael arbediadau sylweddol mewn damweiniau, gostwng llygredd a gwella'r amgylchedd. Mae'r mesurau hyn oll yn cefnogi amcanion y Cynllun Cludiant Lleol a bu atborth y cyhoedd ar y cynlluniau a orffennwyd hyd yma yn galonogol. Mae nifer y ceisiadau am gynlluniau o'r fath yn fawr iawn fel hefyd y gallu i weithredu.

Ffyrdd (Cyf. I)

7.31. Roedd y tabl blaenorol yn cynnwys rhestr o gynlluniau ac mae disgrifiadau ohonynt i'w gweld yn Adran 4.155 – 4.162.

Pontydd (Cyf. J)

7.32. Roedd y tabl blaenorol yn cynnwys rhestr o gynlluniau. Caiff y rhain eu dosbarthu fel atgyfnerthu pontydd, gwaith pontydd newydd, a gwaith ailadeiladu ac ailwampio pontydd.

8. Y Weledigaeth 20 Mlynedd

8.1. Mae patrymau a nodweddion teithio wedi datblygu dros ddegawdau ac mae'r Cyngor yn cydnabod na fydd newidiadau i'r patrymau hyn yn digwydd ar unwaith. Trwy bennu polisïau a gweithredu cynlluniau, mae'r Cyngor yn darparu'r dewisiadau i hybu defnyddio dulliau mwy cynaliadwy o gludiant. Er mwyn i bobl newid eu patrymau teithio, mae arnynt angen ffydd yn y dulliau eraill, a'r unig ffordd o gyflawni hyn yw trwy gynllunio cludiant hirdymor.

8.2. Mae'r Cynllun Cludiant Lleol cyntaf hwn yn ategu nod y Strategaeth Cludiant Cyfun i greu cyfundrefn gludiant ddiogel, effeithlon a theg, a gwneud hynny drwy'r canlynol;

- cyfuno oddi mewn a rhwng gwahanol ddulliau cludo
- cyfuno gyda'r amgylchedd fel bod dewisiadau cludiant yn achosi llai o ddifrod
- cyfuno gyda pholisïau defnyddio tir i gefnogi dewisiadau teithio cynaliadwy
- cyfuno gyda pholisïau addysg, iechyd a'r economi.

8.3. Mae'r rhaglen weithredu sydd yn y Cynllun Cludiant Lleol hwn yn dangos y cynigion am y pum mlynedd 2000/1 – 2004/5. Yn ystod y cyfnod o bum mlynedd, nod y Cyngor yw gostwng y twf mewn traffig ceir.

8.4. Mae'r rhaglen wedi ei gosod o fewn gweledigaeth 20 mlynedd, lle bydd yr holl strategaethau hirdymor yn chwarae rhan bwysig. Mae'r dogfennau strategaeth unigol, fel Beicio, Cerdded a Chludiant Cyfun yn cynnwys polisïau sydd wedi eu trefnu yn ôl y cyfnodau Tymor Byr (i'w gweithredu o fewn 5 mlynedd), Tymor Canolig (i'w gweithredu o fewn 10 mlynedd) a Hir Dymor (i'w gweithredu o fewn 15 mlynedd).

8.5. Gall fod yn anodd edrych ymlaen 20 mlynedd. Pe byddai'r cynllun hwn yn cael ei baratoi 20 mlynedd yn ôl, byddai'n cael ei seilio gan mwyaf ar adeiladu ffyrdd newydd, gan gynyddu'r lle ar ffyrdd presennol a gostwng amserau teithio defnyddwyr ceir.

8.6. Cafodd y cynllun hwn ei baratoi gyda golwg ar bolisïau, technoleg a deddfwriaeth. Y rhagolwg yw y bydd datblygiadau mewn technoleg, fel gweithio gartref neu *telematics,* yn dylanwadu ar bolisïau a deddfau yn y dyfodol. Ar hyn o bryd, ni all y Cyngor ragweld i ba raddau y bydd hyn yn dylanwadu ar gludiant ac anghenion teithio. Felly, caiff y cynllun ei adolygu bob blwyddyn a chaiff Cynllun Cludiant Lleol newydd ei baratoi yn 2006.

8.7. Roedd Adran 3 yn manylu Amcanion Cenedlaethol, Rhanbarthol a Lleol. Caiff y rhain eu coethi yn yr 20 mlynedd nesaf, ond y gred yw na chânt eu newid yn sylweddol.

8.8. Mae'r weledigaeth 20 mlynedd yn barhad o'r amcanion manwl presennol ac amcan cyflawn y Cynllun Cludiant Lleol sy'n cael ei ail ddatgan isod;

"Darparu ar gyfer anghenion cludiant presennol y Fwrdeistref Sirol ac yn y dyfodol a sicrhau fod buddsoddiad mewn cludiant yn berthynol i amcanion cynllunio defnydd tir, yr amgylchedd, cymdeithasol a lleihau damweiniau"

9. Dangosyddion Cyflawniad a Thargedau

Gosod Targedau

9.1. Mae angen diffinio targedau i weithredu fel meincnodau i asesu'r Cynllun Cludiant Lleol gyferbyn â hwy. Bydd y targedau yn asesu os yw'r amcanion a osodwyd yn Adran 3 yn cael eu cyflawni.

9.2. Wrth osod targedau, roedd angen eu bod;

- yn berthynol i'r targedau cenedlaethol
- yn ymarferol a heriol
- yn rhai yr oedd modd cadw golwg arnynt (Roedd angen i'r targedau hefyd ddilyn y rheol **PACYM** sef y dylent fod yn rhai;

Penodol
Amseredig
Cytunedig
Ymarferol
Mesuradwy)

Cadw Golwg ar y Targedau

9.3. Bydd golwg yn cael ei gadw ar y targedau canlynol a chânt eu hadolygu trwy adroddiad datblygiad blynyddol y Cynllun Cludiant Lleol. Bydd yr adroddiad hwn yn rhoi cyfle i'r Cyngor gadw golwg ar gyflawniad y cynllun a'i newid os bydd angen.

Targedau

	Gweithgaredd	*Amcan*	*Dangosydd Cyflawniad*	*Targed Pwy?*	*Y Targed*	*Sylwadau*
1	**Yr Amgylchedd**	Sicrhau fod llygrwyr islaw'r safon	Crynhoad Blynyddol Cymedrig	CCC	NO_2 – 150ppb PM10 – 50ug/mg^3	Gorffennwyd asesiad Cyfnod 1
2	**Cerdded**	Cynyddu nifer y cerddwyr	Nifer y cerddwyr	CBSW	I'w osod	Gwelliannau sylweddol mewn cyfleusterau cerdded yng nghanol tref Wrecsam. Cynhaliwyd yr arolygon cerdded cyntaf ym mis Tachwedd 1999
3	**Beicio**	Cynyddu nifer y beicwyr	Nifer y beicwyr	CCC	+100% (1996-2002) +100% (2003-2012)	57% o gynnydd o gwmpas canol tref Wrecsam. Mwy o arolygon wedi eu cynllunio yn y dyfodol agos
4	**Cludiant Cyhoeddus**	Cynyddu defnyddio cludiant cyhoeddus	Nifer y teithiau teithwyr ar y bws a'r trên	CBSW	I'w osod ar ôl yr arolwg cyntaf	
5	**Parcio a Theithio a Pharcio**	Gweithredu polisïau parcio priodol	Cadw golwg ar y defnydd o feysydd parcio	CBSW	Cadw golwg bob 6 mis	Cynyddu prisiau parcio yn unol â'r Strategaeth Barcio
6	**Nwyddau**	Cefnogi dosbarthiad nwyddau cynaliadwy	Faint o nwyddau sy'n cael eu cludo ar drenau	CBSW a sefydliadau partner	I'w osod ar sail canlyniadau'r astudiaeth	Trafodaethau ar hyn o bryd ar Bartneriaethau Nwyddau o Safon

7	**Cludiant Gwyrdd**	Lleihau'r defnydd o gludiant preifat at deithio i'r gwaith	Llunio Cynllun Cludiant Gwyrdd ar gyfer Gweithwyr y Cyngor ac annog cyflogwyr mawr ac ysgolion i lunio cynlluniau cludiant gwyrdd a chadw golwg ar newid dilynol mewn dulliau teithio	CBSW	Gostwng nifer y staff sy'n teithio i'r gwaith mewn ceir	Gorffennwyd yr arolwg o batrymau teithio a defnydd car presennol y staff a'r aelodau. Ar hyn o bryd, mae CBSW yw datblygu Cynllun Cludiant Gwyrdd. Mae Ysbyty Maelor eisoes yn datblygu Cynllun Cludiant Gwyrdd
8	**Diogelwch ar y Ffordd**	Gostwng 40% ar nifer y bobl sy'n cael eu lladd neu eu niweidio'n ddifrifol erbyn 2010	Nifer a / neu gyfraddau damweiniau	CCC	Gostwng 4% y flwyddyn	Bu cyflawniad gwael hyd yma o ran cyrraedd y targedau gostwng damweiniau
9	**Diogelwch ar y Ffordd**	Gostwng 50% ar nifer y plant sy'n cael eu lladd neu eu niweidio'n ddifrifol erbyn 2010	Nifer a / neu gyfraddau damweiniau	CCC	Gostwng 5% y flwyddyn	Bu cyflawniad gwael hyd yma o ran cyrraedd y targedau gostwng damweiniau
10	**Diogelwch ar y Ffordd**	Gostwng 10% ar gyfradd mân anafiadau, wedi ei fynegi fel nifer y bobl yn dioddef mân anafiadau fesul 100 miliwn cilomedr cerbyd	Nifer a / neu gyfraddau damweiniau	CCC	Gostwng 1% y flwyddyn	Bu cyflawniad gwael hyd yma o ran cyrraedd y targedau gostwng damweiniau
11	**Diogelwch ar y Ffordd**	Cynyddu nifer y plant sydd wedi cael hufforddiant beicio	Nifer y plant	CBSW	Cynyddu 3% y flwyddyn	Cafodd 411 o blant hyfforddiant beicio yn 1999/2000
12	**Gostegu Traffig**	Annog traffig diangen rhag defnyddio llwybrau anaddas	Ystadegau damweiniau ac atborth o ysgolion a thrigolion	CBSW	Adolygu safleoedd bob blwyddyn	Sefydlwyd amryw o gynlluniau gostegu traffig yn ddiweddar tu allan i ysgolion. Cafodd cynlluniau dderbyniad da gan drigolion lleol a'r ysgolion
13	**Cynnal a Chadw**	Darparu rhwydwaith o briffyrdd diogel, cost-effeithiol	Amrediad o dargedau corfforedig, y Cynulliad Cenedlaethol a Gwerth Gorau	CCC a CBSW	Amrywiol	Mae arolygon yn dangos fod y rhwydwaith angen arian sylweddol i'w godi i safon foddhaol.
14	**Deddf Lleihau Traffig Ffordd**	Asesu traffig presennol a dyfodol ar ffyrdd y Fwrdeistref Sirol	Llifau traffig a thagfeydd	CBSW	Cytunwyd y bydd targed ar gyfer canol tref Wrecsam a thu allan i ysgolion	Arolygon manwl i'w cynnal
15	**Hygyrchedd a Symudoledd**	Gwella hygyrchedd pobl ag anawsterau symud	% o groesfannau cerddwyr gyda chyfleusterau	CCC	Bod yn y pedwarant uchaf o'r rhif dros Gymru	Nifer sylweddol o groesfannau wedi eu gwella'n ddiweddar. Holl groesfannau newydd a rhai sy'n cael eu newid yn cynnwys pafin cyffyrddol

Atodiad 1

Sylwadau'r Rhai yr Ymgynghorwyd â Hwy

Cyf.	Sylwadau'r Atebwyr	Enw / Sefydliad	Ymateb
1	• Darparu gwasanaeth bysiau i gyd-fynd â phatrymau gwaith o'r dref a'r cylch i Stad Ddiwydiannol Wrecsam. Ystyried noddi i annog defnyddio	BICC General Technology	• Nodwyd
2	• Llwybrau beicio diogel a'u cadw draw o ffyrdd lle bynnag y bo modd. • Gosod cylchfannau ar Ffordd Parc Borras, Cyffordd Ffordd Borras / Ffordd Gyswllt Llan y Pwll. Manteisio ar y tir sy'n cael ei gynnig ar gyfer llwybrau beicio diogel.	Ysgol Iau Parc Borras	• Cefnogwyd – Gweler y Strategaeth Feicio • Gwaith i ddechrau yn fuan fel rhan o waith y Stad Ddiwydiannol
3	• Sefydlu gwasanaeth bysiau di-dâl yn cysylltu Plas Coch, Y Werddon, Canol y Dref a chanolfannau siopa newydd Tesco / Asda i ostwng yr angen i barcio	Cyclists Touring Club	• Gwrthdaro gyda gwasanaethau masnachol presennol
4	• Sicrhau fod bysiau 1 ac 1A at 6:30 a 6:50 o Gaer yn mynd heibio Pepper Street a Foregate Street fel bod pobl yn gallu dal trenau cynnar i Lundain o Gaer • Sicrhau gwelliannau yn y gwasanaethau trên rhwng Caer a'r Amwythig drwy Wrecsam i ddarparu gwasanaeth bob awr i Gaerdydd • Parhau i gefnogi cyfleusterau parcio pobl anabl ac i wella hygyrchedd siopau a swyddfeydd • Darparu palmentydd ar y ffordd rhwng Yr Orsedd / Y Groesffordd a Wrecsam a hefyd i bentrefi eraill •	JDR Thomas	• Nodwyd • Cytuno • Cytuno • Mae palmant ar un ochr i'r ffordd. Mae darparu palmentydd rhwng aneddiadau trefol cyfagos yn cael ei gefnogi.
5	• Rhoi blaenoriaeth i gerdded, beicio, cludiant cyhoeddus dros ddefnyddio ceir fel CCLl Caer • Rhannu ceir dros unigolion yn defnyddio car (er enghraifft trwy neilltuo lleoedd parcio i geir wedi eu rhannu'n unig)	Ramblers Association	• Cefnogwyd yn y CCLl • I'w ystyried fel rhan o Cynllun Cludiant Gwyrdd

Cyf.	Sylwadau'r Atebwyr	Enw / Sefydliad	Ymateb
6	• Dylai mannau parcio o gwmpas ysgolion ddarparu digon o leoedd parcio ar gyfer rhieni yn casglu a gollwng mewn car. • Mae gan wledydd eraill bolisi lle bydd rhannu ceir yn cael ei annog trwy ostwng prisiau parcio i rai sy'n rhannu. Ydi Wrecsam wedi ystyried hyn? • Sefydlu parthau 20 mya a mesurau gostegu traffig o gwmpas ysgolion • Mae'r Cyngor yn cytuno y dylid annog pobl ifanc i gerdded i ysgolion uwchradd ond bod llwybrau diogel i gerdded arnynt. Roedd peth pryder ynghylch plant ysgol cynradd yn cerdded	Cyngor Cymuned Rhosllannerchrugog	• Ni chefnogwyd yn gyffredinol • I'w ystyried fel rhan o'r Cynllun Cludiant Gwyrdd • Cefnogwyd – Gweler Adran 4.188. • Mae angen sefydlu Llwybrau Diogel i'r Ysgol ar gyfer holl blant ysgol
7	• Mae angen cyfuno holl fathau o gludiant. Dylid cydweithredu gydag awdurdodau cyfagos, gan gynnwys Merseyside PTE	Salisbury Parc Action Group	• Cytuno
8	• Mae parcio o gwmpas holl ysgolion yn dod yn broblem enfawr	Ysgol Iau San Silyn	• Cytuno
9	• Dylid sylwi fod y Santes Fair wedi ceisio mynd i'r afael â hyn ar lawer lefel. Daw ein plant o gryn bellter ac nid oes rhywbeth ar gyfer ein holl blant – mae ein safle yn brysur iawn.	Ysgol Gynradd y Santes Fair	• Nodwyd
10	• Dylai holl weithwyr y Cyngor ddefnyddio cyfundrefn barcio a theithio gan ryddhau meysydd parcio canol y dref at ddefnydd byr aros	Sue Stanford	• I'w ystyried fel rhan o Astudiaeth fanwl o Barcio a Theithio
11	• Sicrhau fod holl ffyrdd yn cael eu cynnal i safon uchel	Cynghorydd CBSW GJ Crisp	• Cytuno – gweler y Strategaeth Gynnal
12	• Llwybr beicio i'r stad ddiwydiannol	Cynghorydd CBSW GW Griffiths	• Mae'r llwybr wedi ei arwyddo ar hyn o bryd. Bydd gwell llwybr ger Ffordd Holt yn dod yn y dyfodol agos
13	• Nid oes unrhyw sôn am strategaeth twristiaeth cynaliadwy • Dechrau galw'r llinell yn Rheilffordd Wrecsam Canolog - Shotton - Birkenhead Bidston am nad oes neb yn gwybod lle mae Bidston	Wrexham Birkenhead Rail User Association	• Gweler Adran 3.24. • Yr enw yw Borderlands Line

Cyf.	Sylwadau'r Atebwyr	Enw / Sefydliad	Ymateb
14	• Ystyried yn ddifrifol, trwy astudiaeth ymarferedd, cyfundrefn o drenau ysgafn atodol i fathau eraill o gludiant. • Ystyried Parcio a Theithio gyda'r trên o orsaf Gwersyllt	Keith Simmins	• Ni chefnogwyd, annhebygol o fod yn economaidd • Parcio Cyfyngedig yn cael ei ddarparu mewn gorsafoedd fel rhan o ail ddatblygu. Nid oes modd cyfiawnhau parcio a theithio ar raddfa fwy am na fyddai'n debygol o ddenu llawer i'w ddefnyddio, ac ni fyddai rhedeg mwy o drenau yn economaidd.
15	• Dylai Polisi UDP3 gynnwys bod hawl i farchogion ddefnyddio hen reilffyrdd am eu bod yn ddefnyddwyr ffyrdd ac mewn perygl mawr. Mae hen reilffyrdd yn hafan ddefnyddiol a diogel i farchogaeth oddi ar y ffordd. Dylid cynnwys marchogaeth yn y strategaethau am fod marchogion yn talu eu trethi am ychydig iawn yn eu lle	Wrexham District Bridleways Assoc.	• Mae marchogaeth yn weithgaredd hamdden yn hytrach na math o gludiant. Mae nifer y marchogion ar y briffordd yn fychan iawn fel hefyd y gyfradd ddamweiniau. Fodd bynnag, mae marchogion yn ddefnyddwyr bregus o'r ffyrdd ac mae mesurau yn ofynnol i leihau problemau lleol. Bydd defnyddio hen reilffyrdd gan farchogion yn cael ei ystyried.
16	• Cyswllt mwy amlwg o ddefnydd cludiant cyhoeddus gan dwristiaid ac ymwelwyr	Bwrdd Croeso Cymru	• Cytuno
17	• Byddai cyfleusterau parcio beiciau yn ITEC Wrecsam yn ddefnyddiol	Fforwm Beicio Wrecsam	• Mae trafodaethau ar y gweill
18	• Byddai terfyn cyflymder o 20mya , o'r orfodi, yn fwy derbyniol nag ynysoedd, twmpathau a saethau tu allan i ysgolion • Pryder am oryrru ar lonydd gwledig • Pryder am hygyrchedd y dref a Rhosllannerchrugog • Mae angen addysg ar oryrru	MJ Roberts	• Mae gan yr Heddlu adnoddau cyfyngedig ar gyfer gorfodi • Cytuno • Nodwyd • Cytuno – gweler Adran 4.172 ar Ddiogelwch ar y Ffordd
19	• Mae Paragraff 3.6 yn cael ei gefnogi yn llawn ac yn cefnogi polisïau trenau	Datblygiad Economaidd	• Nodwyd
20	• Talu mwy o sylw i anghenion y methedig, gwell cyfleusterau mewn safleoedd bws, grisiau is i fysiau, gwell parcio a mwy ohono i'r anabl	Cyngor Cymuned Llai	• Cytuno
21	• Dogfen ardderchog, yn dangos cynllunio manwl ac yn dangos datblygiadau cyffrous yn Wrecsam.	Eurig Wyn ASE	• Nodwyd

Cyf.	Sylwadau'r Atebwyr	Enw / Sefydliad	Ymateb
22	• Adfer yr hen reilffordd rhwng Rhiwabon a Llangollen i gysylltu â'r brif linell • Tir yn Stryt y Rhaglaw ym meddiant Dickens i'w ddefnyddio fel parc bysiau gorlif i'r Orsaf Fysiau newydd. Gellid hefyd ei ddefnyddio fel man gollwng ar gyfer Parcio a Theithio • Hygyrchedd Stad Ddiwydiannol Wrecsam – edrych ar bosibiliadau cludo nwyddau gyda dulliau eraill, e.e. tramffordd neu gyswllt rheilffordd • Gwella amledd trenau Caer – Amwythig • Dylai'r Cynulliad ariannu'r cynllun ac nid drwy Dreth y Cyngor	*Tower above all* a'r RNLI	• Nid yw hyn yn cael ei gefnogi gan CDU Wrecsam na Sir Ddinbych's • Dyluniwyd yr Orsaf Fysiau Newydd gyda digon o le i fysiau aros. Nid yw'n briodol ei ddefnyddio ar gyfer Parcio a Theithio • Nodwyd • Nodwyd • Nodwyd
23	• Mwy o flaenoriaeth i gael gwybodaeth am gludiant cyhoeddus yn rhwyddach e.e. cabanau electronig mewn mannau cyhoeddus fel yr ysbyty	Ysbyty Wrecsam Maelor	• Nodwyd
24	• Byddai Parcio a Theithio yn gam. Rwy'n sicr ein bod yn ennill siopwyr o Gaer am fod gennym barcio canol y dref fforddiadwy. Mae cael gwell gwasanaethau bws o gwmpas Wrecsam yn bwysicach	Cynghorydd CBSW Mrs Wilkinson	• Nodwyd – bydd angen i astudiaeth fanwl o barcio a theithio ystyried y farn hon yn ofalus.
25	• Darparu'n well ar gyfer yr anabl / pramiau - symud brics bras o'r Stryt Fawr • Gwell hygyrchedd i barthau cerdded i bobl ddifrifol anabl • Cyfundrefn barcio arbennig ar gyfer y difrifol anabl i ganiatáu hygyrchedd i ganol y dref sydd heb fod ar gael ar hyn o bryd • Sefydlu parcio a theithio allan o'r dref ar frys • Cadw golwg ar oleuadau traffig ar Ffordd Yr Wyddgrug • Dim gostwng nifer hebryngwyr croesi	Cyngor Cymuned Offa	• Dyluniwyd cynlluniau ar gyfer yr anabl a phramiau. "Brics Bras" nid ar groesfannau • Bu'r hygyrchedd presennol yn destun astudiaeth ac ymgynghoriad • Ni chefnogwyd gan y Cyngor na'r grŵp hygyrchedd • Astudiaeth fanwl i'w chynnal • Gwnaed newidiadau • Nodwyd
26	• Ystyried darparu gwasanaethau ar gyrion y dref i osgoi teithiau diangen i ganol y dref yn peri tagfeydd, h.y. canolfannau gyrru iddynt ar gyfer peiriannau arian y banciau	Cyngor Cymuned Bangor-is-y-Coed	• Ni chefnogwyd – bydd hyn yn annog defnyddio ceir

Cyf.	Sylwadau'r Atebwyr	Enw / Sefydliad	Ymateb
27	• Newid UDP3 "ar gyfer ailagor posibl"	Swyddog Rhwilffyrdd Cymunedol, Llinell Wrecsam i Bidston	• Nodwyd
	• C3 ychwanegu "a gorsafoedd trên (Cyffredinol)		• Nodwyd
	• RS1 – gwasanaeth bob hanner awr ar linell Wrecsam Bidston yw'r isaf un		• Cytuno
	• RS3 - dylai gwasanaethau noswaith, penwythnos a gwyliau banc fod yn ddigonol i annog pobl i ddefnyddio cludiant cyhoeddus a gostwng tagfeydd		• Cytuno
	• Tud. 29 1.25 ychwanegu "a *First North Western* neu unrhyw Gwmni Trenau arall fydd yn gyfrifol am wasanaethau trenau yn ac o gwmpas ardal Wrecsam"		• Nodwyd
	• Tud. 40 4.7. Dylai ddechrau "Rhoi ystyriaeth ddwys" a "neilltuo tir i sefydlu llwybrau newydd "		• Cytuno
	• Tud. 52-55 Efallai y byddai'n briodol i grybwyll bod peth lle ar drenau ar gael i feicwyr sydd am deithio ymhellach		• Dylid cofio'r cyfyngiadau presennol ar gludo beiciau ar drenau. Rhaid cadw lleoedd ymlaen llaw.
	• Tud. 60 A ystyriwyd gwasanaeth hopran allai gysylltu'r ddwy brif orsaf, yr Orsaf Fysiau a meysydd parcio ar gyrion canol y dref gyda'r prif gylchoedd siopa?		• Caiff ei ystyried
	• Tud. 85-87 Gwasanaethau Trên – dim ond cyfeiriad gyda llaw i linell Wrecsam Bidston er bod Wrecsam wedi bod yn rhan o'r bartneriaeth ers peth amser		• Nodwyd – Gweler Polisi RS3
	• Tud. 97 Gwelliant Gwersyllt –byddai adeiladu trogylch ar y gyffordd hon yn rhoi cyfle i wella arwyddion i'r orsaf a chodi'r ddelwedd. Mae tir sylweddol heb ei ddefnyddio ar hyn o bryd rhwng yr heibiad a'r orsaf a allai ffurfio rhan o barcio a theithio		• Cefnogwyd – mae caniatâd cynllunio arno
	• Tud. 131-138 Dangosyddion Cyflawniad a Thargedau - heblaw nwyddau nid oes unrhyw sôn am draffig rheilffordd		• Newidiwyd yr Adran yn y fersiwn terfynol
	• Rwy'n credu yn gryf fod dyfodol cludiant yn dibynnu ar ddefnyddio mwy ar drenau safonol neu ysgafn.		• Cytuno

Cyf.	Sylwadau'r Atebwyr	Enw / Sefydliad	Ymateb
28	• Cynnwys marchogion yn y cynllun cludiant a hefyd nid yw anghenion cefn gwlad yn cael eu hwynebu'n llawn yn y cynllun	Ymgyrch Ddiogelu Cymru Wledig	• Gweler Sylw 15.
29	• Yn Nyffryn Ceiriog mae diffyg lleoedd parcio yn y pentref. Mae trigolion ac ymwelwyr angen parcio i osgoi parcio ar ymyl y B4500.	G M Oldaker	• Problemau lleol sy'n gyffredin drwy'r cyfan o'r Fwrdeistref Sirol
30	• Adfer gwasanaethau bws a ddilëwyd pan aeth Crosville ar streic flynyddoedd yn ôl h.y. Box Lane	Mrs K Jackson	• Nodwyd
31	• Mae llawer o arian yn cael ei wario yng nghanol tref Wrecsam ac nid oes digon yn cael ei wario yn y pentrefi gwledig - ystyried helpu'r pentrefi gwledig	Cyngor Cymuned De Maelor	• Nodwyd
32	• Gwasanaeth trenau bob hanner awr rhwng Caer a'r Amwythig	M Passington	• Nodwyd
33	• O dan Bolisi BS3 hoffem weld gwasanaeth bysiau yn cysylltu canol y dref gyda'r orsaf drenau a'r prif safleoedd siopa • O dan Bolisi RS2 cynnwys archwiliad o ailagor gorsaf Yr Orsedd, Cefn Mawr a Johnstown • Cefnogi'r astudiaeth Rhwydwaith TEN a gynhaliwyd gan Gynghorau Caer a Telford i uwchraddio tramwyfa reilffyrdd Wolverhampton i Gaer rhwng Gorllewin Canolbarth Lloegr a Chaergybi. Byddai'r uwchraddio hwn, o gael digon o gefnogaeth yn denu arian Ewropeaidd i wella'r adeiledd a gwasanaethau trên ar y llinell a chynnwys cyfleusterau nwyddau ar gyfer ardal Wrecsam a'r nod hirdymor o ddyblu'r llinell sengl o Wrecsam i Gyffordd Saltney	Shrewsbury to Chester Rail Users Association	• Nodwyd • Nodwyd • Nodwyd
34	• Nid yw'r polisi yn gyson ar draws y Cyngor - ni chaiff tacsis godi cymdogion i fynd â hwy i'r un cyrchfan. Dylem fod yn annog rhannu ceir yn lle deddfu i'w atal.	Wrexham Private Hire Association	• Mater i'w ymchwilio ymhellach.
35	• Nid yw'n ymddangos fod strategaethau cludiant yn canolbwyntio ar gamlesi. Maent yn dod â llawer o ymwelwyr i'r ardal.	British Waterways	• Mae'r camlesi yn bennaf at ddefnydd hamdden ac nid yn fath o gludiant

Cyf.	Sylwadau'r Atebwyr	Enw / Sefydliad	Ymateb
36	• Ni ddylid gosod mwy o gyfyngiadau ar allu modurwyr i deithio i mewn ac allan o ganol tref Wrecsam nes bydd dewis arall o gludiant cyhoeddus ar gael • Ni fyddai cynllun Parcio a Theithio o unrhyw fudd. Gobeithio na fydd arian y Cyngor yn cael ei wario ar gynllun o'r fath os na fydd modd ei ddefnyddio'n effeithiol • Hoffwn weld mabwysiadu polisi o barcio byr aros ar y stryd i fodurwyr cyffredin allu parcio eu ceir ar y stryd am gyfnod byr • Nid yw Ffordd Holt yn ffordd bwysig ac nid wyf yn credu y dylid gwario adnoddau prin ar ei gwella • Nid yw Ffordd y Dŵr i'r dwyrain o Ffordd Bradle yn ffordd drwodd ond dylid edrych arni fel yn unig fel ffordd i gyrchu'r ysbyty. Byddai'n gam i wario adnoddau prin ar y ffordd hon • Mae'r A525 yn ffordd trwodd ond dylid annog CNTau i ddefnyddio'r A483 yn ei lle. Felly, nid wyf yn credu y dylid gwario adnoddau ar ei gwella. Byddai'n well adeiladu heibiad Coedpoeth fyddai o fudd i'r cyfan o Goedpoeth • Mae'n debygol y caiff safle Lager Wrecsam ei ddatblygu. Mae'n holl bwysig peidio adeiladu unrhyw ffordd drwodd newydd i gysylltu Ffordd Yr Wyddgrug a Ffordd y Dŵr drwy'r safle. Byddai unrhyw gynllun o'r fath fwy neu lai yn rhannu Wrecsam yn ddau swm ychwanegol enfawr o draffig drwy ganol y dref	Dr John Marek AS	• Bu gwell darpariaeth ar gyfer teithwyr cludiant cyhoeddus, beicwyr a cherddwyr yn y blynyddoedd diwethaf • Mae angen ystyried costau a buddion cynllun parcio a theithio yn ofalus cyn gweithredu cynllun. Nid yw'r dewis o fwy o barcio yng nghanol y dref yn cael ei gefnogi • Ychydig o le sydd i barcio ar y stryd. Ym Mehefin 2000 darparwyd mwy o barcio ar y stryd yn Stryt Caer. • Nid yw'r sylw yn eglur. Nid oes gwelliannau ffordd wedi eu cynllunio • Mae'n debyg fod y sylw yn cyfeirio at y rhan i'r gorllewin o Ffordd Bradle. Mae'r ffordd hon yn cludo traffig sylweddol. O'i leihau, byddai traffig ar Ffordd Rhuthun a Ffordd Bradle a Ffordd Yr Wyddgrug yn cynyddu, fel y byddai tagfeydd. • Nid yw heibiad Coedpoeth yn y rhaglen 5 mlynedd. Mae cytundeb o ran gwella'r A483 ac mae'r cynllun yn pwysleisio hyn. Mae angen gwelliannau i leihau problemau lleol ar yr A525. • Nodwyd

Cyf.	Sylwadau'r Atebwyr	Enw / Sefydliad	Ymateb
37	• Cysyniad dosbarthu cynaliadwy yw'r dull newydd o gynllunio cludiant. Dylid trin hyn mewn 4 cyfnod amlwg 1/ Rheoli'r Galw 2/ Dewis Dulliau Teithio 3/ Cyfyngu Effaith 4/ Hybu Effeithlonrwydd • Disgwyliwn i unrhyw CCLl fod â disgwyliadau o ran annog defnyddio rheilffyrdd, dŵr ac awyr at symud nwyddau ac y dylai pob CCLl gydnabod y bydd cyfran sylweddol o nwyddau yn parhau i gael eu symud ar y ffordd • Dylai unrhyw CCLl 1/ ystyried lonydd dim ceir a CNT yn unig 2/ ystyried mesurau priodol lle mae lorïau yn effeithio'n andwyol 3/ dylid defnyddio cyfyngiadau pwysau ond dylid gofalu peidio symud y broblem 4/ dylid ystyried buddsoddi mewn adeiladu Ffyrdd Newydd fydd yn dod â gwelliannau amgylcheddol 5/ Dylid helpu cwmnïau mewn ardaloedd teimladwy i adleoli 6/ lle bydd cyfyngiadau pwysau yn anochel, rhaid i unrhyw gyfyngiad gael ei orfodi yn y fath fodd ag i achosi'r anhwylustod lleiaf i'r cwmnïau 7/ Dylid chwilio am Bartneriaethau Nwyddau o Safon lle bydd buddion sylweddol yn debygol o ddeillio.	Road Haulage Association	• Taflen ffeithiau gyffredinol y Road Haulage Association yn rhestru eu barn, gyda llawer ohono heb fod yn gymwys i'r ardal hon. Gweler Adran 4.127.
38	• Byddai mwy o ddefnyddio ar fysiau pe byddent yn fwy cyfleus. Dim ond un bws y dydd sy'n rhedeg o Stryt Percy i Orsaf Fysiau Stryt y Brenin – yn ogystal, mae'r cwmni'n newid amserlen y llwybr yn aml.	RG Burslem	• Nodwyd

Cyf.	Sylwadau'r Atebwyr	Enw / Sefydliad	Ymateb
39	• Newid UDP3 i ddarllen "diogelu hen reilffyrdd ar gyfer llwybrau beicio neu gerdded neu gynigion i'w hailagor fel gwasanaeth trenau yn y dyfodol " • PTPP1 – Mae gan linell Wrecsam - Birkenhead allu mawr i ddod ag ymwelwyr i mewn. Mae angen i'r llinell hon a llinell Amwythig gael eu hystyried at ddod ag ymwelwyr i mewn heb iddynt fod yn ddibynnol ar eu ceir • Dylai holl lenyddiaeth ymwelwyr gynnwys gwybodaeth am gludiant cyhoeddus • Annog plant ysgol a myfyrwyr o Sir y Fflint a rhannau allanol Wrecsam i ddod ar y trên • Gwasanaeth Llun i Sadwrn bob hanner awr ar y llinell o Wrecsam Canolog. Cais am wasanaeth bore ar gyfer gweithwyr sifftiau sydd am fynd i fannau fel Parc Diwydiannol Glannau Dyfrdwy • Pan fydd y masnachfraint yn cael ei hadnewyddu, gwneud cais am redeg cerbydau newydd ar y llinell • Gorsaf Wrecsam Canolog – llecyn aros wedi ei fandaleiddio, angen archwilio diogelwch yn aml, TCC. Yn y ddwy orsaf mae angen parcio i feiciau a cheir, gwybodaeth gyfoes a chyfundrefnau sain cyhoeddus, blychau ffôn • Mae cysylltiadau gyda threnau Mersey Rail yn achosi problemau ac oedi • Gwasanaeth bysiau o'r orsaf drenau i'r Orsaf Fysiau ar gyfer yr anabl, henoed neu deithwyr gyda bagiau	Wrecsam-Birkenhead Rail Users Association	• Ni chefnogwyd – nid oes modd ei gyfiawnhau yn economaidd hyd yn oed yn yr hirdymor • Cefnogwyd • Nodwyd • Nodwyd • Nodwyd • Nodwyd • Nodwyd • Nodwyd • Nodwyd
40	• Nid oes sôn am farchogion yn y cynllun – nid yw cyfarwyddyd DETR yn sôn amdanynt chwaith. Mae gan farchogion gymaint o hawl defnyddio'r briffordd â defnyddwyr eraill ac, felly, dylai mesurau gael eu cynnig i sicrhau fod ein hanghenion yn cael eu hystyried hefyd.	Wrexham and District Bridleways Assoc.	• Gweler Sylw 15

Cyf.	Sylwadau'r Atebwyr	Enw / Sefydliad	Ymateb
41	• Mae teithwyr angen cyfundrefn gludiant o ansawdd uchel sy'n rhoi dewis ymarferol o ddulliau teithio. Rhaid cael cydbwysedd rhwng anghenion gwahanol ddefnyddwyr • Dylid rhoi Partneriaethau o Safon ar sail statudol. Mae'n hanfodol bod Ymddiriedolaethau Iechyd, Colegau, prif ddiwydiant a'r Cyngor yn gweithredu cynlluniau cludiant cynaliadwy	Cyngor Defnyddwyr Cymru (Dogfen Bolisi)	• Mae'r polisi yn cyd-fynd gyda'r Cynllun Cludiant Lleol hwn • Cytuno
42	• Mae angen dyblu rheilffordd Caer / Wrecsam i hwyluso'r cynigion yn y CCLI. Dylid ailagor gorsafoedd Yr Orsedd a Johnstown • Mae traffig yn cynyddu ar Heibiad Wrecsam o flwyddyn i flwyddyn ac mae wedi mynd yn swnllyd. Dylai pobl deithio ar y trên. • Annog cludo nwyddau ar y trên i leihau lorïau ar y ffordd • Mae angen coed sy'n tyfu'n gyflym / codi sgriniau ar ochr y ffyrdd • Yn hytrach na datblygu Stad Ddiwydiannol Wrecsam, defnyddio tir yng Nghroesnewydd / Lager Wrecsam / Brymbo fel bod cyswllt uniongyrchol i'r heibiad, cysylltiadau rheilffordd i'r dwyrain, adfywio Brymbo ac nid yw safleoedd gwyrdd yn cael eu peryglu • Gwasanaethau bws i gysylltu'r orsaf a chanol y dref fel yng Nghaer • Ailagor y rheilffordd i Riwabon. Cyn hynny, ei diogelu fel llwybr beicio • Wrecsam i fod yn derfynell nwyddau ar gyfer Gogledd Cymru. Nwyddau mewn cynhwysyddion i fynd ymlaen i leoedd eraill o Wrecsam ac i'r Stad Ddiwydiannol	Mr AMB Freeman	• Nodwyd • Nodwyd • Cefnogwyd • Caiff gwelliannau amgylcheddol eu cefnogi • Mae hyn tu allan i gwmpas y cynllun a chaiff ei ystyried fel rhan o'r Cynllun Datblygu Unedol. • Nodwyd • Gweler Sylw 21. • Heb fod yn ymarferol o fewn amserlen y Cynllun
43.	• Amcanion allweddol twristiaeth yw 1/ ymestyn y tymor ymwelwyr 2/ Annog ymwelwyr â Chymru i ystyried defnyddio dulliau teithio eraill yn lle'r car trwy wella hygyrchedd gwybodaeth am gludiant cyhoeddus a darbwyllo cwmnïau cludiant i ystyried anghenion yr ymwelwyr hyn	Bwrdd Croeso Cymru	• Cefnogwyd yn llawn